
www.ecorwyddfa.co.uk

£1

RHIF 494
Hydref 2021

# ECO'r Wyddfa

# Statws Treftadaeth y Byd – Be' nesa'?



Ddiwedd Gorffennaf fe ddyfarnodd UNESCO mewn cyfarfod yn China bod tirwedd llechi gogledd-orllewin Cymru'n deilwng o statws Safle Treftadaeth y Byd. Rydym ni yma yn Nyffryn Peris bellach yn byw yn y pedwerydd o Safleoedd Treftadaeth y Byd UNESCO yng Nghymru, gan ddilyn Traphont Ddŵr Pontcysyllte, Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon a Chestyll a Muriau Trefi Edward I yng Ngwynedd.

Fe gymrodd dros 15 mlynedd o waith paratoi i dderbyn y statws hwn, ond ar ôl dathliadau'r cyhoeddiad be' nesa' i ni yma ym mro'r chwareli? Trowch i dudalen 4.

ⓗ Hawlfraint y Goron

## Yn y rhifyn hwn:


- Siop newydd garej Cwm-y-Glo - **Tud 5**
- Etholiad Senedd Ieuenctid Cymru - **Tud 7**
- Cynllun grantiau Elusen Dyffryn Peris - **Tud 12**
- Gwobr diwydiant i fynwent Llanrug - **Tud 13**
- Y wal goch yn ei hôl - **Tud 32**




5




SENEDD IEUENCTID CYMRU
WELSH YOUTH PARLIAMENT

7



32

## Elin Enfys

### Chwilio am Elin Enfys

**Ble mae Elin Enfys? Dewch o hyd iddi'n cuddio mewn 8 lle yn y papur.**

CYMRAEG

**SWYDDOGION A GOHEBWYR**

**Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith**
Tony Elliott
Bwlch Cae Mawr, Deiniolen LL55 3LU.
07798 552238.
tonyelliott17@yahoo.com

**Golygydd Chwaraeon**
Richard Ll Jones
5 Y Ddôl, Bethel. 01248 670115.
richard.llwyd@yahoo.co.uk

**Golygydd yr Ifanc**
Marged Rhys
marged_3@hotmail.com

**Ffotograffydd**
Gwyndaf Hughes
Hafan, Ffordd Glanmoelyn, Llanrug.
01286 672221.
glasgoed@hotmail.com

**Trefnydd Hysbysebion a Dosbarthu**
Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug. 01286 673838.
hefsj@aol.com

**Trefnydd Ariannol**
Goronwy Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug.
01286 674839.

**Trefnydd Gwerthiant Post**
Olwen Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug.
01286 674839.

**Trefnydd Bwndelu**
Marian Jones
Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig.
01286 870292.

**Dylunydd**
Elgan Griffiths
post@elgangriffiths.com

**GOHEBWYR PENTREFI**

**Bethel**:
Richard Ll Jones
5 Y Ddôl, Bethel. 01248 670115.
richard.llwyd@yahoo.co.uk

**Brynrefail:**
Lowri Prys Roberts
Godre'r Coed, Brynrefail. 01286 870580.
lowri-prys@supanet.com

**Caeathro:**
Lowri Ceiriog
4 Erw Wen, Caeathro.
lowriceiriog@hotmail.co.uk

**Deiniolen:**
Nia Gruffudd
3 Hafod, Clwt y Bont. 01286 870394.
glyn.gruffudd@btinternet.com

**Dinorwig:**
Marian Jones
Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 01286 870292.

**Llanberis:**
Eifion Roberts
Swn y Gwynt, Llanberis. 01286 870740.
eifionroberts132@btinternet.com

**Llanrug:**
Eryl Roberts.
Peris, 56 Glanffynnon, Llanrug.
01286 675384.

**Nant Peris:**
Kate Pritchard
01286 675384.
econantperis@hotmail.com

**Penisarwaun:**
ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

**Waunfawr:**
Iola Gruffydd
iolallew@hotmail.co.uk

# Panel Golygyddol

Croeso i rifyn mis Hydref *Eco'r Wyddfa*! Wedi hoe bach dros yr haf, mae hi'n braf cyflwyno papur difyr ac amrywiol arall i chi – diolch o galon i'r cyfranwyr i gyd.

Dydyn ni griw golygyddol newydd *Eco'r Wyddfa* ddim mor newydd bellach ac wedi dod i nabod ein gilydd a deall y gwaith dros y flwyddyn. Ar ôl dysgu be di be mae pethau wedi dod yn eitha rhwydd ac mae'n bleserus iawn cael bod y cyntaf i ddarllen y straeon sy'n ein cyrraedd a chyd-weithio efo'r tîm. Mae croeso mawr i unrhyw un sydd am wirfoddoli neu ymuno gyda'r criw golygyddol. Os hoffech chi fwy o wybodaeth neu sgwrs ffôn am hyn, cysylltwch dros ebost (ecorwyddfa@gmail.com), ry'n ni bob amser yn falch o groesawu wynebau newydd.

Fel y gwelwch chi yn Newyddion Llanrug, rydyn ni yn chwilio am ohebydd newydd i Lanrug. Diolch yn fawr iawn i Eryl am dros 20 mlynedd o wasanaeth a chefnogaeth i'r Eco, fe hoffai hi roi'r gorau i'r gwaith yn fuan; felly gobeithiwn yn fawr y bydd rhywun arall yn ymgymryd â'r gwaith yn ei lle – mae mwy o fanylion ar dudalen Newyddion Llanrug.

**Criw Golygyddol *Eco'r Wyddfa***

## Rhoddion

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

£2 di-enw, Llanrug.
di-enw, Llanrug.
di-enw, Llanrug.
£10 Brian Price, 14 Hafod Oleu, Deiniolen.
Mr a Mrs E R Jones, Tregarth.
Haf Thomas, Pen y Cae, Llanrug.
£12 di-enw, Llanrug.
£20 Valmai Lloyd, i gofio am Emma Bernard.
£30 Mair a Dennis Davies, Tregarth, er cof am deulu Ty'n Buarth, Brynrefail: Richard Wyn Evans, Gwyneth Evans a Dilys Wyn Morris.
- er cof am Alwyn Peris Williams, 14 Tŷ Du Road, Llanberis, oddi wrth Mam, Gareth, Clare ac Osian.
£50 er cof annwyl am Heddwyn Evans, gan ei chwaer Carys.

## Dyddiadau i'w cofio...

| Rhifyn | Dyddiad cau derbyn cynnwys (ail ddydd Gwener yn y mis) | Dyddiad cyhoeddi (pedwerydd dydd Gwener yn y mis) |
|---|---|---|
| Tachwedd | 14 Hydref | 28 Hydref |
| Rhagfyr | 11 Tachwedd | 25 Tachwedd |

## Llythyrau

Annwyl ddarllenwyr,
Cynaliadwyedd. Term y bydd y mwyafrif ohonom yn gyfarwydd ag o erbyn hyn, a therm sy'n flaenoriaeth i'r diwydiant cig coch wrth gynllunio i'r dyfodol.

Oeddech chi'n gwybod mai Cymru yw un o'r llefydd mwyaf cynaliadwy ar y ddaear i gynhyrchu cig coch? Mae'r dirwedd yn addas ar gyfer defaid a gwartheg sy'n dibynnu ar adnoddau naturiol. Mae ôl-troed carbon ein cig yn llawer is na chig nifer o wledydd eraill ac mae'n ffermydd yn cyfrannu at storio carbon yn y pridd. Er bod mwy i'w wneud, gall ein diwydiant cig coch fod yn rhan o'r ateb i daclo newid hinsawdd

Mae'n hollbwysig bod ein pobl ifanc yn sylweddoli hyn. Am y rheswm yma, mae Hybu Cig Cymru (HCC) wedi mynd ati i greu gwefan newydd sbon yn arbennig ar gyfer athrawon a gweithwyr iechyd, sef www.hwbcigcoch.cymru. Dyma'r lle i gael gafael ar lwyth o adnoddau lliwgar i'w lawrlwytho'n rhad am ddim.

Gallwch ddod o hyd i adnoddau am fywyd ar y fferm, am darddiad cig coch, sut i fwyta'n iach a choginio. Ewch i gael golwg ar y cyflwyniadau a thaflenni gwaith parod, ac ar y ryseitiau, fideos a chwisiau rhyngweithiol sy'n addas ar gyfer disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnodau Allweddol 2, 3 a 4.

Felly os ydych chi'n athro neu athrawes, yn gweithio yn y maes iechyd neu'n rhiant chwilfrydig, cofiwch am y wefan newydd hon ac ewch ati i'n cynorthwyo i addysgu cenedlaethau'r dyfodol am rinweddau cig coch Cymru.

Os hoffech fwy o wybodaeth, mae croeso i chi gysylltu â HCC ar 01970 625050 / info@hybucig.cymru.

Yn gywir,
Elwen Roberts, HCC

Annwyl Ddarllenwyr,
Hoffwn dynnu eich sylw i Gylchgrawn Newydd Cyw. Cyw a'i ffrindiau yw sêr y cylchgrawn lliwgar hwn, ac ynddo ceir 48 tudalen yn llawn dop o weithgareddau hwyliog (ac addysgol) ar gyfer plant ifanc hyd at 6 oed.




Mae cyfle i ddysgu am lythrennau a rhifau wrth chwarae, chwerthin a dysgu. Mae storïau, syniadau am weithgareddau creadigol, cyfle i goginio (gyda help oedolyn wrth gwrs!) a llond lle o sticeri.

Law yn llaw â'r cylchgrawn, mae gwefan arbennig sy'n cynnig cyfieithiad o'r holl gynnwys – yn rhoi cyfle i'r di-Gymraeg glywed storïau yn cael eu darllen yn y Gymraeg.

Bydd rhifyn yr Hydref ar werth o 10 Medi ymlaen. Pris y cylchgrawn yw £3.99 ac mae'n ymddangos yn dymhorol. Gellir tanysgrifio i dderbyn rhifyn bob tymor am flwyddyn am £15 (post am ddim) yn syth i'r cartref, sydd hefyd yn ei wneud yn anrheg ddelfrydol i blentyn bach!

Gellir prynu copi o wefan Peniarth, http://pth.cymru/siop-cyw-cylcgrawn neu o'ch siop lyfrau lleol. Mae modd trefnu tanysgrifiad ar y wefan honno hefyd.

Hwyl ar y darllen!

# Pigion Bro Wyddfa 360

Bro Wyddfa 360

**Treialon Cŵn Defaid Nant Peris a'r Cylch 2021**
Diwrnod llwyddiannus gyda 64 yn cystadlu gan Kate Pritchard

Ddydd Sadwrn, 4 Medi, daeth 64 o gystadleuwyr/gŵn i gymryd rhan yn Nhreialon Cŵn Defaid Nant Peris a'r Cylch.

Cafwyd Treialon llwyddiannus iawn ar ôl peidio gallu cynnal un flwyddyn ddiwethaf. Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i'r beirniad Rhion Owen, pawb a wirfoddolodd ar y cae ar y diwrnod, a'r holl gystadleuwyr am ein cefnogi unwaith eto.

**CANLYNIADAU TREIALON 2021**

**DOSBARTH AGORED**
1) E L Morgan, Nel. 8
2) Gwilym Davies, Gwyn. 9
3) Idris Thomas, Nel. 12
4) Medwyn Evans, Eryri Nan. 14
5) Aled Owen, Bud. 15
6) E W Edwards, Jet. 16

**DOSBARTH 2**
1) Gwilym Davies, Gwyn. 11
2) Hefin Jones, Llanfarian Mirk. 12
3) Jack Roberts, Shep. 14
4) Medwyn Evans, Eryri Jini. 17
5) E W Edwards, Dan. 18

**LLEOL**
1) Bryn Griffiths, Cap
2) Bryn Griffiths, Meg
3) Michael Williams, Meg
4) Michael Williams, Ffur





## Yn ystod y mis aeth heibio...

- Chwilen. Mae gwyddonydd o Awstralia wedi darganfod chwilen sy'n cerdded ar ddŵr – ar ei ben i lawr o dan yr wyneb! Damwain hollol oedd y darganfyddiad oherwydd mai astudio bywyd math arbennig o lyffant oedd bwriad yr ymchwil.
- Hamdden. Mae merched a phobl dros 34 oed yn fwy tebygol o dreulio amser hamdden yn yr awyr agored na dynion ac ieuenctid.
- Ystadegau. Yn 2020 cofnodwyd mwy o farwolaethau na genedigaethau yn y Deyrnas Unedig – a hynny am y tro cyntaf ers 50 mlynedd.
- Rhwyfo. Mae'r record am Ras y Môr Tawel wedi ei thorri gan bedair o ferched, gan rwyfo 2,800 milltir o San Francisco i Hawaii mewn 35 diwrnod.
- Offeryn cerdd. Amcangyfrifir fod dros filiwn o bobl wedi rhoi cynnig ar ddysgu offeryn cerdd yn ystod y pandemig.
- Pêl-droed. Y gêm bêl-droed derfynol rhwng Lloegr a'r Eidal yng nghystadleuaeth Euro 2020 oedd y rhaglen gyda'r mwyafrif uchaf o wylwyr yn hanes darlledu ym Mhrydain – dros 31 miliwn yn gwylio. (Ond does wybod a gafodd y mwyafrif ohonynt eu plesio gyda'r canlyniad).
- Gwlad, Gwlad. Yn ystod y cyfnod cyfyngu ar deithio oherwydd y pandemig, roedd Denmarc yn cydnabod Cymru fel gwlad, ac yn rhoi caniatâd i Gymry deithio yno, ond yn gwahardd pawb o weddill gwledydd Prydain.
- Afanc. Ganwyd un o'r creaduriaid prin hyn yn y gwyllt yn Exmoor am y tro cyntaf ers 400 mlynedd. Cafodd afancod eu hail-gyflwyno i'r ardal ddwy flynedd yn ôl ar dir o eiddo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.
- Gêm. Super Mario 64, gêm na chafodd erioed ei chwarae gan ei pherchennog, yn gwerthu am £1.12 miliwn.
- Feirws. Gwyddonwyr yn archwilio llen iâ yng ngwlad Tibet yn darganfod 28 math gwahanol o feirws a oedd wedi eu rhewi ers dros 15,000 o flynyddoedd.
- Efeilliaid. Yn y Gemau Olympaidd a gynhaliwyd yn Tokyo, roedd gan dîm Prydain Fawr wyth pâr o efeilliaid yn cystadlu – y nifer uchaf erioed.
- Arian. O bob taliad a wnaethpwyd yn ystod 2020 dim ond 17% oedd gydag arian parod. Dim ond 76% o'r boblogaeth wledig sydd o fewn dau gilomedr i beiriant arian parod.
- Hinsawdd. Ystadegau yn dangos mai 2020 oedd y flwyddyn gynhesaf, wlypaf a mwyaf heulog erioed ym Mhrydain.
- Coed. Mae Madrid yn cael ei hamgylchynu gan goed, a hynny'n fwriadol. Mae hanner miliwn o goed yn cael eu plannu mewn cylch 46 milltir o amgylch y brifddinas a fydd yn amsugno 175,000 tunnell o garbon deuocsid blynyddol, ac yn gymorth i ostwng lefel gwres y ddinas.
- Teledu. Yn 2020 ar gyfartaledd, treuliodd oedolion Prydain 5 awr a 40 munud y diwrnod yn gwylio teledu.
- Castell. Mae archeolegwyr wedi darganfod olion castell 800 mlynedd oed yn Wem, swydd Amwythig.
- Pacedi lapio. Mae cwmni o'r Almaen wedi datblygu pacedi i lapio am fwyd – a'r pacedi eu hunain yn fwytadwy
- Medal aur. Am y tro cyntaf ers 1912 yn y Gemau Olympaidd rhannwyd medal aur gan ddau neidiwr uchel. Penderfynodd y ddau enillydd nad oedd y naill na'r llall yn haeddu colli.

# Statws Treftadaeth y Byd – Be’ nesa’?

Mae’n debyg ein bod ni yma ym mro’r chwareli’n gwybod erioed ein bod yn byw yn rhywle arbennig ond mae’n reit braf bod yna sefydliad rhyngwladol bellach yn cytuno!

Mewn cyfarfod o Bwyllgor Treftadaeth y Byd UNESCO ar 28ain Gorffennaf dyfarnwyd bod tirwedd llechi gogledd-orllewin Cymru’n Dirwedd Ddiwylliannol gwirioneddol bwysig ac yn cael ei enwi’n Safle Treftadaeth y Byd. Yn yr un cyfarfod, yn eironig ddigon, y collodd safle dociau Lerpwl eu statws hwythau, mae’n debyg oherwydd gor-ddatblygu. Felly, mae angen i hynny fod yn wers i eraill!

Llwyddodd bröydd y chwareli i gyflawni dwy elfen o’r criteria a osodwyd gan UNESCO ar gyfer Tirwedd Diwydiannol:

- Mae’n dangos ac yn cyfrannu at gamau pwysig, rhwng 1780 a 1940, mewn datblygiadau ym myd pensaernïaeth, a thechnoleg
- Mae’n esiampl eithriadol o dirwedd sy’n dangos, mewn ffordd ddramatig, sut mae pobl a thirwedd yn medru cyd-weithio er mwyn datblygu adnoddau naturiol.

Un o 6 bro chwarelyddol yng Ngwynedd ydym ni yma yn Nyffryn Peris, sydd efo’i gilydd yn creu Tirwedd Llechi Gogledd Cymru:

1. Dyffryn Ogwen
2. Dyffryn Peris
3. Dyffryn Nantlle
4. Gorseddau a Bwlch y Ddwy Elor (Cwm Pennant a Chwm Ystradllyn)
5. Bro Ffestiniog
6. Abergynolwyn a Thywyn.

Dyma ychydig o ffeithiau diddorol i chi am y diwydiant llechi:

- Mae llechi wedi’u cloddio yn yr ardal am dros 1,800 o flynyddoedd ac wedi’u defnyddio i adeiladu rhannau o gaer Rufeinig Segontiwm yng Nghaernarfon a chastell Edward I yng Nghonwy
- Erbyn y 1890au, roedd y diwydiant llechi yng Nghymru yn cyflogi oddeutu 17,000 o weithwyr ac yn cynhyrchu bron i 500,000 tunnell o lechi y flwyddyn, oddeutu traean o’r holl lechi toi a ddefnyddiwyd yn y byd ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg
- Erbyn 1830, roedd toeau llechi Cymreig ar tua hanner adeiladau Efrog Newydd
- Yn 1882 roedd 5,500 tunnell o lechi (chwareli Dinorwig a’r Penrhyn yn bennaf) yn cael eu hallforio i Awstralia yn unig.

Mae’r Amgueddfa Lechi yn Llanberis yn un o’r partneriaid fu’n rhan o ddatblygu’r cais am statws treftadaeth, ac mae arddangosfa newydd agor yno sy’n esbonio arwyddocad y statws ac yn darlunio gorffennol a phresennol y diwydiant. Mae’r arddangosfa i’w gweld yno tan 31 Rhagfyr - mae angen i chi gysylltu â’r Amgueddfa o flaen llaw i archebu tocyn mynediad am ddim. Rhagor yma - https://amgueddfa.cymru/llechi/digwyddiadau

Un o’r prosiectau y bu’r Amgueddfa’n rhan ohono oedd prosiect LleCHI. Fel rhan o’r prosiect crëwyd cyfres o ffilmiau sy’n rhoi trosolwg o bob un o’r 6 ardal. O dan arweiniad ein bardd cenedlaethol, Ifor ap Glyn, ffilmiwyd Dr David Gwyn, hanesydd o’r diwydiant llechi, yn sôn am Chwarel Dinorwig. Os na fedrwch gyrraedd yr Amgueddfa gallwch wylio’r ffilm fer ar YouTube drwy chwilio am ‘Tirwedd Llechi gogledd-orllewin Cymru Dinorwig’.

Nid edrych yn ôl yn unig y mae’r Amgueddfa ar hyn o bryd, ond dechrau cynllunio at ei dyfodol. Dyma oedd gan Elen Roberts, Pennaeth Safle Dros Dro, i’w ddweud:

‘A ninnau’n dathlu dod yn rhan o Safle Treftadaeth Byd UNESCO eleni a’n penblwydd yn 50 oed y flwyddyn nesaf, dyma’r cyfle perffaith i’r Amgueddfa Lechi edrych i’r dyfodol.

Mae’n bwysig i ni ein bod yn amgueddfa i’n cymunedau a’ch bod chi’n cael cyfle i gymryd rhan yn y broses o siapio ein camau nesaf. Dros yr wythnosau nesaf byddwn yn rhannu holiadur ar y cyfryngau cymdeithasol, ar ein gwefan ac yn y gymuned er mwyn i chi gael rhannu eich syniadau am ba ddatblygiadau yr hoffech eu gweld yn digwydd yn yr Amgueddfa yn y blynyddoedd i ddod.’

Y prif bartner yn arwain y cais i dderbyn statws safle treftadaeth oedd Cyngor Gwynedd, ac mae’r Cyngor hefyd yn cynllunio’r camau nesaf.

Dywedodd y Cynghorydd Gareth Thomas, Aelod Cabinet Cyngor Gwynedd dros yr Economi a Chymuned:

“Byddwn yn cadarnhau trefniadau i fabwysiadu Cynllun Twristiaeth Cynaliadwy i Wynedd sydd wedi ei seilio ar Egwyddorion Twristiaeth Cynaliadwy Sefydliad Twristiaeth y Byd Unesco. Mae’r weledigaeth ddrafft yn canolbwyntio ar roi pobl Gwynedd yn ganolog i’n cynllun economi ymweld i’r dyfodol, gyda phwyslais arbennig ar ein hiaith, diwylliant a threftadaeth, amgylchedd gynaliadwy a sicrhau’r buddion mwyaf i gymunedau a busnesau Gwynedd.”


Dros y misoedd nesaf, bydd y Cyngor hefyd yn arwain ar sawl ymgynghoriad lle bydd yn gofyn i bobl a busnesau Gwynedd am eu blaenoriaethau i’r dyfodol fel ffordd o ddatblygu 13 Cynllun Adfywio Ardal i Wynedd, ac mae gan nifer o’r ardaloedd gysylltiad â’r Safle Treftadaeth Byd.

Cwestiynau dilys sydd wedi eu gofyn yn ystod y broses o geisio am y statws ydi - ‘Be’ fydd effaith hyn ar yr iaith Gymraeg yn yr ardal?’, ‘A fydd hyn yn arwain at or-dwristiaeth ac a fydd yr ardal yn gallu ymdopi?’, ‘A fydd yn cyfrannu at yr argyfwng tai yn lleol?’. Ar hyn o bryd does yna neb fedr ateb y cwestiynau hyn gyda sicrwydd. I raddau, mae gennym ni - y cymunedau lleol - ddylanwad ar sut fydd ein dyfodol yn edrych.

Os ydi Cyngor Gwynedd am ddatblygu ‘Cynllun Twristiaeth Cynaliadwy’ yna mae gennym ni fel unigolion hawl i leisio ein barn, naill ai’n uniongyrchol neu trwy ein cynghorwyr, a chyfrannu at y broses o greu’r cynllun hwnnw. Edrychwn ymlaen at ddechrau’r broses! Felly hefyd fwriad y Cyngor i greu ‘13 Cynllun Adfywio Ardal’, gan fod angen lleisiau lleol i ddylanwadu ar unrhyw gynlluniau sy’n mynd i effeithio’n uniongyrchol arnom.

Os bydd Safle Treftadaeth y Byd yn agor drysau i fwy o waith o safon uwch, ac yn creu cyfleoedd newydd, yna mae angen cadw’r gwaith a’r elw hwnnw’n lleol os yw’n cymunedau am lwyddo. Chwiliwn am y cyfleoedd a’u bachu.

ADVANCED VEHICLE WORKSHOP AVW
Which? Trusted trader
BOSCH Service Car Service
Gwasanaeth Lleol, Cyfeillgar a Phroffesiynol
www.AVWBosch.co.uk – 01286 673559
Zone 2, Cibyn Ind Est, Caernarfon, LL55 2BD



BYSUS RHIWLAS
BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Tripiau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol - Ffoniwch (01248) 361044
D. P. OWENS RHIWLAS

Busnesa

# Siop Newydd Cwm



Staff y siop - Sion, Iris, Neil, Gareth ac Avril

Mae'n debyg bod rheswm gan nifer ohonom i ddiolch am gymorth Gorsaf Betrol *London Garage*. Tybed sawl un sydd wedi cael sioc o ganfod fod angen llenwi tanc y car ar fyr rybudd, ond bod gwasanaeth cyson a dibynadwy'r garej wedi camu i'r adwy? Bydd y cwsmeriaid rheiny'n hen gyfarwydd ag adeilad blaenorol y garej – y cwt bach llawn o ddanteithion – ond bellach, mae siop newydd sbon wedi ei hagor ar y safle i wasanaethu trigolion Cwm-y-Glo a'r gyrrwyr lu sy'n aros yno pob diwrnod.

Mae'r busnes yn fenter deuluol. Cyn i Neil a Michelle ei phrynu yn 2006, Iris Rowlands, mam Neil, fu'n gyfrifol am ei rhedeg. Mae Iris yn wyneb cyfarwydd a chyfeillgar i unrhyw un sy'n croesi trothwy *London Garage*, ac mae hynny'n siŵr o barhau yn yr adeilad newydd!

Mae agor y siop ar ei newydd wedd wedi bod yn freuddwyd hir gan Neil a Michelle, sy'n byw yn Llanberis. Fe eglurodd Neil:

"Da ni 'di bod isio'r siop newydd ers cymaint, ond dim ond yn y safle mae hi rwan oedd posib adeiladu. 'Doedd hi'm yn bosib meddwl am adeiladu ar ran arall o'r safla, ac efo petha'n symud ymlaen o'n cwmpas ni – a ninna'n dal i ddisgwyl y cyfla i adeiladu – heblaw am bobl leol fysa ni byth, byth 'di dal.

"Mae 'na gymaint o gefnogaeth 'di bod a 'da ni'n ddiolchgar iawn am hynna."

Atgyfnerthwyd y gefnogaeth hon yn ystod Cyfnod Clo'r llynedd. Er i gyfyngiadau'r pandemig olygu bod llai o ofyn ar bobl i deithio, ni fu tawelu ar fwrlwm y garej. Meddai Michelle:

"Roedd 'na rwbath yn braf yno fo. Er mai *petrol station* ydi hi, mi oedd pobl dal yn dod yma i nôl papur yn y bora ac wedyn yn aros tu allan i gael sgwrs."

Hir yw pob ymaros, ond cafwyd cyfle yn 2020 i fwrw ati â'r freuddwyd. Cychwynnodd y gwaith adeiladu ym mis Rhagfyr, ac er i gyfyngiadau'r pandemig gyflwyno ambell her i'r gwaith, fe agorodd y siop ei drysau am y tro cyntaf ddiwedd mis Gorffennaf.

Roedd yr adeiladu dan oruchwyliaeth cwmni RELM, ac roedd Neil a Michelle yn falch iawn o hynny oherwydd cysylltiadau teuluol â Daniel o'r cwmni a fu'n rhan allweddol o'r prosiect. Bu'r cyfnod adeiladu'n gyfnod cyffrous (a phrysur!) i Neil a Michelle ac wrth baratoi at gael croesawu cwsmeriaid am y tro cyntaf i'w hadeilad newydd, fe ddywedodd Michelle:


"Gobeithio bydd o'n dda i'r pentra' ac yn gwneud petha'n brafiach i bawb. Mae'r *locals* o'r pentrefi o'n cwmpas ni mor dda efo ni – ma' nhw'n *brilliant* deud y gwir!"

Erbyn hyn, bron i ddeufis yn ddiweddarach mae'r siop wedi hen ennill ei phlwyf, ac mae'r *Eco*'n dymuno'n dda iddi. Mor braf ydi gweld siop newydd yn agor yn un o bentrefi'r fro.

Mae'r siop ar agor o 7.00 AM hyd 9.00 PM. Ewch draw!


**Tyddyn Teg**
**Bwyd - Tir - Pobl**
**LLYSIAU LLEIL FFRES**
**Ymunwch â'n cynllun llysiau!**
**Dewch i'n siop!**
- **Rydym bob amser gyda lysiau blasus a ffres o'n caeau a'n twneli polythen.**
- **Rydym wedi ein lleoli ym Methel ar y ffordd tuag at Llanrug.**

Cyslltwch â ni: **07599 813777**
info@tyddynteg.com
Neu ewch i'n gwefan: **www.tyddynteg.com**


E. W. PRITCHARD
Trefnwyr Angladdau
CENTRAL GARAGE, LLANBERIS
FFÔN - (01286) 870202

# Haf o Hwyl yn Byw'n Iach Arfon



Dros yr haf, wedi deunaw mis heriol, cynigiodd Canolfan Byw'n Iach Arfon bob math o weithgareddau i blant yr ardal, fel rhan o ymgyrch genedlaethol 'Haf o Hwyl' yng Nghymru eleni.

Roedd Byw'n Iach yn falch o fod wedi cyfrannu tuag at 'Haf o Hwyl' (a gefnogwyd gan Gomisiynydd Plant Cymru, Chwaraeon Cymru, Llywodraeth Cymru, yr Urdd a Chyngor Gwynedd) i ddarparu sesiynau hwyliog am ddim i blant dros yr haf. Bu'r sesiynau amrywiol yn gyfle gwych hefyd i blant a rhieni allu ymlacio a chymdeithasu'n ddiogel.

Dyma a ddywed Amanda Davies, Rheolwr Gyfarwyddwr Byw'n Iach, am y gweithgaredd: "Rydym yn ymwybodol iawn fod plant a phobl ifanc yng Ngwynedd wedi colli allan ar nifer fawr o gyfleoedd i gadw'n heini, dysgu sgiliau a chymdeithasu efo ffrindiau dros y flwyddyn ddiwethaf.

"Mae tystiolaeth glir i'r effaith negyddol a gaed ar iechyd corfforol a meddyliol sawl un o'n pobl ifanc. Mae'r rhaglen 'Haf o Hwyl' wedi darparu amrywiaeth eang o weithgareddau i bob oedran, gan ganolbwyntio ar fwynhau a chael hwyl efo ffrindiau mewn amgylchedd diogel. Roedd hi'n wych gweld y plant yn mwynhau eu hunain yng Nghanolfan Arfon.

"Un elfen o'r rhaglen oedd cynnig cyfleoedd i adeiladau hyder yn y dŵr wedi i gynifer o wersi nofio gael eu colli. Roedd trefniadau diogelwch Covid-19 ar waith yn holl safleoedd Byw'n Iach i ddiogelu ein cwsmeriaid, ac roedd ein staff profiadol wrth law i gadw pawb yn saff."



Roedd rhaglen gyffrous ac amrywiol a gweithgareddau i bob oedran, yn cynnwys:

- Sesiynau Chwarae Meddal, Beicio Balans a Sesiynau Nofio "Swigod" i'r rhai bach
- Sesiynau Aml Chwaraeon, Nofio, Plymio a Ffitrwydd i'r criw oed cynradd
- Sesiynau Ffitrwydd a Sesiynau anffurfiol Galw Heibio ar gyfer yr oedran uwchradd.

Dyma oedd gan un rhiant lleol i'w ddweud: "Mae'n braf cael bod allan eto a gweld pobol, yn enwedig pan mae'r plant yn gallu chwarae'n ddiogel gyda phlant eraill." A dyma oedd gan un plentyn i'w ddweud ar ôl cymryd rhan mewn sesiwn Aml Chwaraeon: "Dwi'n hoffi dod yma gan fy mod yn gallu gwneud llawer mwy o bethau gwahanol nag y byswn i adra, fel chwarae gêm o hoci gyda fy ffrindiau."

Darparwyd cefnogaeth ychwanegol gan staff Gwasanaeth Ieuenctid Gwynedd a nifer o gyrff llywodraethu chwaraeon cenedlaethol. Roedd cyfleoedd anhygoel i blant Gwynedd allu derbyn hyfforddiant gan Badminton Cymru, Criced Cymru, Sboncen Cymru a Phêl-fasged Cymru. Mae Byw'n Iach mor ddiolchgar am eu cyfraniad rhyfeddol at y rhaglen ac yn gobeithio gallu cyd weithio efo nhw eto yn y dyfodol.

Mae Byw'n Iach yn awyddus iawn i geisio dangos gwerth y sesiynau hyn i deuluoedd lleol. Os cawsoch chi neu aelod o'ch teulu fudd o'r rhaglen, mae cyfle i chi lenwi holiadur byr ar lein i rannu eich profiadau:

https://survey.alchemer.eu/s3/90370929/Gwynedd

Bydd yr adborth yn werthfawr o ran sicrhau cefnogaeth i ddarparu mwy o sesiynau tebyg yn y dyfodol. Mae'r holiadur ar gael tan ddiwedd Medi 2021.

Mae'r cwmni hefyd yn falch o gyhoeddi fod staff Tîm "Chwaraeon am Oes" yng Ngwynedd wedi ymuno â Byw'n Iach ddechrau Medi. Dyma ddatblygiad cyffrous a fydd yn creu "siop un stop" ar gyfer gwasanaethau chwaraeon yn y sir. Bydd y tîm yn ffurfio Uned Partneriaethau newydd sbon ac yn ymestyn at grwpiau amrywiol sy'n wynebu rhwystrau i gael mynediad at wasanaethau ffitrwydd a chwaraeon. Bydd hefyd yn cynnig cefnogaeth i glybiau a mudiadau cymunedol i greu cyfleoedd newydd, cynhwysol ar gyfer trigolion lleol.

Bydd Byw'n Iach yn parhau i gynnig amrywiaeth o weithgareddau a sesiynau egnïol ar gyfer plant a phobl ifanc gydol yr hydref, fel gwersi nofio a gymnasteg, gweithgareddau clybiau chwaraeon a llawer mwy! Bydd rhaglen Hanner Tymor yr Hydref hefyd, ac felly am fwy o wybodaeth gwnewch yn siŵr eich bod yn cadw golwg ar wefan a chyfrifon *Facebook, Twitter* ac *Instagram* Byw'n Iach a rhaglenni eich canolfannau lleol.



Royal Victoria Hotel LLANBERIS
www.theroyalvictoria.co.uk
Dathliadau ● Achlysuron Arbennig ● Cynadleddau
Pwyllgorau ● Bwydlen Bar ● Cinio Dydd Sul
● PRIODASAU ●
Ffôn - 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk

# TUDALEN YR IFANC

SENEDD IEUENCTID CYMRU
WELSH YOUTH PARLIAMENT

**Beth yw Senedd Ieuenctid Cymru?**
Mae Senedd Ieuenctid Cymru yn cynnwys 60 aelod rhwng 11 a 18 oed. Ers ei sefydlu yn 2018 mae'r Senedd wedi bod yn gyfle i bobl ifanc Cymru ddod ynghyd i drafod "y pethau y mae pobl ifanc eu heisiau a'u hangen, a chodi'r materion sy'n bwysig i bobl ifanc Cymru."

Caiff 40 o'i haelodau eu hethol yn electronig gan ieuenctid Cymru, ac mae'r 20 sy'n weddill yn cael eu hethol gan "sefydliadau partner" sy'n cynnwys Barnardos Cymru a Girlguiding Cymru.

Mae Siân Gwenllian AS wedi galw ar bobl ifanc Gwynedd i "gamu i'r adwy" yn etholiadau Senedd Ieuenctid Cymru eleni;

"Mae'r blynyddoedd diwethaf wedi amlygu'r rhan hanfodol y mae pobl ifanc yn ei chwarae yn ein democratiaeth.

"O'u gwaith brwd yn tynnu sylw at yr argyfwng hinsawdd sy'n ein hwynebu, i'w hangerdd yn ymladd yn erbyn anghyfiawnderau, fel y protestiadau yn dilyn llofruddiaeth George Floyd y llynedd.

"Eu dyfodol nhw rydyn ni'n ei drafod, a'u bywydau nhw sy'n cael eu heffeithio gan heriau fel yr argyfwng hinsawdd, Brexit, llymder economaidd, a'r argyfwng tai.

"Mae'n bwysicach nag erioed eu bod yn camu i'r adwy ac yn sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed. Rwy'n annog ieuenctid Arfon, Gwynedd, a Chymru i ystyried y fraint o gynrychioli eu cartrefi yn y Senedd Ieuenctid."

**Beth mae aelod Senedd Ieuenctid Cymru yn ei wneud?**
Mae'r 60 o bobl ifanc yn dod at ei gilydd i greu'r senedd gan gyfarfod yn llawn dair gwaith yn ystod y tymor 2 flynedd. Chi, bobl ifanc Cymru, sy'n penderfynu pa bwnc y dylai Senedd Ieuenctid Cymru drafod a chodi ymwybyddiaeth ohoni, a hynny trwy gyfathrebu gyda'ch aelod Senedd Ieuenctid Cymru lleol chi. Yna mae'r aelod yn mynd a'r pwnc i'w drafod yn genedlaethol gyda gweddill aelodau'r senedd. Byddant yn casglu barn gan bobl ifanc dros Gymru am y pwnc a'n trafod gyda rhai sydd yn medru gwneud newid.

Mae cefnogaeth i'r person ifanc trwy gydol eu cyfnod yn y senedd gyda hyfforddiant, digwyddiadau a chyfleoedd i roi cyfweliadau ac ymwneud â'r cyfryngau. Bydd y senedd yn talu unrhyw gostau ar gyfer cefnogi teithio, llety, bwyd ag ati yn ogystal.

Y pynciau diweddaraf i gael sylw gan Senedd Ieuenctid Cymru yw sgiliau bywyd yn y cwricwlwm, sbwriel a gwastraff plastig, a chymorth iechyd emosiynol ac iechyd meddwl.

Mae'n bosib i unrhyw berson ifanc roi eu barn ar y pynciau yma drwy wefan seneddieuenctid.senedd.cymru

**Amser i bleidleisio**
Mae'r rhai sydd â diddordeb mewn sefyll bellach wedi datgan eu diddordeb. Ond bydd angen i bob ymgeisydd redeg ymgyrch er mwyn ennill dy bleidlais di ym mis Tachwedd eleni. Felly cofia gadw golwg ar www.seneddieuenctid.senedd.cymru ar Hydref 11eg i wybod pwy sy'n sefyll dros dy ardal. Dyma'r unigolion fydd yn dy gynrychioli di, yn llais i ieuenctid Arfon ac yn gwneud gwahaniaeth i'r dyfodol. Gall unrhyw un rhwng 11 a 18 gofrestru i bleidleisio cyn Tachwedd 12fed, felly defnyddia dy lais a bwrw dy bleidlais!

## CAEATHRO

**Capel**
Ar y 3ydd Hydref, bydd Oedfa Diolchgarwch yn cael ei chynnal dan arweiniad y Gweinidog, y Parchedig Marcus Wyn Robinson, i gychwyn am 2.00 PM.

Ar 17eg Hydref am 2.00 PM, bydd Gwasanaeth dan arweiniad y Bonheddwr Dafydd Iwan.

**Newyddion**
Ar hap a damwain wrth bori drwy hen rifynnau'r Eco, daeth Clive James o hyd i enw unigolyn sydd heb ei gynnwys ar y 'Roll of Honour' sydd yn y Capel. Ymunodd William Jones (neu Gwilym Jones, fel oedd yn cael ei adnabod gan bawb) o 20 Tai Glangwna, Caeathro ac a aned yn 1917, â'r Llynges Fasnachol yn ifanc. Un arall o'r teulu oedd y diweddar Hugh 'Joci' Jones. Cyn diwedd yr Ail Ryfel Byd ym 1945, bu ymosodiad ar ei long, y *Bardistan*, oddi ar arfordir Portiwgal ac fe'u lladdwyd ef ynghyd â nifer o'i gyd-forwyr, a chafodd ei gladdu ym mynwent Brydeinig St. George yn Lisbon. Darganfyddwyd ei fedd gan Neville Thorman Jones ym 1997 pan oedd ar wyliau yn yr Algarve – roedd ei Dad, Twm, yn frawd i Gwilym. Braf yw cael cadarnhau fod y wybodaeth yn y 'Roll of Honour' wedi ei gywiro i adlewyrchu'r darganfyddiad yma.

**Gwellhad buan**
Pob dymuniad da i Richard Jones (Ger Y Tŵr) wedi iddo dderbyn llawdriniaeth yn ddiweddar.

**Cyfarchion Pen-blwydd**
Dymunwn yrru cyfarchion i Alwyn Jones (Y Dderwen, Rhos Bach) wrth ddathlu pen-blwydd arbennig ar y 14eg Medi. Dymunwn i ti fwynhau, iechyd da, ac amser dedwydd a diddan oddi wrth y teulu, dy ffrindiau a'r holl gymuned yma yng Nghaeathro.

Cyfarchion lu i Peter Roscoe (Perthi, Rhos Bach) sy'n dathlu ei ben-blwydd yn hanner cant ar y 14eg Hydref.

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau mawr i Jac Roscoe (Perthi, Rhos Bach) ar ddod yn bencampwr golff bechgyn Gwynedd yn ddiweddar. Gwych – da iawn Jac!

DODREFN A LLORIAU
PERKINS
●●● 01286 673535 ●●●
www.perkinsfurniture.co.uk
16 Stryd Porth Mawr, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1AG

**Cydymdeimlo**
Ai 'trefn' oedd colli y trwch
ar Awst, â ddaeth â'i dristwch?

Bu cymylau galar yn drwch dros Fethel yr haf yma, a ni fu yr hen alwad yn parchu oedran mewn unrhyw ffordd. Bu cydymdeimlad yr ardal yn deimladwy a mynnwn nerth i deuluoedd a chyfeillion Paul Lomas, Sion Garth a Rachel Owen, Margaret Hughes (Tŷ'n Rhôs gynt) ac Alun Jones, Stâd Tan-y-Cae. Yr un modd ein cydymdeimlad â theulu lliaws fferm Lon Glai ar eu colled ddiweddar ym marwolaeth Sally Griffith, gwraig, mam, nain a hen nain annwyl iawn. Hefyd, Rhian a Gareth Hughes, Erddig wedi marwolaeth mam Rhian ddechrau'r mis.

Gofynnodd Rhian ac Einir (Wrecsam), merch Margaret Hughes, am gael cynnwys y cyfraniadau isod ar ran y ddau deulu.

Dymuna Rhian a Gareth Hughes, Erddig a'r teulu gydnabod bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt o golli mam, nain a hen nain annwyl iawn, sef Elisabeth Mary Jones (Beti). Diolchir am y rhoddion hael er cof am Beti a gyflwynwyd at achos Cymdeithas Strôc Cymru. Yr un y gwerthfawrogiad i waith y nyrsus cymunedol a lliniarol, a staff Bryn Meddyg am eu gofal tyner yn ystod ei chystudd olaf.

Dymuna Einir a'r teulu gydnabod pob arwydd o gydymdeimlad yn eu colled. Gwerthfawrogwyd y llu gardiau, negeseuon ffôn ac ymweliadau. Hefyd y rhoddion hael er cof, a rannwyd rhwng Plas Pengwaith a Meddygfa Waunfawr. Cafwyd oedfa angladdol arbennig yn y Cysegr dan arweiniad y Parch. Marcus Robinson, yn cynnwys teyrnged mynwesol o gynnes gan Einir. Byddai Margaret yn falch fod pawb wedi cael ymgynnull yn y Cysegr, man yr oedd ganddi feddwl mawr ohono. Yr un modd ei chynefin ym Methel a'i thrigolion. Roedd y gynulleidfa luosog yn yr angladd yn gysur mawr i'r teulu. Gwir y cyfeiriodd Llion un o'r wyrion pan gyrhaeddodd Margaret ei 100fed blwydd, " Nain, 'dach chi'n *legend*." Diolch i Dafydd a Jane o gwmni E. W. Pritchard am eu trefniadau trylwyr ac urddasol. Yr un modd i ferched Caffi Perthyn am ddarparu lluniaeth o safon yn y Neuadd Goffa. Gobaith y teulu yw ein bod wedi ffarwelio â mam gydag urddas ddyladwy i un oedd yn golygu gymaint i lawer.

O'r aelwyd, fi yw'r olaf, – wedi'n
rhawd
o Dŷ'n Rhôs gadawaf.
Yn dawel, fe ffarweliaf
o boen oes; at Robin âf.
(RLLJ)

**Llongyfarch**
Ddechrau Awst bu Gwynfor Jones, Cenarth, yn dathlu ei ben-blwydd yn 90 oed. Ymlaen at y cant bellach. Cymerwn y cyfle hefyd i ddanfon cofion at ei wraig Elma, sydd bellach yng nghartref Gwynfa yng Nghaernarfon. Cofion at Dewi hefyd, gan obeithio fod y stori bysgota yn yr Adran Chwaraeon yn plesio.

Efallai i chwi feddwl fod syrcas neu Ŵyl Bop wedi ymweld â'r ardal o weld pebyll wedi eu gosod ar dir Llwyn Bedw ger Pont Charlie. Cyfle oedd yn yr heulwen dros ŵyl y banc i ddathlu priodas ddiweddar Huw Morgan a'i briod Ffion. Dymuniadau gorau i'r ddau.

Bu'n ddathliad dwbwl i Pete a Joyce Gaffey gan iddynt ddod yn nain a thaid eto. Ganwyd mab, Tomos Alun, i Alun ac Elin a mab hefyd i Rob ac Elin sef Eban Arfon. Mae'r ddau deulu yn trigo yng Nghaerdydd.

Llongyfarchiadau i Gwen a Gareth Jâms, ar ddod yn nain a thad-cu am y tro cyntaf, a hynny i Guto Nant, mab bach Greta a Pete.

**'Medalau Aur'**
Llongyfarchiadau i Gwyneth ac Elwyn Jones, Fachell ac Eirlys a Gwilym Williams , Y Ddraenen Fach, Y Ddôl ar ddathlu pen-blwydd eu priodas aur yn ddiweddar.

**Ymddeoliad**
Fel sy'n hysbys bydd y Parch. Marcus Robinson yn ymddeol o'i alwad fel Gweinidog Gofalaeth Glannau'r Saint ar ddydd olaf Hydref eleni. Yn y cyswllt yma hoffwn gyfeirio at ddau ddyddiad penodol. Bydd Marcus yn cynnal ei oedfa olaf yn y Cysegr ar fore Sul, 24ain Hydref am 10.00 AM. Fe fydd yn oedfa Gymun, ac fe estynnir croeso i'n holl ardalwyr i gyd-ymuno yn yr Oedfa. Bu Marcus â chyswllt â sawl un o bob enwad dros ei gyfnod yma, a dyma gyfle i ni fel ardal gydnabod ei gyfraniad. Yr ail ddyddiad yw nos Fercher, 20fed Hydref yng Nghapel y Rhos, Llanrug am 7.00 PM, pan gynhelir y Gwasanaeth Gollwng dan arweiniad Henaduriaeth Arfon.

Ers dechrau Medi, mae oedfaon yn cael eu cynnal yn nhair eglwys y pentref a phob mis byddaf yn rhestru enwau y sawl sy'n cynnal yr oedfaon.

**Merched y Wawr**
Braf oedd cael cyfarfod wyneb yn wyneb eto ar nos Fercher 8fed Medi. Croesawyd nifer o aelodau gan y llywydd, Anne Elis, yn y lleoliad cyfarfod newydd sef y Neuadd Goffa. Teimlwyd ei bod yn haws cydymffurfio a rheolau'r Llywodraeth parthed y Covid-19, o gyfarfod yn y Neuadd. Noson anffurfiol oedd hon yn gyfle i'r aelodau ail-gyfarfod, cynnal sgwrs a thalu tâl aelodaeth.

Dymunwyd yn dda i ieuenctid y pentref ar gychwyn cyfnod ysgol, coleg neu weithle.

Cydymdeimlwyd â Rhian, o golli ei mam yn ddiweddar. Yr un modd i Anita a'r teulu o golli Anni Garth mor ddisymwth. Mae ein meddyliau gyda nhw i gyd.

Gwellhad buan i Dilys Perez wedi ei chodwm ac hefyd i Nan Rowlands. Gobeithiwn eu gweld yn ôl yn fuan. Dymuniadau i Iolo, mab Ellen Ellis, fydd yn priodi Catrin y Sadwrn nesaf. Dymuniadau gorau i Gwyneth ac Elwyn, Llys Gwynt, ac Eirlys a Gwilym, Y Ddôl, ar ddathliadau priodas aur yn ddiweddar. Mae Joyce Gaffey yn nain eto, i Tomos Alun mab Alun ac Elin (brawd bach i Elsi), ac Eban Arfon mab i Rob ac Elin. Y ddau newydd-ddyfodiad draw yng Nghaerdydd. Mae Mary Evans yn hen nain bellach i Lora Cêt.

Darllenwyd gohebiaethau y mudiad gan annog yr aelodau i gystadlu yn y Ffair Aeaf ym mis Tachwedd.

Mae newidiadau yn nhrefniadau banc yr HSBC parthed elusennau. O fis Tachwedd ymlaen bydd y banc yn codi £5 y mis ar yr elusennau parthed y cyfrifon ac hefyd canran o'r swm pan yn talu mewn neu dynnu allan siec neu arian. Mae'r mudiad yn ganolog yn edrych i mewn i'r sefyllfa.

Gofynwyd am syniadau gan yr aelodau i weld os oes sail gwneud cais am arian Loteri eleni.

Rhoddwyd gwobr y raffl gan Jen, ac fe'i enillwyd gan Mabel.

Yn y cyfarfod nesaf bydd rhai o'r aelodau yn dangos i ni sut i greu 'blodau' wedi eu gwau, crosio neu gyda ffelt. Bydd y cynnyrch yn cael ei ddanfon ymlaen gyda'r gobaith o'i arddangos ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron haf nesaf.



Swyddogion cangen Bethel o Ferched y Wawr: Anne yn Llywydd, Liz yn Ysgrifennydd a Gwyneth yn Drysorydd

**Clwb Pêl-droed Ieuenctid Bethel**
Eleni, bydd y clwb yn rhedeg 8 tîm oedranol yn ymestyn o oedran dan 6 i dan 13. Diolch o flaen llaw i'r sawl sy'n barod i hyfforddi a rheoli'r gwahanol garfannau. Hyd yn hyn mae 103 o blant wedi ymaelodi. Yn y cyfarfod blynyddol etholwyd Andrew Williams yn Gadeirydd - a thorrwr gwair - a Ceri Tegwyn yn Ysgrifennydd. Am ei wasanaeth a chefnogaeth dros sawl blwyddyn etholwyd Cled Jones yn aelod am oes o'r clwb. Diolch a llongyfarchiadau iddo.

Eisoes mae tlws cyntaf y tymor wedi cyrraedd. Fe gipiodd y garfan dan 7 (carfan dan 8 eleni) y brif wobr yn nhwrnament Llanfairpwll ddiwedd Awst. Roedd timau yno yn cynhyrchioli Llanfairpwll (2), Bethel, Pentraeth, Caergybi a Phwllheli. Mewn gemau agos o ychydig goliau roedd Bethel yn wynebu Pwllheli yn y rownd derfynnol. Amser cnoi ewinedd, a di-sgôr ar y chwiban olaf. Ciciau o'r smotyn felly, a Bethel yn ennill o 2-0.

Diolch i Sasha am y wybodaeth ac edrychwn ymlaen am adroddiadau cyson drwy'r tymor.




**Cyngor Cymuned**
Diolch i chwi gerddwyr rheolaidd o lwybrau'r ardal am ddanfon lluniau i mi o'r gordyfiant neu ddifrod â wnaed i rai o'r llwybrau. Gyda'r dystiolaeth pendant yma, braf cyhoeddi fod y Cyngor Sir wedi ymateb i rai o'r cwynion ac wedi eu datrys. Tynnwyd sylw hefyd at y peryglon gyrru ar y ffordd o Fethel i Lanrug gan nad oedd llinellau eglur hyd ganol y ffordd. Wele, cafwyd wyneb newydd a gobeithir yn fuan gweld llinellau gwynion eglur i gynorthwyo'r gyrrwyr. Mae cau y ffordd o Bont-rug i Groeslon Tyddyn Hen wedi gweld cynnydd sylweddol mewn trafnidiaeth – yn enwedig loriau – ar hyd y ffordd o Sgwâr Llanrug i Fethel. Gobeithio ymhen y flwyddyn bydd y ffordd osgoi wedi ei chwblhau a gwelwn gwymp sylweddol yn y drafnidiaeth drwy'r pentref.

**Atgoffa**
Os oes unrhyw fudiad, cymdeithas neu glwb yn dymuno gwneud cais am rodd ariannol gan y Cyngor Cymuned rhaid i'r cais fod yn llaw y Clerc erbyn NOS LUN, 4ydd HYDREF. Rhaid cynnwys mantolen ariannol gyfredol wedi ei harchwilio gyda phob cais. Danfonir y ceisiadau i **Glerc Cyngor Cymuned, Llanddeiniolen, Bwthyn Isaf, Deiniolen, Gwynedd LL55 3LS.**

**Mae'r Draenog Yn Ei Ôl**
Ydy, mae'r hen greadur â fu yn gyfranwr rheolaidd i'r Eco am flynyddoedd yn ei ôl. Mae mor effro ag erioed. Eisiau dwyn ein sylw oedd i droedigaeth un o enweirwyr blaenllaw yr ardal (meddai fo!) sydd wedi cael ei ddenu at grefft wahanol iawn – golchi ffenestri! Mae wedi ei weld yn aml wrth y gorchwyl gyda rhai yn tybio os oes bwriad dechrau busnes llnau ffenestri ar y gweill, neu a yw'n gobeithio bydd y tywydd yn troi a bydd y glaw yn rhoi terfyn ar ei ymarferiadau sgleiniog. Eto, gyda'r holl ymarfer efallai y daw i feistrioli'r grefft 'off pat' fel petai.

Oes gennych chi stori i'r draenog i esmwytho ei drwmgwsg gaeafol?

**Dymuniad**
Fel pob blwyddyn danfonwn ein dymuniadau gorau at ein hieuenctid fydd yn dechrau cyfnod anturus o'u bywydau boed yn ysgol fabanod, cynradd, uwchradd neu goleg. Cafwyd canlyniadau da iawn gan nifer o'r disgyblion yn yr arholiadau TGAU a Safon 'A', er yr holl ddiflastod. Yr un dymuniad i bawb fydd yn dechrau gyrfa yn y gweithle. Ble bynnag yr ewch byddwch yn falch mai ieuenctid Bethel ydych, a manteisiwch ar y cyfleon.

**Oedfaon Hydref**
**Cysegr (10.00 AM):** 3ydd Hydref: Parch. John Pritchard; 10fed Hydref: Gweinidog; 17eg Hydref: Diolchgarwch; 24ain Hydref: Oedfa Olaf y Gweinidog (Cymun); 31ain Hydref: Richard Lloyd Jones.
**Saron (1.30 PM):** 3ydd Hydref: Nerys Griffiths; 10fed Hydref: Parch. Richard Gillon; 17eg Hydref: Trefniant Lleol; 24ain Hydref: Richard Gillion (S); 31ain Hydref: Dewi Morris.
**Capel Bethel (yn Saron am 10.00 AM):** 10fed Hydref: Glyn Owen; 17eg Hydref: Parch. Ioan Gruffydd; 24ain Hydref: Donald Pritchard. Cofiwch fod croeso cynnes i unrhyw un gyd-addoli yn yr oedfaon.

**Newid**
Os caiff Llywodraeth Lloegr a'r Comisiwn Ffiniau eu ffordd yna bydd Etholaeth Arfon yn diflannu a bydd ward Bethel gyda'i fil o etholwyr yn rhan o etholaeth Meirionydd/ Dwyfor. Clamp o dirwedd i un aelod ei chynhyrchioli. Os gwireddir y cynllun yna fe allai olygu un plaid o wrthblaid golli beth bynnag un aelod ac efallai dau. Politics – hwnna ydio!

## BRYNREFAIL

**Yr Eglwys Bresbyteraidd**
Nos Sul, 18fed Gorffennaf, cynhaliwyd gwasanaeth o dan ofal y Gweinidog y Parch Marcus Robinson. Ar derfyn yr oedfa ble roedd mwyafrif o aelodau'r Eglwys yn bresennol, ymhelaethodd y Gweinidog ar sefyllfa yr Achos ar hyn o bryd ynghŷd â'r ystyriaethau a'r argymhellion ar gyfer y dyfodol a gyflwynwyd eisoes i'r aelodau drwy lythyr. Cafwyd trafodaeth rydd ar y cyfryw faterion a oedd yn arwain ar y terfyn i bleidleisio ar y 'Datganiad o Fwriad' i ymuno â chynulleidfa Capel y Rhos, Llanrug ac fe bleidleiswyd yn unfrydol yma yn yr oedfa hwyrol ym Mrynrefail ac yn yr oedfa foreol gynhaliwyd yng Nghapel y Rhos.

Cyflwynwyd y 'Datganiad o Fwriad' hwn i uno'r Achosion i'r Henaduriaeth a gyfarfu ar 20fed Gorffennaf. Yn wyneb hyn, cadarnhawyd trefniant i ddau gynrychiolydd o'r Henaduriaeth ymweld â'r eglwysi i arolygu'r bleidlais derfynol mewn oedfaon ar 19eg Medi.



## DINORWIG

**Ymwelwyr** - Aeth gwyliau'r haf heibio, ac anodd credu ei bod yn dymor yr hydref. Mae'r dyddiau'n tynnu i mewn a rhyw ias hydrefol fore a nos, ond hyd yn hyn nid yw wedi lleihau dim ar y dyrfa a ddaw i'n hardal, a'r ffyrdd yn llawn trafnidiaeth, gyda'r mwyafrif o'r ymwelwyr yn parcio lle mynnon. Cefais brofiad o hyn pan barciodd fan enfawr o flaen giat y tŷ er mwyn i'r teithwyr oddi mewn gael bwyta'u cinio. Doedd dim posib i mi fynd allan. Wedi iddynt ymadael bu'n rhaid clirio'r sbwriel o'u hôl. Ni fum erioed yn hoff o'r gaeaf, ond os bydd yn golygu llai o ymwelwyr o'r math hwn, yna byddaf yn edrych ymlaen am dymor y gaeaf.

**Y Gwasanaeth Post** - Er yr holl drafnidiaeth sy'n heidio yma Sul, gŵyl a gwaith, roedd y Post wedi anghofio fod pobl yn byw yma. Unwaith yr wythnos roedd y gwasanaeth post yn ymweld, ac er cysylltu â'r brif swyddfa ddosbarthu yng Nghibyn, Caernarfon, doedd dim ateb boddhaol i'w gael. Yr ydym yn hynod ddiolchgar i'r Cynghorydd Elfed Williams ac i Siân Gwenllian am sicrhau fod y gwasanaeth yn ôl yn ddyddiol, er iddo amrywio o ran amser am gyfnod – weithiau rhwng pedwar a chwech y nos, droeon eraill rhwng unarddeg ac un y pnawn. Erbyn hyn gwyddom mai ein postmon arferol oedd yn wael a'i fod yn ail-ddechrau ar ei waith. Gwellhad buan i ti Kevin: bydd yr ardal yn hynod falch o dy gael yn ôl.

**Croeso** - Braf cael adrodd fod teulu Cymraeg wedi symud i'r ardal i fyw, er nad yw Iwan yn hollol ddieithr yma. Mae Iwan a'i wraig Phoebe a'r teulu wedi symud o Lanberis i hen gartref ei daid a'i nain, y diweddar Alice ac Andrew, yn Nhan y Bwlch. Croeso i dri o fechgyn i'r ardal: Idris, Osian, ac Owain, mab bach newydd Tan y Bwlch. Ganwyd Owain Hywel Griffith yn Ysbyty Gwynedd ar 9fed Awst yn pwyso 8lbs 9oz a llongyfarchiadau mawr i chi fel teulu.

**Cae Chwarae** - Mae defnydd prysur iawn wedi bod dros yr haf, nid yn unig gan y plant lleol ond gan blant dieithr hefyd. Trueni na fyddai mwy o gyfarpar addas yma ar gyfer y plant. Mae blynyddoedd bellach ers i mi brynu postiau gôl i'w gosod yn y cae, ond maent yn dal yno'n sefyll yn gadarn.

**Cofion** - Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau am wellhad buan i bawb sy'n dioddef anhwylder. Cofion at Mrs Betty Bower sydd wedi cartrefu'n hapus ym Mhlas Pen Gwaith, Llanberis.

**Capel** - Nid yw'r gwasanaethau crefyddol yn Neiniolen wedi ail-ddechrau fel rwy'n ysgrifennu'r newyddion hyn. Gobeithio y byddwn yn cael mwynhau cwmni ein gilydd unwaith yn rhagor erbyn i'r rhifyn hwn gyrraedd eich cartrefi.

## DEINIOLEN

**Newyddion Eglwys Crist**
Wedi bod ar gau ers bron i flwyddyn a hanner mae'r Eglwys wedi agor a gwasanaethau'r Sul yn cael eu cynnal. Yn ôl rheolau caeth oedd yn bodoli oherwydd y Covid-19, bu y gwaith glanhau yn hynod drylwyr. Mae ein diolch i wragedd yr ardal ac Eglwys Crist am y gwaith caled a gyflawnwyd er mwyn agor yr adeilad. Diolch i'r Parchedig Allan Willcocks, hefyd ei briod Helen, ac i'r Canon Idris Thomas am ail-afael yng ngwasanaethau'r Sul. Da yw cael dod i addoli unwaith eto er gwaethaf yr anawsterau sydd yn bodoli. Mae'r gwasanaethau yn cael eu cynnal am 3.00 PM dydd Sul, croeso i bawb o'r ardal ddod atom i addoli.

**Y Fynwent**
Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu ar ôl ein hapêl yn yr Eco – rydym yn hollol ddibynnol ar roddion caredigion er mwyn cynnal a thorri gwair y fynwent gan nad ydym yn derbyn nawdd gan unrhyw fudiad. Efallai fod rhywun sydd wedi astudio'r gyfraith yn gallu egluro hyn i ni – PAM?

Mae croeso i unrhyw un gyfrannu, er mwyn cario ymlaen y gwaith sydd yn angenrheidiol o ran yr amgylchedd a thaclusrwydd yn y rhan yma o Waun Gynfi.

**Gwellhad buan**
Dymunir gwellhad buan i Keith Jones, Rhiw Goch Clwt-y-Bont, sydd yn yr ysbyty yn Lerpwl ar hyn o bryd. Brysia wella a gobeithio y cei ddod adra yn fuan.
Yn yr un modd, dymuniadau gorau i unrhyw un arall o'r ardal sydd wedi bod yn wael yn ddiweddar.

**Ysgol/Coleg**
Dymuniadau gorau i blant a phobl ifanc yr ardal sydd yn cychwyn ar flwyddyn a thymor newydd yn yr ysgolion neu golegau, gobeithio na fydd Covid-19 yn effeithio ar y dysgu fel fuodd yn ystod y flwyddyn olaf.

**Merched y Wawr**
Mae bwriad gan gangen Deiniolen i ail ddechrau ar eu gweithgareddau ar ôl y flwyddyn a fu, bydd y tymor yn dechrau gyda noson allan mewn bwyty ar Ynys Môn a mawr yw'r edrych ymlaen i weld hen ffrindiau.

**Diolchiadau**
Nancy Marian Williams, Rhes Marian, Deiniolen – Dymuna Mervyn, Carol, Ian a'r teulu ddiolch yn ddiffuant am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a dderbyniwyd yn eu profedigaeth o golli mam, mam-yng-nghyfraith, nain, hen nain, chwaer a modryb arbennig iawn. Diolch yn fawr i'r Canon Idris Thomas am ei wasanaeth teimladwy ar ddiwrnod yr angladd ac hefyd i'r organyddes Eleri Bean. Gwerthfawrogir y geiriau o gysur trwy alwadau ffôn a chardiau, hefyd y rhoddion hael a dderbyniwyd er cof am Mam tuag at Ward Glyder, Ysbyty Gwynedd. Diolch i Lynd, Glenda, Gwenllian ac Anti Mona am baratoi tê prynhawn bendigedig. Mae ein dyled yn fawr hefyd i'r Ymgymerwyr Dylan Griffith, Tros y Waen, Penisarwaen, yn arbennig i Meinir am y trefniadau urddasol.

**Cydymdeimlo**
Estynir ein cydymdeimlad at deulu'r diweddar Mrs Phyllis Morris gynt o Bryn Tirion, Rhiwen a fu farw yn 98 oed yn ddiweddar.

Fe anfonir ein cydymdeimlad at deulu'r diweddar Mrs Nancy Marian Williams gynt o Rhes Marian, a fu farw yn 90 oed yn ddiweddar.


Gwasanaeth Gwres a Plymio
Ar gyfer eich holl anghenion gwres a plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser
Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig Bethel LL55 1UW
Ffôn (01248) 674927 Symudol - 07798 74618

www.ecorwyddfa.co.uk
ECO'r Wyddfa

SPAR
Y Storfa, Spar, Llanrug
Sgwâr Llanrug
01286 673108
Bwydydd, Diodydd, Papurau Newydd, Cardiau Cyfarch, **Swyddfa Bost**
a chroeso cynnes
Llun - Sadwrn 6:30am - 9pm, Sul 8am - 9am

**Cais am Newyddion**
Os oes unrhyw unigolyn neu gymdeithas yn dymuno cyflwyno eitem o newyddion, llun neu erthygl i'r Eco, gallwch wneud hynny drwy gysylltu â mi drwy ffôn/ ebost neu alwad personol, yn y cyfeiriadau sydd ar dudalen 2. Diolch yn fawr.

**Diolchiadau**
Dymuna teulu'r diweddar Elizabeth Pitts (Jackson gynt) ddiolch am yr holl fynegiadau o gydymdeimlad a dderbyniwyd ar golli mam, nain a hen-nain gariadus. Fe aeth y rhoddion a dderbyniwyd at Awyr Las, yn benodol, ac at Ward Glaslyn, yr uned Dementia yn Ysbyty Gwynedd, lle y derbyniodd y gofal gorau yn ystod amser anodd iawn wrth iddi ddioddef o Alzheimer's.

**Pentref Taclus**
Mae grŵp Pentref Taclus Llanberis yn ail ddechrau mynd o amgylch y pentref i gasglu sbwriel ar fore Sul, ac yn cyfarfod yn siop Menter Fachwen, lle y bydd yr offer fyddwch ei angen ar gael. Croeso cynnes i bawb ymuno. Cadwch lygad am ein hysbyseb ar Facebook, gan ein bod yn dibynnu ar dywydd ffafriol i fynd allan!

**Grŵp Crosio a Gweu**
Mae Grŵp Crosio a Gweu newydd ail-ddechrau cyfarfod yn y Ganolfan ar nos Lun 6.00–7.30 PM. Os oes gennych awydd dysgu, neu ddod yno i gymdeithasu, mae croeso cynnes i bawb!

**Eglwys Sant Padarn**
Cynhelir gwasanaeth o'r Cymun Bendigaid bob bore Sul am 11.00 AM. Hefyd, o fis Medi ymlaen, bydd Cymun Bendigaid am 8.00 AM ar y trydydd Sul ym mhob mis. Bydd yr Eglwys ar agor bob dydd Mercher rhwng 1.00 a 4.00 PM ar gyfer ymwelwyr, gweddi breifat a derbyn nwyddau i Fanc Bwyd Arfon.



**Merched y Wawr Llanberis a Nant**
Roedd hi'n braf iawn cael ail ddechrau cyfarfodydd Merched y Wawr Llanberis a Nant ar y cyntaf o fis Medi yn y Ganolfan, Llanberis. Cafwyd noson ddifyr a hwyliog yng nghwmni Arwel Hogia'r Wyddfa. Cawsom glywed hanesion teithiau Hogia'r Wyddfa dros y blynyddoedd – yn cynnwys eu profiadau yn yr America, Awstralia a Nigeria. Diolch yn fawr iddo.

Agorwyd y cyfarfod gan Marian Jones a gwnaed y diolchiadau gan Ann Parry. Diolch eto i'r Ganolfan am gael ei defnyddio.

Bydd ein cyfarfod nesaf ar nos Fercher, 6ed Hydref, gydag Elin Tomos, ac yna nos Fercher 3ydd Tachwedd gyda Dr Robin Parry. Estynnwn groeso cynnes i aelodau newydd.

**Capel Coch:** Dal ymlaen â'r drefn a fu gennym ers mis Mehefin ydym ar hyn o bryd, gydag oedfaon ar y ddau fore Sul o'r mis y mae'r Gweinidog gyda ni, sef ail a phedwerydd Sul y mis. Bydd ein hoedfaon nesaf felly am 10 o'r gloch ar 26 Medi, 10 Hydref a 24 Hydref. Bob Sul hefyd, daw Oedfa'r Ofalaeth trwy gyfrwng Zoom o un o gapeli'r Ofalaeth. Anfonwch ebost at y Gweinidog (john.cilfynydd@btinternet.com) os ydych eisiau'r ddolen Zoom i ymuno â'r oedfaon hyn. Mae'r oedfaon a ddarperir ar sianel *Youtube* 'Capel Tanycoed' ar gael bob Sul hefyd, ac mae'n ddigon rhwydd dod o hyd iddynt ar *Youtube*.

# Hen Arwydd yn ôl Adra




Mae arwydd haearn-bwrw (*cast iron*) oedd, mwy na thebyg, wedi ei wneud yn Ffowndri Gilfach Ddu, Chwarel Dinorwig, wedi dychwelyd i'r Chwarel ar ôl absenoldeb o saith deg chwech o flynyddoedd.

Ar ddechrau'r Ail Ryfel Byd fe symudodd nifer o weithwyr, gyda'u teuluoedd, o Lundain a mannau eraill o Loegr i weithio yn y Gwaith Awyrennau, NECACO, oedd wedi ei leoli yng ngwaelod Chwarel Dinorwig, ar lan Llyn Peris. Ymgartrefodd nifer o'r teuluoedd ym mhentref Llanberis.

Pan ddaeth yr amser, tua 1945, i'r teuluoedd ddychwelyd i Loegr, fe benderfynodd un bachgen 12 oed mai da o beth fuasai mynd â rhodd goffa o'i amser yn Llanberis gydag ef...

Roedd wedi penderfynu mai arwydd ar wal, nepell o Bont y Bala, oedd ei ddewisiad. Arwydd gyda'r geiriau 'NO ROAD' yn cynghori, mae'n debyg, i yrwyr beidio dilyn un o'r ffyrdd i'r chwarel ydoedd. Mae'n debyg fod yr arwydd yn cyfeirio at y ffordd sy'n arwain at Ysbyty'r Chwarel hyd heddiw.

Fe gadwodd rhai teuluoedd o Lundain mewn cysylltiad â'i gilydd. Yn ddiweddar, mewn un o'r cyfarfodydd fe soniodd un gŵr oedrannus fod ganddo rodd goffa o'i amser yn Llanberis, sef yr arwydd.

Wedi iddo ddeall fod yna Amgueddfa Lechi erbyn hyn, ar safle'r hen Gilfach Ddu, fe benderfynodd gynnig yr arwydd i'r Amgueddfa, fel rhan o hanes NECACO a'i gweithwyr yn Chwarel Dinorwig. Erbyn hyn mae'r arwydd wedi ei ddychwelyd i'r Amgueddfa lle, efallai, y gwnaethpwyd ef.

Mae'r Arwydd yn mesur tua 20" hefo 5" ac yn pwyso tua 30 pwys – mae'n rhaid bod y plentyn 12 oed yn hynod gryf o'i oed!

## NANT PERIS

**Eglwys Sant Peris**
Cynhelir gwasanaeth o'r Cymun Bendigaid bob bore Sul am 9.30 AM. Hefyd, mae gwasanaeth bob bore Mawrth am 11.00 AM ac yn dilyn y gwasanaeth bydd yr Eglwys ar agor tan 4.00 PM ar gyfer ymwelwyr, gweddi breifat a derbyn nwyddau i Fanc Bwyd Arfon.





# Ymddeoliad Dr Robin Parry

Ar ddechrau mis Hydref bydd Dr Robin Parry yn ymddeol ar ddiwedd cyfnod o dros 32 o flynyddoedd fel meddyg teulu yn Llanberis, Deiniolen, Llanrug a'r cylch.

Wedi ei fagu ym Mhorthaethwy, graddiodd ym Mhrifysgol Manceinion, a gweithio yn Ysbyty Môn ac Arfon, Ysbyty Dewi Sant ac Ysbyty Gwynedd. Daeth i Feddygfa Llanberis ym mis Ebrill 1989 ar ymddeoliad Dr Nora Marren.

Mae Robin ac Ann wedi magu eu teulu yn Llanberis – Tomos a Sara - ac wedi mwynhau bod yn rhan o fywyd y pentref dros y blynyddoedd. Mae wedi bod yn feddyg swyddogol i Ras yr Wyddfa ers 1989, ar wahân i 1995 pan redodd y ras ei hun.

Mae Robin ac Ann yn gerddwyr selog, ond hefyd roedd Robin yn bysgotwr brwd ymhell cyn iddo fod yn feddyg ac yn bwriadu dal ati yn y blynyddoedd i ddod. Mae'n gadeirydd ar Gymdeithas Pysgotwyr Seiont, Gwyrfai a Llyfni, ac ar wahân i'r pysgota mae wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau eraill yn cynnwys ymweld ag ysgolion lleol gyda rhaglen magu Torgoch yn y dosbarth dros y gaeafau diweddar hyd at gyfnod y pandemig.

Dymunwn ymddeoliad hapus iawn iddo; llawer mwy o dymhorau pysgota, ac amser i gerdded yn y dyfodol.

# Gwyrddni Llanberis

Mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd – gyda'n gilydd!

Mae newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar bob un ohonom, felly dylai pob un ohonom deimlo ein bod wedi ein grymuso i leisio barn ar faterion sy'n ymwneud â hynny.

Menter gymdeithasol a enillodd sawl gwobr yw DEG (Datblygiadau Egni Gwledig). Mae'n cefnogi gweithredu cymunedol ar hyd a lled gogledd-orllewin Cymru. Rydym yn ymdrechu i gynyddu gallu ein hardal i ddelio â'r cynnydd yng nghost tanwydd ffosil, ac i wella ein hamgylchedd naturiol a symud tuag at gymunedau di-garbon.

Mae DEG yn credu'n gryf fod pŵer go iawn i gynnwys pobl leol mewn datblygiadau lleol, a'r gred hon fydd prif gryfder GwyrddNi – partneriaeth rhwng DEG a phum sefydliad cymunedol arall yng Ngwynedd sydd wedi ymrwymo i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

Y pum sefydliad yw Cyd Ynni, Partneriaeth Ogwen, Siop Griffiths, Cwmni Bro Ffestiniog ac YnNi Llŷn.

Dros y ddwy flynedd nesaf, bydd gweithgareddau GwyrddNi yn cynnwys:

- Cynnal cynulliadau hinsawdd i ddinasyddion, er mwyn cytuno ar flaenoriaethau i daclo newid yn yr hinsawdd ac i ddatblygu cynlluniau gweithredu cymunedol
- Ymgysylltu â chymunedau i ddatblygu rhwydweithiau cynaliadwy sy'n gweithredu dros yr hinsawdd a'u cymunedau.

Lowri Vaughan ydi'r hwylusydd ar gyfer bro Llanberis, ac mi fasa hi'n hoff iawn o glywed gan unrhyw un sydd â barn am newid hinsawdd, mewnwelediadau am yr ardal neu syniadau ar gyfer datblygu cymunedol cyffredinol.

Ebost: lowri@deg.cymru
Facebook - Lowri GwyrddNi

# Elusen Dyffryn Peris

Mewn erthygl ar Ynni Padarn Peris nôl yn rhifyn Mawrth o'r Eco fe soniwyd am lansiad gwefan ELUSEN DYFFRYN PERIS.

Un o amcanion sylfaenol ymddiriedolwyr Ynni Padarn Peris oedd sefydlu elusen a chyfrannu £10,000 y flwyddyn iddi i'w rannu i brosiectau amgylcheddol lleol. Ers ei sefydlu yn 2017 mae'r cynllun heidro cymunedol eisoes wedi rhoi'r rhodd gyntaf i'r Elusen ac mae ambell gais wedi ein cyrraedd, ond ara deg ydi'r ymateb wedi bod yn ystod y cyfnodau clo.

Gan ein bod yn dychwelyd i ryw fath o normalrwydd y gobaith ydi y byddwn yn cael rhagor o geisiadau i'w hystyried.

Er mwyn bod yn llwyddiannus rhaid i'r ceisiadau gyflawni un o nodau'r Elusen – dyma'r math o brosiectau a gefnogir:

- Lleihau tlodi tanwydd
- Hyrwyddo ynni adnewyddadwy
- Hybu trafnidiaeth gynaliadwy
- Annog busnesau i arbed ynni
- Cysylltu unigolion o bob oed â'r amgylchedd
- Lleihau gwastraff
- Hybu unigolion i wirfoddoli yn eu cymunedau
- Hybu ymarfer corff yn y gymuned
- Helpu dysgwyr i ymarfer eu Cymraeg i gynnal natur ddwyieithog ein cymuned.

Fe ddylai ymrwymiad i'r iaith Gymraeg fod yn amlwg ym mhob prosiect ac fe all unigolion neu grwpiau ymgeisio am y grantiau.

Byddwn yn derbyn ceisiadau yn chwarterol: 1 Ionawr - 31 Mawrth; 1 Ebrill - 30 Mehefin; 1 Gorffennaf - 30 Medi; a 1 Hydref - 31 Rhagfyr. Felly ewch i'n gwefan – **www.elusendyffrynperis.cymru** – i lawrlwytho ein Canllawiau i Ymgeiswyr a'r Ffurflen Gais, ac efallai y cewch chi ysbrydoliaeth i wireddu breuddwyd a all wella ein cymuned wedi'r holl drafferthion a wynebwyd yn ddiweddar.

Os oes angen i chi gysylltu â ni ynghylch eich cais, neu os oes gennych unrhyw gwestiwn anfonwch e-bost at **cais@elusendyffrynperis.cymru**

Cofiwch fod yr Ynni wedi bod yn cynhyrchu ers pedair blynedd – felly mae 'na ragor o arian yn barod i'w rannu i'r Elusen – i'r pant y rhed y dŵr!

# Meinciau 'gwyrdd' yn rhodd



Mae staff o Siemens Healthineers yn Llanberis wedi dewis Hosbis Dewi Sant fel Elusen y Flwyddyn iddynt ac wedi dechrau cynllunio blwyddyn o weithgaredd codi arian. Un o'u cyfraniadau cyntaf yw pum mainc picnic a fydd yn cael eu defnyddio ar safleoedd yr hosbis diwedd oes ar draws gogledd orllewin Cymru ac mewn digwyddiadau codi arian.

Nid eich meinciau pren arferol yw'r meinciau hyn ond yn hytrach maen nhw wedi'u creu o wastraff plastig wedi'i ailgylchu. Mae gwastraff plastig Siemens yn cael ei ailbrosesu a'i ddefnyddio i greu'r meinciau ecogyfeillgar. Mae pob mainc yn defnyddio o leiaf 3,250 o becynnau plastig sydd wedi'u harbed rhag mynd i dirlenwi neu gael eu llosgi.

Meddai Debra Drake, Arweinydd Cyfathrebu a Gweinyddiaeth y Safle yn Siemens:

"Mae'r safle'n anhygoel o falch o godi arian i wasanaeth mor bwysig yng ngogledd Cymru. Ar ben hynny, mae bod â rhan yn y fenter yma o droi ein gwastraff plastig yn feinciau defnyddiol yn rhywbeth i fod yn falch ohono. Da iawn pawb."

Mae Hosbis Dewi Sant, elusen leol, yn darparu gofal arbenigol i oedolion gyda gwaeledd sy'n byrhau bywyd o bob cwr o Gonwy, Gwynedd ac Ynys Môn. Bob blwyddyn mae'n costio dros £5 miliwn i redeg Hosbis Dewi Sant, dim ond 9% o'r cyllid a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru a'r Bwrdd Iechyd lleol, mae'r gweddill yn cael ei godi gan y gymuned leol yn rhoi, trwy roddion gwirfoddol, codi arian, siopau manwerthu a rhoddion mewn ewyllysiau.

Meddai Keri McKie, Codwr Arian Ardal Gwynedd ac Ynys Môn yr Hosbis:

"Mae Covid wedi achosi cymaint o heriau i'r elusen dros y flwyddyn ddiwethaf, ond gyda'r cymorth caredig gan ein cymuned leol, rydym yn benderfynol o barhau ein cefnogaeth a'n gofal i'r rheini gyda gwaeledd sy'n byrhau bywyd. Rydym yn ddiolchgar dros ben i'r staff yn Siemens am ein henwebu fel Elusen y Flwyddyn ac o fod wedi derbyn y rhodd o feinciau – diolch ichi!"

# Gwobr Diwydiant i Fynwent Leol

Mae mynwent Cyngor Cymuned Llanrug wedi cipio gwobr yng Ngwobrau Cenedlaethol Mynwent y Flwyddyn.

Mae'r Bwrdd Ymwybyddiaeth Coffa (BYC) wedi bod yn hyrwyddo a threfnu Gwobrau Mynwent y Flwyddyn ers bron i 20 mlynedd. Enillodd Mynwent Llanrug wobr Arian 2021 yn y categori ar gyfer mynwentydd cynghorau Plwyf, Tref a Chymuned mewn Cystadleuaeth Genedlaethol ac fe dderbyniwyd y wobr ym mis Awst

Dywedodd Philip Potts o'r Bwrdd Ymwybyddiaeth Coffa:

"Mae'r gwobrau'n gyfle gwych i wobrwyo staff sy'n gweithio'n galed ac yn dangos y rôl ganolog y gall mynwentydd gymryd yn y gymuned. Maent yn darparu lleoedd o fyfyrio a harddwch heddychlon, ynghyd â'u pwysigrwydd ecolegol.

Perfformiodd y tîm yng Nghyngor Cymuned Llanrug yn eithriadol trwy gydol y cyfnod beirniadu helaeth sy'n canolbwyntio ar Safonau'r Diwydiant, Materion Amgylcheddol ac Arfer Da."

Dywedodd y Cynghorydd Philip Roberts, Cadeirydd Pwyllgor y Fynwent: "Mae'r wobr hon yn cydnabod yr holl waith sydd yn cael ei wneud gan y Cyngor i ddarparu gwasanaeth dibynadwy, cyfeillgar ac o ansawdd. Mae fy nhîm a minnau wrth ein boddau."

Mae Gwobrau Mynwent y Flwyddyn yn cael eu cefnogi a'u cymeradwyo gan y cymdeithasau blaenllaw canlynol yn y diwydiant –



**O'r chwith i'r dde: Cynghorydd Avril Jones (Is-gadeirydd y Cyngor Cymuned), Phil Roberts, (Cadeirydd Pwyllgor y Fynwent), Goronwy Hughes (aelod o bwyllgor y fynwent) a Hefin Jones (Cadeirydd y Cyngor Cymuned)**

- *Memorial Awareness Board (MAB)*
- *Institute of Cemetery and Crematorium Management (ICCM)*
- *The Federation of Burial and Cremation Authorities (FBCA)*
- *The Society of Local Council Clerks (SLCC)*
- *British Register of Accredited Memorial Masons (BRAMM)*

## LLANRUG

**Chwilio am ohebydd pentref newydd**
Ar ôl dros 20 mlynedd o wasanaeth a chefnogaeth i'r Eco, mae Eryl ein gohebydd pentref presennol yn dymuno rhoi'r gorau i'r gwaith. Diolch o galon i chi Eryl am bopeth yr ydych wedi ei wneud drwy'r cyfnod hwn. Dyma gyfle felly i rhywun newydd gamu ymlaen!

Be' fydd angen i mi ei wneud? Gofynnwn i chi fod yn barod i chi rannu ein manylion cyswllt er mwyn i bobl gysylltu â chi i rannu eu newyddion, ac i chithau hefyd chwilio am straeon yn y pentref. Wedyn, bydd angen i chi basio'r wybodaeth honno ymlaen unwaith y mis. Gall fod yn gyfle i fwy nag un person weithio efo'i gilydd i wneud y gwaith os nad ydych yn dymuno gweithio ar eich pen eich hun.

Mae croeso i chi gysylltu ag Eryl neu un o'r golygyddion os hoffech ragor o wybodaeth - manylion cyswllt ar dudalen 2. Diolch bawb!

**Diolchiadau**
Dymuna Haf Thomas ddiolch o waelod calon am y caredigrwydd a dderbyniodd dros gyfnod ei phenblwydd arbennig yn 50 oed. Diolch am anrhegion, arian, a'r holl gardiau hyfryd. Roedd yn benblwydd i'w gofio. Diolch yn fawr. Dyma bennill o gerdd a dderbyniodd Haf ar achlysur ei phenblwydd. Mae rhywun yn dy adnabod yn dda Haf!

'Rwyt ti mor glên bob amser ac mor hwyliog,
Mor ddiymhongar pan wyt yn cael clod.
Yn gyfaill triw, yn arian byw o berson,
Yn aur y byd - 'raddfwynaf sydd yn bod.

Hoffai Gwyndaf a Mair Hughes, Hafan, ddiolch yn ddiffuant iawn i'w teulu a ffrindiau am yr holl garedigrwydd tuag atynt pan yn dathlu eu priodas aur ar 21ain Awst. Gwerthfawrogwyd y cyfan yn fawr iawn.

Dymuna Rhian a Dafydd a'r teulu, Stad Minffordd, ddiolch yn arw am bob arwydd o gydymdeimlad gawsant yn dilyn marwolaeth tad Rhian yn 99 mlwydd oed, yn Llanuwchllyn. Wedi cael bywyd llawn a hapus a byw yn annibynol i'r diwedd. Colled fawr.

**Babis Newydd**
Llongyfarchiadau mawr i Meirwen a Selwyn Lloyd ac Anwen a Dafydd Owen, Bryn Moelyn, am ddod yn daid a nain unwaith eto. Ganwyd meibion bach i Carwyn a Siân yng Nghaerdydd ac i Elin ac Alun, hefyd yng Nghaerdydd. Pob dymuniad da i chi fel teulu.

Llongyfarchwn Bedwyr a Hawys, 2 Disgwylfa, ar enedigaeth Calan Hawys, chwaer fach i Macsen. Pob dymuniad da.

**Priodasau**
Dymunwn y gorau i'r ddau gwpl ifanc sydd newydd ddathlu eu priodas yn ddiweddar, sef Leah Williams a Philip Lynes, Glanffynnon, a Lois Angharad a Caio Iwan a briododd yng Nghapel y Rhos gyda thad Caio yn eu priodi, sef Dafydd Iwan. Pob bendith i chi eich pedwar.

**Priodas Ruddem**
Bu Albert a Carol Lynes, Tŷ Newydd, yn dathlu eu priodas ruddem yn ddiweddar. Llongyfarchiadau mawr iddynt.

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchwn Shaun Holdsworth a'i ffrindiau am redeg hanner marathon i godi arian at Motor Neuron Disease, er cof am Jacqueline Pugh. Ardderchog.

Dymunwn ddyfodol ardderchog i Ben Jones, mab Barry a Jennifer, Pontrhyddallt, ac ŵyr i Vera a Selwyn Jones, Hafan Elan. Enillodd radd meistr gwyddoniaeth mewn mathemateg. Pob dymuniad da i ti Ben a llongyfarchiadau mawr.

**Profedigaethau**
Cofiwn yn arw at deulu Mrs Gwyneth Morris, 46 Bro Rhyddallt, a fu farw yn ddiweddar, sef Gerald, Gillian a Glenys, ei wyrion a wyresau a Gareth ei brawd.

Cydymdeimlwn yn arw â Sharon a Richard, Bryn Moelyn, a'u teulu yn dilyn colli mam Sharon yng Nghaernarfon. Mam hynod a nain a hen nain arbennig iawn iddynt oll. Bydd colled fawr ar ei hôl.

Yn 77 mlwydd oed ac yn sydyn bu farw Olwen Hughes (Cwm-y-Glo gynt), gwraig Ifor a chwaer hynod o ofalgar i Hywel a Gwennie Morris, Ffordd Glanmoelyn. Cydymdeimlwn â chi'n arw fel teulu.

Yn sydyn yn 63 mlwydd oed bu farw Nia Roberts, Talybont. Gwraig annwyl David a mam gariadus i Sofie. Cydymdeimlwn yn ddiffuant â chi yn eich profedigaeth.

Bu farw Hywel Evans, Garej Gwalia, Caeathro, yn sydyn iawn yn ddiweddar. Bu ef a'i wraig yn berchnogion Siop y Londis gynt, nawr yn siop Co-op. Cydymdeimlwn yn ddiffuant a'r teulu oll, yn enwedig Ellen, Eifion a'r plant, Lôn Groes, sydd wedi colli tad, tad-yng-nghyfraith a thaid annwyl iawn. Meddwl amdanoch.




**Cerdded i elusen yn Ardal y Llynnoedd**
Bu dwy ffrind bore oes o Lanrug yn Ardal y Llynnoedd yn ddiweddar i godi arian at elusen Alzheimer's Society.

Roedd Ffion Jon a Lona Roberts am godi arian at ymchwil i'r afiechyd wedi i dad Ffion, John Wyn Williams, Fferm Minffordd, Llanrug farw o vascular dementia y llynedd.

Cerddodd y ddwy dros 13 milltir yn ardal Ullswater a chodi £1,100 i'r elusen. Dywedodd Ffion: "Dwi ddim y person mwya ffit ond roeddwn i'n benderfynol o gwblhau y daith i gofio am Dad ac i gael codi arian at achos sydd yn agos iawn at fy nghalon. Mae'n afiechyd creulon sy'n effeithio mwy a mwy o bobl. Carwn i a Lona ddiolch i bawb wnaeth ein noddi, mae pobl wedi bod mor garedig a hael".

Deallwn fod Mrs Lilian Roberts, Glanffynnon, wedi ein gadael, wedi dioddef amser caled ynghyd â Dei ei gŵr. Meddwl amdanoch Mr Roberts a'r ddwy ferch fu mor ffyddlon iddynt.

Cydymdeimlwn yn arw â theulu Mrs Sally Griffiths, Fferm Lôn Glai, Pontrug. Cofiwn yn ddiffuant at ei gŵr Wil, y plant, wyrion a wyresau i gyd, a'i chwaer Catherine o Gwm-y-Glo. Gwraig, mam a nain ofalus a charedig, bydd colled fawr i chi i gyd.

**Croeso Adref**
Mae Dafydd Meredydd, Nicola, Owain a Ffebi bach wedi dod adref o Ffrainc am y tro cyntaf ers blwyddyn a hanner at y teulu, sef Robin ac Evelyn a nain Menna, Minffordd a'r teulu i gyd yma yn Llanrug a Llanberis. Croeso adre am ychydig, mwynhewch i gyd.

**Capel y Rhos**
Ar nos Fercher, 20fed Hydref, cynhelir cyfarfod arbennig yng Nghapel y Rhos am 7.00 pm. Hwn fydd y gwasanaeth swyddogol i 'ollwng' y Gweinidog, y Parchg Marus Wyn Robinson o ofalaeth ei weinidogaeth. Ceir cyfle i ddymuno'r gorau iddo wrth iddo ymddeol.

**Eglwys St Mihangel, Llanrug**
3ydd Hydref – Gwasanaeth Diolchgarwch y Cynhaeaf yn yr Institiwt am 10.00 AM.

17eg Hydref – Cymun Bendigaid yn yr Institiwt am 10.00 AM.

31ain Hydref – Gwasanaeth ar y cyd, pumed Sul, yn Eglwys St Padarn am 5.00 PM.

**Y Sefydliad Coffa - Galwad am Wirfoddolwyr**
Mae'r Sefydliad wedi ail-agor erbyn hyn, ar ôl bod ar gau ers Mawrth 2020 o achos cyfyngiadau Covid-19. Mewn cyfarfod o aelodau o'r pwyllgor yn ddiweddar, penderfynwyd ceisio cael mwy o wirfoddolwyr ac ymddiriedolwyr i gefnogi'r tîm bach sydd gennym ar hyn o bryd. Rydym yn chwilio am gymorth i baratoi'r adeilad ar gyfer gweithgareddau a'i gadw yn lân a thaclus. Os oes gennych ddiddordeb mewn bod yn rhan o'r tîm, buaswn yn falch os gallech gysylltu â Goronwy Hughes ar 01286 674839 neu 07899 825505.

**Plaid Cymru**
Enillwyr Clwb Cant Awst:
1. Olwen Hughes, Llanrug
2. Vera Williams, Llanrug

# Ysgol Gynradd Llanrug





**Ffarwelio â blwyddyn 6**
Nôl ym mis Gorffennaf roeddem yn ffarwelio â blwyddyn 6 wrth iddynt drosglwyddo i'r ysgol uwchradd. Pob lwc i bob un ohonynt yn Ysgol Brynrefail.








Andy Birch






Croeso nol i holl blant yr ysgol. Edrychwn ymlaen am flwyddyn gyffrous. Croeso hefyd i'r plant newydd yn y meithrin.




Dafydd Trefor

Mae murluniau newydd sbon wedi eu peintio ar waliau tu allan i'r ysgol gan ddau artist lleol, sef Andy Birch a Dafydd Trefor. Maen nhw'n edrych yn wych!

## PENISARWAUN

Llongyfarchiadau mawr i Jordan, 24 Bryn Tirion, sydd wedi 'pasio allan' o'r Fyddin. Mae wedi bod yn ymarfer yn Catterick, Swydd Efrog am saith mis. Yn ogystal, fe dderbyniodd y wobr am yr ymroddiad gorau. Bydd yn ymuno â'r Gwarchodlu Cymreig yn Windsor ym mis Medi. Dymuniadau gorau iddo yn ei yrfa newydd.

Dymuna Anti Liz ddiolch o galon i'r Pennaeth, staff a disgyblion yr Ysgol Gymuned am y dymuniadau gorau a'r rhoddion a dderbyniodd ar achlysur ei hymddeoliad yn ddiweddar. Diolch hefyd am y croeso wrth gael gweld pawb y tu allan ar ddiwrnod olaf tymor yr haf.



# WAUNFAWR

**Llongyfarchiadau** i bawb o bobl ifanc y pentref sydd wedi cwblhau cyrsiau ysgol a choleg yn ystod y misoedd diwethaf a dymuniadau gorau posibl i chi gyd sy'n symud ymlaen i addysg bellach, prentisiaethau a byd gwaith. Mi fu'n flwyddyn hynod o anodd i bobl ifanc yn ystod  cyfnod Covid-19 ac felly mae pob dim rydych wedi ei gyflawni yn ystod yr amser yma yn rhywbeth y gallwch deimlo'n hynod falch ohono.

Mae croeso i chi anfon gwybodaeth bellach ynglŷn â lle rydach chi yn mynd neu beth rydych yn mynd i wneud o hyn ymlaen – rydan ni yn hoffi gwybod eich hanes!

**Genedigaethau**
Braf iawn yw cael dweud bod merch fach newydd wedi cyrraedd Bodlondeb, sef Sky Morgan. Mae Sky yn ferch i Iwan a'i bartner. Croeso mawr i Sky.

**Dymuniadau da** i ddwy o wragedd y pentref sydd wedi cael anaf yn ddiweddar – sef Mrs Annie Thomas, Stad Tŷ Hen a Mrs Doris Williams, Tai Glynafon. Rydym yn anfon ein cofion atoch eich dwy ac yn dymuno gwellhad buan i chi.

**Cymru Fyw**
Gwelwyd Paul Evans, Rhoslwyn, yn siarad ar Cymru Fyw yn huawdl a theimladwy am ei salwch tymor hir yn ddiweddar. Wedi 12 mlynedd o iechyd gwell yn dilyn trawsblaniad aren gan ei dad, bu'n rhaid i Paul ddychwelyd am driniaeth dialysis 3 gwaith yr wythnos yn Ysbyty Gwynedd, rhywbeth fel yr esboniodd Paul sy'n cael effaith fawr ar ei fywyd o a bywyd ei deulu. Er gwaethaf hyn, mae Paul yn parhau i gyfrannu yn wirfoddol at Glwb Pêl-droed Caernarfon, ac ar hyn o bryd fo ydi'r Cadeirydd – pob lwc i chdi i'r dyfodol Paul.

**Nofel newydd**
Mae Ifan Morgan Jones, un o blant y Weun, yn awdur llwyddiannus a thoreithiog.  Yn ystod yr haf cyhoeddodd nofel newydd, Brodorion. Fel pob amser, mae gwaith Ifan wedi cael ei ganmol gan yr adolygwyr, ac mae'n werth ei phrynu neu ei benthyg o'r llyfrgell. Ewch amdani!

**Cartref Newydd**
Croeso cynnes iawn i Eleri Edwards sydd wedi symud yn ddiweddar i Faes Teg. Un a fagwyd yng Ngheunant ydi Eleri, ac nid dyma'r tro cyntaf iddi fyw yn Waunfawr – croeso yn ôl Eleri – gobeithio byddi di'n hapus iawn yn dy gartref newydd.

**Diolchiadau**
Dymuna Ilid, Ann, Ian a Keith ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd estynnwyd tuag atynt yn dilyn eu profedigaeth o golli Gŵr, Tad, Taid a Hen Daid arbennig iawn. Gwerthfawrogwyd yr holl gardiau, galwadau ffôn, ynghyd a'r rhoddion hael a dderbyniwyd er cof am Ron Williams. Bydd eich rhoddion yn mynd tuag at Ymchwil Cancr.

Hoffai Dewi, Siân, Nia, Garry a'r holl deulu ddiolch i'w ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gefnogaeth a chydymdeimlad yn ystod salwch a marwolaeth Beryl (Dôl y Coed). Hoffent ddiolch i holl ofalwyr Cymorth Llaw, y nyrsys cymunedol a Marie Curie am eu cymorth a'u gofal ac i holl staff Meddygfa Waunfawr, yn arbennig Dr Esyllt Llwyd. Dymuna'r teulu hefyd ddiolch o galon i Nan Wyn am ei chefnogaeth yn ystod y cyfnod anodd hwn ac am wasanaethu'r angladd.

**Plaid Cymru**
Bydd cyfarfod blynyddol y gangen yn cyfarfod dros Zoom ar 27ain Medi am 6.30. Bydd aelodau yn derbyn gwahoddiad drwy ebost cyn hynny, ond os ydych am ymaelodi neu ail-ymaelodi cyn hynny er mwyn mynychu'r cyfarfod, cysylltwch ag ysgrifenydd y gangen – iolallew@hotmail.co.uk. Bydd croeso cynnes i bawb.





**Clwb pêl droed Waunfawr**
Dyma luniau o Glwb Peldroed Waunfawr ar gychwyn y tymor yn eu cit newydd – tydyn nhw'n ddel!  Hoffai'r Clwb ddiolch yn fawr iawn i 'Dannedd Davies' a chwmni Ynni am noddi'r cit glas (adra) ac i CastleMead am noddi'r cit melyn (oddi cartref).   Braf yw gweld y contractwr sydd yn mynd i fod yn adeiladau ein meddygfa newydd yn cefnogi sefydliadau'r pentref fel hyn.

Mae'r tîm wedi cael cychwyn ardderchog i'r tymor hyd yn hyn – pob lwc am weddill y tymor hogia!





**Defaid Pant Gwyn**
Mae pobl Waunfawr wedi hen arfer gweld defaid hardd Pant Gwyn yn pori yn y caeau, ac yn synnu dim eu bod yn ddiweddar wedi ennill sawl gwobr yn sioe genedlaethol Cymdeithas y Valais Blacknose. Daeth sawl gwobr yn ôl i Waunfawr, ond ymysg yr uchafbwyntiau oedd llwyddiant 'Snowdonia Goliath' – yn derbyn y wobr gyntaf am y maharen orau, gan fynd ymlaen i gael ei werthu am 14,000 gini, y pris uchaf erioed am anifail o'r fath!

Daeth llwyddiant mawr hefyd i Alffie, ddaeth yn gyntaf yn y dosbarth tywysydd ifanc.

Mae angen llawer o waith caled drwy gydol y flwyddyn er mwyn profi llwyddiant fel hyn – llongyfarchiadau i chi gyd fel teulu.

**Profedigaethau –** mi fu misoedd yr Haf yn rhai creulon i nifer o deuluoedd y pentref. Rydym yn estyn ein cydymdeimlad diffuant iawn gyda chi yn eich colled a'ch hiraeth am eich anwyliaid.

Ar 9fed Gorffennaf, yn ddisymwth iawn, bu farw Ron Williams adref yn 18 Bro Waun yn 87 oed. Roedd yn ŵr i Ilid, ac yn dad i Ann, Ian a Keith, tad-yng-nghyfraith i Mandy, Aled a Tracey a thaid i Siôn, Wenna, Claire, Owain, Jamie, Cai a Catrin a hen daid i Ronnie, Bobby, Tomos, Ellie, Alys a Kate.

Diolch i'r teulu am y deyrnged ganlynol: 'Cofi dre oedd Ron ac yn 16 oed aeth i wneud prentisiaeth fel peiriannydd ym Mirmingham a bu yno am 4 mlynedd. Yna yn 20 oed fe ddaeth adra yn sâl gyda'r afiechyd TB. Bu'n ysbyty Bryn Seiont Caernarfon am 9 mis ac yna yn ei wely adref am fisoedd yn gwella. Fe weithiodd dros yr holl flynyddoedd fel peiriannydd mewn sawl sefydliad.

Roedd yn gymeriad a hanner a byddai cymdogion y pentref yn hoff o gael sgwrs a rhoi'r byd yn ei le efo fo wrth iddo fynd am dro o amgylch y pentref.

Ei brif ddiddordebau oedd cadw a bridio caneris a thros y blynyddoedd bu'n teithio'r wlad yn beirniadu mewn sioeau. Yna, wedi ymddeol o Waith Brics Caernarfon fe ddechreuodd gymryd diddordeb mewn garddio, a threuliodd oriau lawer yn gweithio yn yr ardd wedi hyn.

Nid oedd rhaid i Ron ddweud llawer, ond dyn balch iawn oedd o. Heb ei egwyddorion ni fysa ei blant wedi llwyddo. Roedd Ron yn gefn i bawb ac yn ddyn arbennig iawn'

Bu farw Colin Pierce Rowlands, Tŷ'n y Coed ar 18fed Gorffennaf yn 73 oed. Roedd Colin yn ŵr i'r ddiweddar Menna a thad i Siân, a mawr fu gofal y ddau o'i gilydd ar hyd y blynyddoedd. 'Cofi dre' oedd Colin cyn iddo symud i'r Weun, ac roedd yn disgleirio mewn chwaraeon yn ystod dyddiau ysgol ac wedi hynny – yn enwedig pêl-droed. Wedi dyddiau pêl-droed, troi at golff oedd ei hanes a datblygodd i fod yn chwaraewr da.

Ar 25ain Awst bu farw Alice Johnstone, 10 Tref Eilian yn 93 oed. Roedd yn fam i Ian, Neil a Fiona, mam-yng-nghyfraith i Ffion a Phill a nain i Olly, Daniel, Gwilym, Elli a Beth. Mae gan nifer o'r pentrefwyr atgofion melys iawn amdani'n gweithio yn yr ysgol gynradd, yn casglu arian cinio ac yn gofalu am y plant yn ystod amser cinio. Mae ganddom le i ddiolch iddi hefyd am fod yn un o'r criw gweithgar fu'n codi arian er mwyn adeiladu'r Ganolfan sydd ganddom yn y pentref heddiw.

Hefyd, ar 1af Awst, bu farw Beryl Jones, Dôl y Coed yn 80 oed. Roedd yn wraig i Dewi, mam Siân a Nia, mam-yng-nghyfraith i Garry a nain i Dafydd, Aled ac Iwan. Diolch i'r teulu am anfon crynodeb o'r deyrnged a ddarllenwyd ddydd ei hangladd:

**Teyrnged Beryl Jones**

'Bywyd o wasanaethu eraill oedd bywyd Beryl ers y cychwyn, ac mae ein diolch yn enfawr iddi am yr holl gymwynasau a rannodd.

Daeth Beryl i'r byd ar noson o Wanwyn yn 1941, yn Dolydd, Ffordd Caernarfon, Cricieth, yn ail ferch i Sali a Will Jones-Evans, ac yn chwaer fach i Iola. Roedd Dolydd, cartref Beryl, yn un o ddau dŷ a adeiladwyd gan ei thaid, sef D.J., a bu'n gartref iddi tan iddi briodi Dewi. Ar ôl y rhyfel, daeth Dafydd Glyn, brawd Sali, a'i deulu i fyw drws nesaf iddyn nhw. Ac ar hyd y blynyddoedd, cynhaliodd y ddau deulu ei gilydd, a daeth Dafydd Glyn yn ffrind ac Yncl Taid i Siân a Nia.

Rhan o griw 'Top Maes' oedd Beryl a chafodd blentyndod hapus iawn yn chwarae yn y caeau, yr afon fach a'r goedwig gyfagos. Mynychodd yr ysgol gynradd yng Nghricieth, ac yn fuan iawn daeth ei natur o ofalu am eraill yn amlwg i bawb. Hi oedd yr un oedd yn gafael llaw a chysuro plentyn bach oedd yn anhapus o adael mam, a hi oedd yr un i fynd â phlentyn oedd wedi brifo i mewn at yr athrawon. Er yn blentyn eitha swil a distaw, roedd Beryl yn cymryd rhan amlwg yng ngweithgareddau cymdeithasol Cricieth yn ystod y 1950au: yn aelod selog o'r Urdd, yr Ysgol Sul, y Band of Hope, y Girl Guides a'r Groes Goch. Digon i'w chadw'n brysur iawn! Roedd ei gofal o'i Mam yn arbennig o'r dyddiau cynnar. Doedd dim yn ormod o drafferth gan Beryl, er iddi fod yn hynod o brysur hefyd yn y siop deuluol yn y Stryd Fawr a hefyd yn helpu ei Mam gyda '*visitors*' fyddai'n aros yn Dolydd drwy gydol yr haf.

Ar ôl pasio'r scholarship a mynd i Ysgol Ramadeg Porthmadog, daeth dawn gwnïo Beryl yn amlwg. Ati hi roedd ei ffrindiau'n dod i dynhau eu trowsusau neu i gwtïo eu sgertiau, fel eu bod yn sgertiau mini ffasiynol. Yn wir, mi barodd ei diddordeb mewn gwnïo trwy gydol ei hoes. Pan briododd Nia gyda Garry yn 1997, Beryl oedd yr un oedd yn twtio'r gwaith gwnïo ar ei ffrog briodas yn hwyr y noson cynt, oherwydd, yn ei geiriau hi, "Dydi hwnna ddim yn gorwedd yn iawn". A doedd dim yn waeth ganddi na gwaith gwnïo blêr, gan ei bod yn gosod safonau uchel iawn iddi ei hun.

Yn 1959, dechreuodd Beryl ar gwrs Therapydd Galwedigaethol (neu O.T.) yn Lerpwl. Ond yn fuan iawn sylweddolodd mai gyrfa ym myd addysg oedd ei dymuniad ac yn 1961 aeth i Goleg Santes Fair ym Mangor i gymhwyso fel athrawes. Ym Mangor y cyfarfu Dewi â Beryl am y tro cyntaf, yn nhafarn y Glanrafon. Ond, oherwydd bod Beryl wedi cael swydd yn Lerpwl yn Ysgol Gynradd Croxteth, barodd y berthynas ddim yn hir iawn y tro hwnnw.

Treuliodd Beryl gyfnod hapus yn Lerpwl yn cychwyn ar ei gyrfa dysgu, gan wneud llawer o ffrindiau ymhlith y Cymry oedd yn byw yno ar y pryd. Ac roedd bywyd cymdeithasol bywiog Lerpwl yn apelio'n fawr ati! Ond, yn rhyfedd iawn, gêm rygbi ddaeth a'r ddau yn ôl at ei gilydd. Does ryfedd fod rygbi mor bwysig i Dewi o hyd! Roedd Cymru'n chware Lloegr yn Twickenham, a diolch i 'chydig bach o '*matchmakio*' gan ei ffrind Now, llwyddodd Dewi a Beryl i ail gydio yn eu perthynas.

Er bod Beryl wedi symud i Lundain at Dewi, roedd angen ychydig bach o berswâd arno er mwyn gofyn iddi ei briodi. Pan ofynnodd i Beryl beth fuasai'n hoffi'n anrheg Nadolig yn 1968, fe atebodd hithau'n blwmp ac yn blaen - "modrwy"! A chafodd ei dymuniad, pan briododd y ddau yng Nghapel Mawr, Cricieth, ar ddiwrnod braf ar 18fed Hydref 1969.

Ond, pan gafodd Dewi swydd newydd yn Lerpwl, bu'n rhaid i'r ddau symud unwaith eto. A bu Beryl yn ddigon ffodus i ailgydio'n ei swydd yn ysgol gynradd Croxteth. Yn ardal Maghull yr ymgartrefodd y ddau, ac yno y ganwyd Siân ym mis Tachwedd 1971 a Nia ym mis Medi 1973. Roeddent bellach yn deulu o bedwar.

Erbyn hyn, roedd Dewi a Beryl yn hiraethu am Gymru. Felly, pan gafodd Dewi gynnig symud swydd i Borthmadog, bachodd y ddau ar y cyfle i symud yn ôl adref. Wedi chwilio a chwilio am gartref addas, penderfynon nhw ymgartrefu yn Waunfawr. Y penderfyniad gorau wnaethon nhw erioed yn ôl pob sôn!

Wedi cyfnod yn magu Siân a Nia, dechreuodd Beryl wneud gwaith llanw mewn nifer o ysgolion lleol. Treuliodd gyfnodau hir yn ysgolion Beddgelert, Pendalar a Llanllyfni cyn setlo yn Ysgol Maesincla, ble bu'n dysgu'r plant meithrin am nifer o flynyddoedd. Roedd hwn yn gyfnod hapus a gwnaeth ffrindiau da yn yr ysgol.

Roedd bywyd Beryl yn un prysur iawn yn ystod y cyfnod hwn - yn wir byddai'r genod yn dweud yn aml nad oedd hi byth adref am ei bod ar bwyllgorau di-ri! Fyddai hi byth yn un oedd yn dymuno cael sylw na'i chlodfori am hyn, ond roedd pwysigrwydd gwirfoddoli yn gynhenid ynddi. Byddai'n helpu gyda'r Urdd, y Carnifal, Merched y Wawr a'r Ganolfan yn Waunfawr ac roedd yn aelod diwyd o'r Pwyllgor Gwaith pan ddaeth Eisteddfod yr Urdd i Lynllifon yn 1990.

Trwy hyn i gyd, roedd Beryl hefyd yn gofalu'n gyson am ei Mam, Sali, a symudodd i fyw drws nesaf ond un iddi ym Mhennant. Beryl fyddai'n paratoi bwyd a rhoi ffisig iddi'n ddyddiol, ac roedd yn gwneud hynny'n ddi-gwyno.

Ond, roedd gwyliau bob amser yn gyfle i ddianc o gyfrifoldebau ac yn achlysur hapus i'r teulu. Pan oedd y genod yn iau, mi fydden nhw'n mynd ar wyliau blynyddol at Iola, David a Mark, gyda llond car o deganau a da-das i gadw'r genod yn ddistaw ar y daith hir. Yn nes ymlaen, treuliodd Dewi a Beryl sawl gwyliau hapus ar ynysoedd Groeg, cyn i Siân a Beryl ddarganfod haul Tenerife yn ystod tywydd gaeafau Cymru. Yno y dathlodd y teulu sawl achlysur pwysig. Hwnnw, hefyd, oedd lleoliad gwyliau olaf y teulu gyda'i gilydd, yn Hydref 2019.

Wedi i Nia a Garry ymgartrefu'n ôl yn Waun, bu Beryl yn rhan o'r busnes gwarchod plant gyda Nia am sawl blwyddyn. Mae llawer o blant y pentref wedi tyfu i fyny gydag Anti Beryl ac Anti Nia. Yn y cyfamser, ganwyd Dafydd, Aled ac Iwan a daeth Beryl yn Nain; rhywbeth a roddodd gymaint o fwynhad iddi. Roedd hi mor falch o'r tri wrth iddyn nhw dyfu'n ddynion ifanc yn dilyn eu cwys eu hunain mewn bywyd, ond yn dal i fwynhau dod i weld nain yn gyson.

Er gwaetha'r salwch Parkinsons, roedd Beryl yn dal i fod yn mwynhau crwydro yma a thraw i wledda a siopa. A fyddai'r un trip i Landudno'n gyflawn heb iddi ddod adref gyda llond bag o ddillad newydd o Marks & Spencer! Yn ddiweddar, gan ei bod yn ei chael yn anoddach i symud, roedd yr elusen Bws Barbara yn fendith, gan ei fod yn ei galluogi i deithio yn ddi-drafferth yn y gadair olwyn. Bu hyn yn hynod o gyfleus pan ddaeth ei chwaer, Iola, i dreulio amser gyda hi yn ddiweddar. Mae'r teulu hefyd yn hynod falch eu bod wedi cael y cyfle i ddathlu ei phenblwydd yn 80 oed gyda Beryl yn ddiweddar.

Dynes ei milltir sgwâr oedd Beryl ac mae'r teulu i gyd yn hynod o falch eu bod wedi cael dod â hi adref i dreulio'i dyddiau olaf yn eu cwmni. Adra oedd Beryl eisiau bod.'

Rydym hefyd yn cydymdeimlo â Gwyneth, John, Enlli, Mabon a Iago, Llys Meredydd ar farwolaeth mam Gwyneth.

# Ysgol Waunfawr

Bu'n braf croesawu'r disgyblion yn ôl i'r ysgol gan gynnwys 17 o ddisgyblion Meithrin newydd.

Yr ydym wedi croesawu dau ddisgybl newydd hefyd i'r dosbarth derbyn – croeso iddynt hwythau.

Yr ydym yn falch iawn o Cai Patchett Jones am godi arian ar gyfer y Gymdeithas Awtistiaeth yn ddiweddar drwy gwblhau Her y Tri Copa. Tipyn o gamp Cai – da iawn chdi.

Cafodd Cai ei enwebu hefyd am wobr arbennig Cymdeithas Pêl-droed Cymru drwy Gethin Jones sy'n cynnal gwersi yn yr ysgol. Gwobr am ei ymdrech ac agwedd gadarnhaol bob amser – gwych Cai a dal ati!


Braf yw croesawu Anti Sarah Jarvis atom fel cymhorthydd dros dro; gobeithio y bydd yn hapus iawn yn yr ysgol.

Gobeithio yn wir y byddwn yn gallu cynnal gweithgareddau mwy tebyg i'r arfer y tymor hwn a byddwn yn gallu croesawu rhieni ac aelodau o'r gymuned yn ôl i'r ysgol yn fuan iawn.







www.ecorwyddfa.co.uk

ECO'r Wyddfa


# Y Festri, Llanberis (Rhan 2)

Yn y rhifyn diwethaf cawsom gyfle i ddarllen am gefndir a chyfansoddiad Y Festri gan drafod sut oedd pethau cyn cyfnod Covid-19. Dyma ail hanner yr erthygl sy'n edrych ar aelodaeth, uchafbwyntiau a'r gobeithion ar gyfer Y Festri pan ddaw pethau'n fwy 'normal'.




**Ymaelodi**

Beth allwch chi ei ddisgwyl os ydach am fod yn aelod? Mae aelodau'r Festri'n hynod amrywiol, gyda siaradwyr Cymraeg a Saesneg, mamau a thadau, meddygon a gweithwyr cymdeithasol, perfformwyr syrcas ac artistiaid, pobl ifanc yn eu harddegau ac oedolion. Gwneir ymdrech i gadw pethau ychydig yn anarchaidd a rhydd gan sicrhau, fodd bynnag, ddiogelwch a diogelwch cyfreithiol pawb sy'n cymryd rhan. Cyn belled â'i fod yn lleol gall Y Festri weithio gyda mudiadau eraill i hyrwyddo ymwybyddiaeth neu ddathliadau drwy brosiectau celf. Meddyliwch beth mae eich cymuned chi eisiau a beth mae ei angen, ac yna meddyliwch sut allwch chi weithio gyda'r Festri i wneud iddo ddigwydd! Meddyliwch ar raddfa fawr!!

**Dwyieithrwydd**

Mae'r Festri'n hynod ymroddedig i gynnal amgylchedd ddwyieithog. Cyflawnir hyn ar y cyfan mewn ffordd sy'n parchu ein cymunedau ieithyddol gwahanol, ac mae tîm ardderchog yn helpu i gyflawni hyn. Gan mai mudiad gwirfoddol ydyw, mae'n sialens i gadw'r cydbwysedd rhwng y ddwy iaith, ac ar adegau mae'r aelodau'n ymwybodol nad ydynt yn gallu cadw'r cydbwysedd hwnnw. Nid yw'r dogfennau polisi mewnol yn hollol ddwyieithog: fodd bynnag, maent yn llwyddo'n eithaf da. Wynebir sialens yn aml oherwydd cyflymder y cyfryngau cymdeithasol, gan fod angen mwy o amser i gyfieithu gwaith i'r Gymraeg neu'r Saesneg.

**Gobeithion i'r dyfodol**

Bu Covid-19 yn faen tramgwydd i lawer iawn o fentrau celfyddydau cymunedol ar draws Gymru wledig. Roedd Y Festri'n benderfynol o geisio gweithio gystal ag oedd posib i gyflwyno gweithgareddau hwyliog, yn enwedig i bobl ifanc, trwy'r Cyfnod Clo. Trwy dderbyn nawdd gan Mantell Gwynedd ac UnLtd, roedd modd iddynt gynnal dosbarthiadau syrcas a chelf ar *zoom*, rhannu offer syrcas a chelf allan a chreu arddangosfeydd mewn blychau ffôn. Cafwyd comisiwn gan Pontio i gynhyrchu fideos addysgu sgiliau syrcas. Teimla'r Festri bod hyn i gyd wedi helpu eu cymuned i gael ymdeimlad o gyswllt trwy'r amseroedd anodd yn ystod y flwyddyn. Cafwyd cefnogaeth dda gan Lywodraeth Cymru ac mae pawb wedi gweithio'n eithriadol o galed i sicrhau bod popeth mewn trefn i gynnal digwyddiadau a fydd yn Covid-19 ddiogel, yn unol â'r cyfyngiadau cyfredol. Wrth edrych ymlaen at y dyfodol, mae'r grŵp rheoli'n teimlo bod gan y Festri rôl hynod bwysig o ran adferiad, gwellhad ac adnewyddiad wrth i'r pandemig ddod yn llai o broblem yn ein bywydau cymunedol. Mae'r grŵp yn teimlo bod chwarae'n hanfodol i'n pobl ifanc ac yn gobeithio cael rhaglen wych o weithgareddau dros y blynyddoedd nesaf, gyda'r pwylais ar lesiant.




**Uchafbwyntiau**

Tyfodd Gwnewch eich Marc (*Make your Marks*) dros y blynyddoedd i fod yn dri dosbarth, sy'n darparu profiad gwaith i ddarpar fyfyrwyr ac artistiaid. Yn aml, mae Gwnewch eich Marc yn creu partneriaeth gyda mudiadau eraill ac fel arfer yn rhoi gosodiad yn nau flwch ffôn Y Festri yn y pentref. Yn ogystal â rhoi arddangosfeydd Nadolig a Chalan Gaeaf yn y blychau maent wedi arddangos amrediad eang o bob math o bethau – o dyfu dôl, i ymwybyddiaeth am sbwriel a phrosiectau amgylcheddol. Mae'n dod â llawer o bleser, yn enwedig i blant y pentref, ac yn rhoi cyfle i ddangos popeth sy'n digwydd yn Y Festri ac ymestyn bywyd y gwaith celf. Yn ddiweddar, cafwyd cyllid gan LleCHI i gomisiynu artistiaid lleol i greu gosodiadau sy'n adlewyrchu hanes Llanberis a'r berthynas â llechi.

Tyfodd yr orymdaith Ffair Nadolig Llanberis o nerth i nerth, ac wedi wyth mlynedd roedd yn denu cannoedd o bobl, plant a phobl ifanc. Cyfrannodd pobl ifanc Y Festri trwy wneud posteri a llusernau helyg, creu cymeriadau, arddangosfeydd yn y blychau ffôn, drymio yn y band samba, murluniau, perfformiadau syrcas – a sioeau tân!

Bu Pontio'n gefnogwr ardderchog i waith Y Festri gan eu galluogi i fynd â phlant a phobl ifanc i sioeau a gweithdai syrcas. Aethpwyd â'r criw syrcas ifanc, hynod gynhyrfus, i *Circus Feast* 2019 lle cawson nhw berfformio eu sioe *Circus Futures* yn y Theatr Stiwdio; tra bu'r cwmni syrcas hynaf *CircoPyro,* yn perfformio sioeau tân. Roedd gweld y perfformwyr ifanc ar lwyfan yn brofiad anhygoel, a chafodd y bobl ifanc brofiad gwerthfawr y bydd ei angen arnynt er mwyn cais am addysg bellach mewn syrcas a'r celfyddydau.




**I'r dyfodol**

Mae'r Festri'n hynod ddiolchgar i bawb yn y gymuned sy'n eu cefnogi trwy ddod i'r Neuadd, cyfrannu, rhoi o'u hamser neu'n eu dilyn a'u hoffi ar y cyfryngau cymdeithasol. Dim ond trwy weithio fel partneriaeth gyda'r gymuned y gall celfyddyd gymunedol ffynnu! Nid jest cymryd rhan mewn gweithdai neu ddigwyddiadau yw celfyddyd gymunedol, mae'n ymwneud â darparu ffyrdd o estyn allan a dod â phobl at ei gilydd drwy'r celfyddydau, boed hynny drwy ddigwyddiadau cyfryngau cymdeithasol, digwyddiadau neu arddangosfeydd gyda'r gymuned ehangach. Trwy'r dulliau hyn maent yn gobeithio parhau i annog, dathlu a chefnogi diwylliant lleol a hunaniaethau positif.

**Nesta Elliott**

# Llais i'r Gymraeg - eich cyfraniad hanfodol chi!




Mae Mozilla, y rhai sydd wedi creu'r porwr gwe Firefox, sydd ar gael yn y Gymraeg gyda gwirydd sillafu Cymraeg (a degau o ieithoedd eraill) wedi ymroi i gadw'r we yn agored ac ar gael i bawb yn rhad ac am ddim. Criw o wirfoddolwyr dysgedig sydd am i'r we fod yn lle diogel, defnyddiol a lle y gall bawb ei fynychu yn ei iaith ei hun. A dyma nhw'n dod a'r Gymraeg i'r we.

**Prosiect *Common Voice***

Mae'r Gymraeg yn rhan o'r prosiect hwn sy'n hanfodol i ddyfodol digidol y Gymraeg, ac mae'n bwysig i ni ei gefnogi. Pwrpas a nod Mozilla ydi creu meddalwedd fel y gall y Gymraeg, a llawer iaith arall, gael eu priod le ar y we.

Mae prosiect *Common Voice* yn bwysig i roi'r iaith ar waith go iawn ar y we.

O gael digon o samplau siarad fe fydd Mozilla'n creu meddalwedd siarad a deall y Gymraeg. Dwi isio gallu dweud ar fy ffôn "Gai fap ffordd o Gaerdydd" neu "Lle mae Llanpumsaint" neu "Pwy 'di'r boi Tudur na ar radio Cymru?" - a chael ateb yn y Gymraeg.

Hwn ydi'r cyfeiriad, ewch yno bobl - <https://commonvoice.mozilla.org/cy>

Mae holl recordiadau radio'r BBC yn y Gymraeg yn y bas data'n barod, ond mae angen llawer, llawer mwy er cymaint gwerth y swp yma gan y BBC. Dyna faint y dasg. Mae angen miliynau ar filiynau o samplau a dim ond o enau'r Cymry y daw'r rheini, sef chi.

Gan fod cymaint o dafodiaethau yng Nghymru mae angen miloedd ar filoedd o samplau o bob un ohonynt.

Tydi'r Saesneg hyd yn oed ddim wedi cael digon o samplau hyd yma. Cofiwch na nid Google na Windows ydi'r rhain- mae'r rheini am wneud arian o'u technoleg - ond mi fydd Mozilla am ddim i bawb, felly cefnogwch nhw.

**Beth alla'i ei wneud?**

Yr unig beth sydd angen i chi i'w wneud ydi mewngofnodi (<https://commonvoice.mozilla.org/cy>) Yna cewch ddau ddewis

1. darllen brawddegau i'r cyfrifiadur, tabled neu ffôn, neu

2. gwrando ar ddarlleniadau pobl eraill a chytuno neu beidio â'u cywirdeb - clic ar iawn neu na. Hawdd!

Fe gewch ddewis o ddarllen neu wrando a barnu.

Does 'na ddim digon o samplau o lawer i greu'r meddalwedd - rhaid cael miliynau mwy. Plîs, plîs bobol, dewch i achub eich iaith.

'Da ni i gyd yn medru siarad a darllen - ewch ati, dim ond rhyw hanner awr ar y mwyaf bob rhyw ddeuddydd, neu bryd bynnag mae gennych ychydig o amser sbâr. Mae o'n heintiol a dwi 'di cael fy hun yno am awr neu ddwy!

'Da ni ar ei hôl hi'n hegar ar gyfraniadau i'r wefan yn y Gymraeg, felly'r gorau po fwyaf aiff i siarad a chymryd ein hiaith i'r dyfodol, os da chi am gael dyfodol iddi yn de?

Beth am anfon manylion i'ch holl gysylltiadau a buan iawn y cawn ddigon, ac o bob cwr o'n gwlad. Ymlaen bobol, ymlaen.

**Gwyndaf Hughes**

# Agorwch y Drysau i'r eisteddfodau lleol

Fel nifer o gymdeithasau a digwyddiadau eraill, mae'r eisteddfodau lleol yn ceisio atgyfodi yn dilyn cyfyngiadau Covid-19. Bu'n rhaid i 65% o bwyllgorau eisteddfodau lleol ohirio neu ganslo eu cynlluniau'n gyfan gwbl yn ystod 2020 a 2021. Mewn blwyddyn arferol byddai o gwmpas 120 o eisteddfodau'n cael eu cynnal, ac yn denu'n agos at 11,000 o gefnogwyr, dros bum mil o gystadlaethau a 2/3 o'r rheiny o dan 18 oed.

Er mwyn helpu gyda'r dasg mae Cymdeithas Eisteddfodau Cymru wedi lansio rhan gyntaf strategaeth uchelgeisiol newydd, sef Agorwch y Drysau. Doedd cyfnod Covid-19 ddim yn ddu i gyd o bell ffordd, ac mae'n bosib defnyddio'r gwersi a ddysgwyd i gynllunio dyfodol llewyrchus. O'r eisteddfodau lleol a fentrodd yn ddigidol neu gynnig opsiynau gwaith cartref gwelwyd cynnydd aruthrol yn y nifer yn cystadlu gyda Chyngerdd Rhithiol Eisteddfod Pandy Tudur dros y Pasg yn denu dros 2.2 mil ar Facebook; roedd y nifer yn cystadlu mewn rhai o gystadlaethau Eisteddfod Gadeiriol Llandudoch wedi dyblu a derbyniwyd dros 1,200 o gynigion yng nghystadlaethau Eisteddfod Rithiol Powys

Fel rhan o Agorwch y Drysau cynhelir cyfres o sesiynau panel arbenigol yn ystod Medi, Hydref a Thachwedd dros Zoom o dan y teitl Mentro Trwy Fentora. Bydd yn gyfle i glywed gan drefnwyr digwyddiadau llwyddiannus eleni, yn cynnwys Eisteddfod AmGen, Eisteddfod T a Gŵyl Tafwyl. Hefyd bydd cyfraniadau gan unigolion sy'n cynrychioli partneriaid cenedlaethol y Gymdeithas wrth gyflwyno ystod eang o bynciau yn ymwneud ag iechyd a diogelwch, hawliau, materion technegol, cyfathrebu, codi arian a meddwlgarwch. Y bwriad yw magu hyder, creu egni o'r newydd, diogelu safonau cystadlu a sicrhau cynulleidfaoedd i'r dyfodol.

Cynhelir y sesiynau ar y 3ydd nos Iau o'r mis am 7.30pm gan ddechrau ar 23ain Medi hyd 25ain Tachwedd. Cynigir y sesiynau yn rhad ac am ddim i aelodau a chyfeillion y pwyllgorau lleol, diolch i gydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill sy'n cynnwys: Yr Eisteddfod Genedlaethol, Eisteddfod yr Urdd, Mentrau Iaith, Cymunedau Digidol Cymru, Bro 360 Menter Caerdydd, PRS, Merched y Wawr, AM, S4C a Cymru FM.

O 5ed Hydref, byddwn hefyd yn cydweithio gyda **Cymunedau Digidol Cymru** ar gyfres o chwe chwrs awr o hyd ar brynhawniau Mawrth er mwyn helpu'r rhai sy'n llai hyderus i ddatblygu eu sgiliau digidol sylfaenol, dysgu am hygyrchedd ar-lein yn ogystal â phwysigrwydd iechyd a lles.

I'r sawl sydd am wybod sut mae paratoi podlediad neu straeon digidol, all fod yn ddefnyddiol wrth rannu straeon yn ymwneud â threfnu eisteddfod yn lleol, byddwn yn cynnig 2 sesiwn awr o hyd fin nos am 7.30pm ar 15fed a'r 22ain o Dachwedd.

Bydd angen cofrestru o flaen llaw oherwydd disgwylir y bydd cryn ddiddordeb yn y sesiynau.

I gael gwybodaeth bellach ewch i www.steddfota.org a chwiliwch am 'Agorwch y Drysau' neu cysylltwch ag Aled Wyn Phillips, aled@steddfota.org, 07974 747881.

Yn gynnar yn 2022 mae'n fwriad i lansio ail gam y strategaeth. Bydd **Sbardun Steddfota** yn canolbwyntio ar briod waith yr eisteddfodau: cyfansoddi, perfformio a beirniadu ayb. Y nod yw parhau i ddatblygu sgiliau, codi safonau a chreu llwybr cystadlu ar draws llwyfannau Cymru.

Dywedodd Megan Jones Roberts, Cadeirydd Cymdeithas Eisteddfodau Cymru, "Mae angen yr Eisteddfodau lleol ar Gymru benbaladr i gadw'n traddodiad diwylliannol yn fyw. Y gobaith yw y bydd yr holl gynlluniau yma'n hwb i'r cannoedd o wirfoddolwyr wrth i bethau ddychwelyd i'r drefn arferol y flwyddyn nesaf.

Mewn cyfnod o warchod ein talentau cynhenid, ein diwylliant a'n hiaith, ein blaenoriaeth yw ail blannu a thocio'r winllan er mwyn i gynulleidfaoedd unwaith eto fedru cyd-flasu ffrwyth ein heisteddfodau cymunedol."

# A-wê

Chwilio am rywbeth i'ch difyrru drwy nosweithiau tywyll yr hydref? Os ydi arlwy'r teledu a'r radio yn eich syrffedu, cofiwch fod yna dorreth o wybodaeth ddiddorol a defnyddiol iawn ar y we i'ch difyrru. Mae 'na fwy i'r we na Facebook!


Beth am wirioni gweld ffeithiau, lluniau a ffilmiau am ein gwlad? Dyma 'chydig o lefydd y mae Gwyndaf Hughes yn cynnig i chi fynd i bori drwyddyn nhw:

Gwefan Llyfrgell Genedlaethol Cymru - https://www.llyfrgell.cymru.

Porwch drwy ffotograffau, mapiau, llythyrau, papurau newydd, cylchgronau, baledi, barddoniaeth, darluniau...

Tyrchwch ym mhapurau'r genedl, o'r Cymro, y Goleuad, neu'r Western. Dyma'r cyswllt:- (https://papuraunewydd.llyfrgell.cymru/). Fe wirionwch. Cofiwch y gallwch chwilio'r holl bapurau.

Yma hefyd cewch gasgliad o fapiau Degwm Cymru (https://lleoedd.llyfrgell.cymru/) – dysgwch be ydi'r degwm a'i effaith ar ein gwlad. Yna, beth am fynd i Cylchgronau


Y Tyst a'r Dydd

11 Hydref 1872

33 o bleidleisiau; a'r Toriaid 17; yn gwneyd mwyafrif o 16 yn ffafr y Rhyddfrydwyr.

LLANBERIS.

CAU Y TAFARNDAI.—Bydd yn dda gan gyfeillion sobrwydd a gweddeidd-dra glywed, fod ynadon sir Gaernarfon wedi penderfynu cwtogi oriau masnach y tafarndai i'r amser byraf a ganiatâ y gyfraith. Felly o hyn allan, bydd yn rhaid i bob tafarndy yn y dosbarth gael ei gau o ddeg yn yr hwyr hyd saith y boreu ar hyd dyddiau yr wythnos, a thrwy ddydd Sabboth, oddigerth rhwng haner awr wedi dau y prydnawn, a rhwng chwech a naw o'r gloch yn yr hwyr.

Cymru sy'n gasgliad o gyfnodolion Cymru o'r Traethodydd i'r Genhinen. (https://cylchgronau.llyfrgell.cymru/). Maen nhw'n llawn gwybodaeth i'ch gwirioni, go iawn.

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig https://bywgraffiadur.cymru/ yn hanes ein cenedl, er ei fod yn Gristnogol ac yn llawn o ddynion ar y mwyaf. Yma y cewch hanes fawrion ein cenedl, y rhai na fydd fawr o neb yn gwybod amdanynt gan na chafodd neb yng Nghymru hanes ein gwlad yn yr ysgol.

Dyma rai o lefydd eraill i bori ynddynt:

Datgelir hanes cudd y Rhyfel Byd Cyntaf, gan ddangos sut y bu'r hanes yn effeithio ar fywyd, iaith a diwylliant yng Nghymru. (https://cymru1914.org/cy)

Mae yna ffilmiau 360 gradd ar gael i'w gwylio yn dangos hen dechnegau amaethyddol ar wefan Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru - (https://cbhc.gov.uk/archwiliwch-eich-archifau-2020-technolegau-digidol-ym-maes-treftadaeth/ ).

Mae Casgliad y Werin yn drysorfa o ffotograffau, dogfennau a chlipiau sain a fideo am hanes, diwylliant a phobl Cymru. Yma y gwelwch chi gasgliad o ffotograffau Geoff Charles (Y Cymro). Wrth ddewis yr opsiwn 'mapiau' gallwch ganfod hen luniau o'n hardal ni. https://www.casgliadywerin.cymru/

Mi fedrwch dreulio dyddiau yn chwilio am olion archeolegol yn eich ardal yma. (https://www.coflein.gov.uk/ )

Gellir gwylio degau o ffilmiau archif dros y 90 mlynedd diwethaf o'ch ardal leol sy'n cynnwys clasur John Roberts Williams Yr Etifeddiaeth. https://player.bfi.org.uk/free

Cofiwch hefyd, gellir canfod casgliadau ar-lein ar wefan Amgueddfa Cymru yn https://amgueddfa.cymru/casgliadau/arlein/.

Mwynhewch.

# Tir Dewi

Mae 'na lawer o ffermwyr a'u teuluoedd allan yna sy'n brwydro i ymdopi â'r pwysau a ddaw o redeg fferm. Nôl yn 2015, yn dilyn sgwrs rhwng y cyn Esgob Wyn a'r Hybarch Eileen Davies MBE, Archddiacon Ceredigion, mi ddaeth y ddau i'r ddealltwriaeth nad oedd digon o gefnogaeth ar gael i ffermwyr. Felly sefydlodd Eileen, (sydd hefyd yn rhedeg fferm ddefaid a godro gyda'i theulu) yr elusen, Tir Dewi. Dechreuodd fel elusen fechan yn cynnig cefnogaeth i bob ffermwr yn y tair sir yng Ngorllewin Cymru. Dros y flwyddyn ddiwethaf, estynnwyd y gefnogaeth honno i ogledd Cymru, Powys a Phenrhyn Gŵyr.

Hyd yn hyn, y mae gwirfoddolwyr Tir Dewi wedi helpu dros 300 o deuluoedd ffermio gydag amrywiaeth o faterion, problemau, gofidiau, heriau ac y mae'r nifer yn codi yn ddyddiol. Y mae Tir Dewi yn cynnig llinell gymorth gyfrinachol am ddim gyda'r dewis o drafod gyda rhywun yn Saesneg neu Gymraeg, saith diwrnod yr wythnos o 7.00 AM tan 10.00 PM. Yr ydym hefyd yn cynnig cymorth wyneb yn wyneb.

Mae pawb yn ymwybodol fod gweithio mewn amaethyddiaeth yn gallu bod yn ofnadwy o anodd. Mae'n gallu bod yn unig, gyda phwysau gwaith aruthrol, ac mae'r ffermwr yn aml yn gorfod cario'r pwysau hwnnw i gyd heb neb ei rannu.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae mwy a mwy o waith papur ynghlwm wrth amaethyddiaeth, mae rheolau yn newid yn gyson, mae gofidiau wedi cynyddu ac mewn nifer o achosion mae'r help a'r gwmnïaeth oedd yn nodweddiadol o gymunedau amaethyddol wedi lleihau yn aruthrol.


Pwrpas Tir Dewi yw bod yna i gynnal a chefnogi ffermwyr a'u teuluoedd drwy unrhyw adeg anodd sy'n dod ar eu traws, gallwn gynnig clust i wrando, gallwn helpu gyda phethau ymarferol fel gwaith papur neu alwadau ffôn, neu gallwn eich cyfeirio at fudiadau sy'n arbenigo yn y broblem benodol sy'n eich poeni chi.

Mae gennym tua 60 o wirfoddolwyr dros Gymru, ac mae pob un ohonynt yn deall ffermwyr, ac yn cydymdeimlo gyda'r problemau sy'n eu wynebu. Mae pob un ohonynt wir eisiau helpu i leddfu ychydig ar y gofid a'r pwysau mae gymaint o ffermwyr yn ei deimlo, a hynny bob amser yn hollol gyfrinachol wrth gwrs.

Nid oes y fath beth ag "*annual*", "*sick*" neu "*compassionate leave*" i'w gael i ffermwyr, mae'n rhaid iddyn nhw gario ymlaen. ***Ond oes rhaid? Neu gallech chi ofyn am help, help a allai esmwytho peth o'r boen, y baich neu'r pwysau, gan adael i chi gael amser i feddwl, blaenoriaethu a theimlo eich bod yn cael eich cynnal?***

Y mae tîm o wirfoddolwyr caredig, llawn empathi yn Tir Dewi yn barod i wrando a'ch cefnogi beth bynnag a rannwch. Felly galwch **0800 121 47 22** am gymorth cyfrinachol am ddim.

Hefyd, os oes diddordeb gennych, rydym wastad yn chwilio am wirfoddolwyr i ymgymryd â gwahanol roliau o fewn yr elusen, felly cysylltwch â ni i glywed mwy.



# Un funud fach ...

## DIGYWILYDD

Mae 'na bobl ddigywilydd, ac mae 'na bobl ddigywilydd, ac mae 'na bobl ddigywilydd.

Un peth ydi pobl ddigywilydd sy'n ymwthio i flaen ciw mewn siop, neu blant sydd byth yn deud diolch. Anghwrteisi ydi hynny.

Peth arall ydi bod heb gywilydd o gwbl, bod yn wynebgaled, heb fath o gywilydd o unrhyw beth a wnawn neu a ddywedwn. Digywilydd-dra Nigel Farage a Piers Morgan a'u tebyg ydi hynny.

Enillodd Emma Raducanu Bencampwriaeth Dennis Agored yr Unol Daleithiau ddechrau Medi. Roedd yn fuddugoliaeth syfrdanol i ferch deunaw mlwydd oed; yn fwy fyth felly o gofio y gorfu iddi chwarae yn y rowndiau rhagbrofol er mwyn cael rhan yn y gystadleuaeth o gwbl. Does ryfedd fod cefnogwyr tennis a'r miloedd na chlywodd amdani cyn mis Medi wedi gwirioni ac yn llawn edmygedd o'r ferch ifanc o Lundain a chanddi dad o Romania a mam o China. Ymhlith y bobl a ruthrodd i'w llongyfarch yr oedd Nigel Farage â'i neges, *'A global megastar is born'*. Ond dyma'r dyn a ddywedodd, mor ddiweddar â 2014, y byddai gan bawb rhesymol sail dros bryderu pe deuai dynion o Romania i fyw'r drws nesaf iddynt. Mae Farage am arddel Emma Raducanu er iddo ddweud peth felly am gydwladwyr ei thad. Dim cywilydd o gwbl.

Nôl ym mis Gorffennaf, gadawodd y ferch ifanc hon bencampwriaeth Wimbledon oherwydd ei phryderon ynghylch ei hiechyd meddwl. Ar y pryd, roedd pawb bron yn ei chefnogi ac yn ei hedmygu am gydnabod ei phoen yn gyhoeddus. Pawb bron, meddwn, ond nid y newyddiadurwr a'r darlledwr Piers Morgan. Yn ôl Morgan ar y pryd, nid cydymdeimlad oedd ar Emma Raducanu ei angen ond asgwrn cefn. Ac wedi iddi ennill y rownd derfynol yn Efrog Newydd roedd Morgan yn hawlio peth o'r clod gan fynnu mai wedi dilyn ei gyngor ef yr oedd hi. Ym marn Morgan, mae Emma Raducanu'n ddyledus iddo am ei goleuo! Pa ots fod merch ifanc yn llawn pryder ddechrau'r haf? Pa ots fod ei eiriau o wedi peri loes fawr iddi? Yn ôl Morgan, fo oedd yn iawn o'r cychwyn, ac mae angen i bawb ddeall hynny! Na, dim cywilydd o gwbl.

Ond cyn gorffen, peth arall eto ydi bod yn rhydd oddi wrth gywilydd, neu fel y dywed Geiriadur y Brifysgol, *'bod heb ymdeimlad o gywilydd (mewn ystyr dda)'*. Nid yw pawb, diolch am hynny, fel Farage a Morgan. Mae'r gydwybod ddynol a gras Duw'n cadw llawer rhag eu digywilydd-dra hwy. Ond mae yna 'bobl ddigywilydd' mewn ystyr ddyfnach a rhagorach. Cyfarch y bobl hynny a wna Ioan â'r geiriau, 'Ac yn awr, blant, arhoswch ynddo ef, er mwyn inni, pan fydd ef yn ymddangos, gael hyder a bod heb gywilydd arnom ger ei fron ef ar ei ddyfodiad' (1 Ioan 2:28). Gobaith mawr Ioan, a gobaith pob Cristion trwy'r Efengyl, yw medru wynebu Duw heb deimlo cywilydd o gwbl, er gwaethaf pob pechod a bai y buom yn euog ohonynt erioed. A gŵyr Ioan mai trwy drugaredd Duw y mae'r gobaith hwnnw gennym: 'Os cyffeswn ein pechodau, y mae ef yn ffyddlon ac yn gyfiawn, ac felly fe faddeua inni ein pechodau, a'n glanhau o bob anghyfiawnder' (1 Ioan 1:9). Bod yn ddigywilydd yn yr ystyr orau ydi hynny.

**JOHN PRITCHARD**

# Cynnig Cymraeg Tŷ Gobaith

Tŷ Gobaith, yr hosbis plant lleol, yw'r darparwr gofal iechyd cyntaf i dderbyn cymeradwyaeth Cynnig Cymraeg gan Gomisiynydd y Gymraeg. Mae'r statws yma'n gydnabyddiaeth o'r gwasanaeth Cymraeg sy'n cael ei gynnig i blant a'u teuluoedd yn eu hosbis yng Nghonwy, a thrwy eu swyddfa codi arian.

Mae fideo byr ar wefan Tŷ Gobaith yn amlinellu'r Cynnig Cymraeg a phwysigrwydd y gwasanaethau Cymraeg, yn cynnwys cyfweliadau gyda rhiant un o'r plant sy'n derbyn gofal yn Nhŷ Gobaith, a'r Pennaeth Gofal - www.hopehouse.org.uk/cynnig-cymraeg

Dywed Nerys, Mam Bedwyr; "Yn anffodus rydan ni'n gorfod trafod pethau reit agos i'r galon, pethau does dim llawer o deuluoedd yn gorfod trafod – cynllun gofal, cynllun diwedd oes a ballu – ac mae'n neis cael trafod hynny yn yr iaith Gymraeg"

Ar ôl blwyddyn anodd a welodd ostyngiad incwm o £1.25 miliwn i'r elusen, mae cefnogaeth gan y cyhoedd yn bwysicach nag erioed. Dywed Kelly Hughes, Swyddog Codi Arian Cynorthwyol; "Os ydan ni eisiau parhau i ddarparu'r gofal yma yn y Gymraeg, dim ond efo cefnogaeth y cymunedau Cymraeg fyddan ni'n gallu gwneud hynna'n symud ymlaen".




Kelly Hughes (chwith), Swyddog Codi Arian Cynorthwyol, ac Angharad Davies (dde), Pennaeth Gofal Tŷ Gobaith, yn ffilmio yn yr hosbis ar gyfer lansiad y Cynnig Cymraeg.

Mae llawer o ffyrdd gwahanol i gefnogi, o roi rhodd i fynychu digwyddiad codi arian. Mae Tŷ Gobaith hefyd yn edrych am gyfieithwyr gwirfoddol i helpu gyda pharatoi adnoddau Cymraeg, felly os oes gennych chi ddiddordeb, cysylltwch gyda Kelly ar kelly.hughes@tygobaith.org.uk, neu 01492 596 581, neu Swyddfa Codi Arian Tŷ Gobaith, Llys Conwy, 16-18 Ffordd Bangor, Conwy, LL32 8NH.

"Yr iaith Gymraeg ydi un o'r pethau sy'n gallu cadw ni'n agos at y gymuned ac mae hynna'n bwysig iawn i ni fel elusen leol"

www.ecorwyddfa.co.uk
ECO'r Wyddfa

# Becws Waunfawr - Atgofion o'r flwyddyn 1932: Rhan 1

Merch fferm o ardal Betws Garmon oedd Mary Pritchard fy mam, cyn iddi briodi â John Awstin Jones fy nhad ym mis Gorffennaf 1932. Mewn llyfr nodion, neu'r 'copi bwc' a gadwai yn ystod y saithdegau mae hi'n sôn sut y bu i batrwm ei bywyd newid yn gyfan gwbl ar ôl priodi a symud i fyw i'r Waunfawr, sef pentref a chymdeithas wahanol iawn i'r hyn yr oedd wedi arfer ag o ym mro ei mebyd ym Metws Garmon. – Gwilym Morris Jones.

Mae'r hanes isod wedi ei gymryd o'r 'Copi Bwc' hwnnw, a byddwn yn dod â'r hanes i chi dros bedwar rhan dros y misoedd nesaf.

**Rhan 1**

Gwyrddlas a dibrofiad iawn oeddwn i pan ddois yn wraig ifanc 22 oed o Fetws Garmon i'r Waunfawr ar ôl priodi yn y flwyddyn 1932. Trawsblaniad o ryw gwta dair milltir, ond ffordd o fyw pur wahanol i'r hyn yr oeddwn wedi arfer adre ar y fferm. Becar oedd John y gŵr wrth ei alwedigaeth, yn pobi bara mewn becws bychan ynghanol y pentref, ac yn fuan deuais innau yn rhan o weithgareddau'r becws a chael fy hun, oherwydd amgylchiadau, yn cyfarfod â phob math o bobl. Roedd hyn ar adeg o ddirwasgiad, a llawer yr adeg honno ar y *dole*, ac yn gorfod byw ar ychydig ac yn aml iawn yn brin.

Rwyf yn cael fy hun yn y becws un prynhawn am y tro cyntaf. Roedd John wedi dweud wrthyf am ddod i lawr yno ar ôl hanner dydd a buasai'r becar, sef 'Jac Becar' fel ei adwaenid, yn fy rhoi ar ben ffordd ynglŷn â dangos ymhle yr oedd pethau a gwahanol brisiau ac ati. Roedd John ei hun allan yn danfon bara o gwmpas yr ardal efo'r fan a cheffyl ac ni fyddai wedi gorffen tan gyda'r nos. Roedd Jac Becar a Wil y prentis yn fy nisgwyl, ond yr unig help a gefais oedd dangos rhestr o brisiau bara i mi. Grôt am dorth fawr 2lb, dwy a dime am dorth fach wen ac un frown, a cheiniog yr un am bob teisen a bynsen. Estynodd Jac dun i mi ac ychydig o arian mân ynddo. "Pres newid", meddai, ac yna diflannodd Wil y prentis ac yntau drwy'r drws gan fy ngadael ar ben fy hun i wneud y goreu o bethau. Dim ond yr wythnos cynt yr oeddwn wedi priodi, a



dyma fi yn wraig ifanc hollol ddibrofiad yn cael fy hun mewn amgylchiadau nad oedd gennyf yr un syniad amdanynt. Gwnai fy swildod fi yn nerfus ofnadwy gyda phobl yn galw yn y becws am fara, blawd a burum ac ati. Roedd llawer ohonynt yn hollol ddieithr i mi, ac eraill roeddwn ond yn eu hadnabod o ran eu gweld, merched ran amlaf, a gwragedd chwarelwyr oedd y mwyafrif. Teimlwn yn lletchwith gyda'r holl waith anghyfarwydd, ac ofnwn yn fawr y cawn fy meirniadu. Ni bu'r diwrnod yn un prysur o lawer ac yn hwyr y pnawn daeth Elin Jones, fy mam-yng-nghyfraith ataf, a dywedai hi wrthyf enwau y gwahanol gwsmeriaid, ac wrth gwrs roedd hynny yn help mawr i mi. Daeth geneth oddeutu deg oed i'r becws i nôl saith pwys o flawd a dwy owns o furum, i rhyw Mrs Holbrook oedd yn byw i lawr y lôn. Wedi pwyso'r blawd a'r burum a gwneud y cownt, talodd yr eneth i mi, ond daeth yn ei hôl toc gan ddweud, "Mae Mrs Holbrook yn gofyn faint ydi saith pwys o flawd"? Gwnes innau y cownt wedyn, a'i gael yn union yr un faint. Yna gofyn i'r eneth ei wneud efo mi, a hithau'n ei gael yr un fath a mynd oddi yno yn fodlon. Wyddwn i ddim ar y pryd bod saith pwys o flawd i'w gael yn rhatach. Roeddwn wedi codi amdano fesul pwys, ond be wyddwn i, doedd neb wedi dweud yn amgenach wrthyf. Pris blawd yr adeg honno oedd punt y sâch, neu Gini am sachaid mawr 140lb.

Ambell dro byddai ysbeidiau hirion heb i neb ddod ar gyfyl y becws a minnau yno fel ci wrth dennyn yn diarthu. Ar adegau felly awn ati i lanhau tipyn ar y lle. Roedd y becws wedi ei rannu yn ddwy ystafell, ac yn y lle roedd y popty roedd teils coch a du ar y llawr a byddwn yn cael pleser mawr o'u golchi. Llawr pren oedd i'r rhan arall a fedrwn i wneud dim â fo ond trio sgwrio tipyn arno a'i sgubo, ond fedrwn byth ei gael i edrych yn lân. Roedd slabiau o gerrig glas o'r chwarel o flaen y drws, ac ar ddiwrnod braf awn ati'n ddyfal i'w golchi. Cawn ddrwg gan John am wneud hyn, rhag i bobl lithro a syrthio arnynt. Roedd y becws yn lle diflas sobr i fod ynddo am oriau. Nid oeddem yn cau hyd at wyth o'r gloch y nos, a byddwn eisiau cerdded i fyny'r lôn dywyll i Tŷ Gwyn, a chludo siwrnai o ddŵr glân i fyny efo mi o'r tap yng ngwaelod y lôn. Nid oedd golau trydan mewn amryw o dai bryd hynny, felly roedd y tŷ yn dywyll ac oer heb dân. Rhaid oedd goleuo'r lamp a chynnau'r tân a disgwyl iddo afael cyn rhoi'r tecell arno, a byddai yno fwg difrifol yn dod lawr o'r simdde. Byddwn yn falch ofnadwy pan fyddai John wedi cyrraedd adre o fy mlaen a minnau'n gweld golau yn y tŷ ac yntau wedi cynnau'r tân, ond pur anaml y digwyddai hynny.


SIÂN GWENLLIAN

AELOD O SENEDD CYMRU DROS ARFON



01286 672076

8 Stryd y Castell, Caernarfon

sian.gwenllian@senedd.cymru





FFRAMIA

Parc Padarn Llanberis

(01286) 870922

Gwasanaeth

FFRAMIO LLUNIAU

www.fframia.com

Dewis eang o luniau yn yr oriel ac ar y wefan

William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy



GERAINT OWEN

CARPEDI



Cil y Mynydd
Waunfawr
Gwynedd

A Uned 5 Gwyrfai Mill, Bontnewydd

(01286)650552 Symudol - 07712779475

CARPEDI
TEILS
VINYLS

DEWIS MAWR
O BATRYMAU

# Clochyddion Betws Garmon



Wrth chwilio i hanes Pentra bach ym mhlwyfi Llanwnda a Betws Garmon deuthum ar draws cyfeiriadau at Humphrey Hughes, a fu'n glochydd. Fe'i ganed yn 1769 a bu farw ym Mhentra bach yn Ionawr 1859. Ar ei garreg fedd ym mynwent eglwys Betws Garmon dywedir iddo fod yn glochydd am 68 o flynyddoedd. Ond mae'n amlwg iddo fyw yng Nghae'r Odyn, Garreg Fawr, oherwydd yno y ganed ei ferch, Appolonia, a'i bedyddio ym Metws Garmon ym Mehefin 1811. Dilynodd ei thad yn glochydd y plwyf, a gwasanaethodd hithau yn y swydd am 30 o flynyddoedd hyd ei marwolaeth ym Mai 1888. Claddwyd Humphrey a'i ferch yn yr un bedd, ond mae Margaret – gwraig a mam – wedi ei chladdu mewn bedd arall.

Os bu Humphrey Hughes yn glochydd am 68 mlynedd, yna roedd wedi cychwyn ar y gwaith hwnnw yn 1791. Ond, mewn cofnod claddu ym Metws Garmon ddiwedd mis Gorffennaf 1809 dywedir fod yr ymadawedig, Catherine Hughes, yn weddw i'r *"late Parish Clerk, who had officiated with assistance after her husband's death."* Does dim sicrwydd pwy oedd ei gŵr, ond mae'n debygol iddo farw yn 1791, ac i Catherine roi cymorth i Humphrey Hughes, y clochydd ifanc a ddechreuodd ar ei dymor maith o wasanaethu'r plwyf. Yn yr un modd, mae'n debyg fod Appolonia wedi helpu ei thad fel yr oedd henaint yn llesteirio ei waith yntau.

Gwelodd Humphrey Hughes a'i ferch yr hen eglwys yn cael ei dymchwel, ac eglwys newydd, sef yr un bresennol, yn cael ei hadeiladu yn ystod 1841-42. Rhoddwyd tir ar gyfer yr eglwys newydd ac er mwyn ymestyn y fynwent gan Morgan John Morgan, perchennog fferm yr Ystrad yn ôl Map Degwm y plwyf. Methais a chael unrhyw wybodaeth am hwn, ond deuthum ar draws cofnod claddu *"John Morgans of Ystrad, Gent"* yn 1782. A oedd gan hwn fab o'r enw John Morgans? Oherwydd yn 1795 roedd mab, Morgan Jones, yn cael ei fedyddio – plentyn John Morgans a Margaret, ei wraig; yntau hefyd yn cael ei ddisgrifio fel *"Gent of Ystrad".* Roedd felly yn deulu bonheddig. Mewn llythyr i'r wasg mae 'cyfaill i'r eglwys' yn holi pam na roddwyd unrhyw sylw i wasanaeth agor a chysegru'r eglwys newydd ar 15fed o Dachwedd 1842. Mae'n diolch i berchennog y tir am y rhodd, ac yn nodi ei fod bellach yn byw yn Cobham. (Mae dau le o'r enw Cobham yn Lloegr, un yn Sussex a'r llall yng Nghaint).

Ym mis Mai 1842 penodwyd y Parch Morgan Lloyd i ofalaeth Betws Garmon. Mae rhai adroddiadau yn cyfeirio ato fel 'periglor y plwyf' ac eraill fel ciwrad, ac o fewn dwy flynedd byddai'n cael ei gyhuddo ar gam o wrthod claddu yn y fynwent blwyfol. Yr oedd a wnelo Humphrey Hughes, y clochydd, a'r achos.

Nid yw'r manylion ar gael yn llawn, a rhaid dibynnu ar un adroddiad yn y *Caernarvon and Denbigh Herald* ym mis Gorffennaf 1844 – a'r adroddiad hwnnw yn Gymraeg! Dyma'r hyn a anfonwyd i'r wasg gan rywun o'r enw Owen Prichard: "Mewn perthynas i'r llythyr a anfonais at y Parch William Williams, yn yr hyn y dywedais fod y Parch Morgan Lloyd, Periglor Betws Garmon wedi anfon ei gennad i ddweud na wnai ef gladdu Henry Thomas (ap Tudur) heb gael 6/8 (chwe swllt ac wyth geiniog) cyn cychwyn y corff o'r tŷ at y gladdfa. Oddi ar dystiolaeth mab Henry Thomas, sef William Thomas, yr anfonais y llythyr hwnnw. Tystion a'i clywodd oedd William Rogers a John Jones."

Yr oedd rhyw Grace Jones hefyd yn cadarnhau fod Humphrey Hughes, y clochydd, wedi dweud fod rhaid wrth dâl o 6/8. Yna, ceir datganiad gan William Thomas, mab yr ymadawedig, yntau hefyd yn ymddiheuro. Credai ef mai y Parch Morgan Lloyd oedd wedi anfon y cennad yn hawlio tâl ymlaen llaw – ac mai dyna sut y cafodd Owen Prichard ei gamarwain. "Y mae yn ddrwg gennyf fod cymaint o dwrw wedi bod o achos hyn, a drwg gennyf fod Mr Lloyd wedi ei frifo."

Camddealltwriaeth felly oedd achos y trafferthion. Tybed ai Humphrey Hughes, y clochydd, oedd y cennad y sonnir amdano. Roedd yr ymadawedig, Henry Thomas yn byw yng Ngwredog Isaf, a hwnnw ym mhlwyf Llanwnda. Mae'n ddigon posib fod y tâl am gladdu yn ddrutach i rai o'r tu allan i blwyf Betws Garmon, ac mai sicrhau y tâl ychwanegol oedd bwriad 'y cennad', os mai Humphrey Hughes oedd hwnnw. Roedd ei gyflog yntau'n ddibynnol ar y tâl claddu.

Mae'n fwy na thebyg na chawn fyth wybod beth yn union ddigwyddodd, ond byddai'n ddiddorol darganfod ble roedd Owen Prichard, William Rogers, John Jones a Grace Jones pan ofynnodd Humphrey Hughes am dâl claddu o chwe swllt ac wyth geiniog.

Yr un mor ddiddorol yw'r enwau Humphrey Hughes ac Appolonia. Yr oedd y ddau enw yn eithaf cyffredin ym mhlwyf Betws Garmon, yn enwedig yn ystod y ddeunawfed ganrif a hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae'n ymddangos hefyd mai cysylltiadau teuluol oedd yn gyfrifol am barhad yr enwau. Roedd Thomas Hughes, Caeaugwynion wedi priodi merch o'r enw Appolonia Hill yn Llundain yn 1695. Roedd ganddynt fab o'r enw Humphrey, ac o'u hepil hwy y deilliodd pob un Humphrey ac Appolonia ym mhlwyf Betws Garmon!

**Mynydd uchaf Cymru**

Dros y misoedd diwethaf bu cryn drafod ar ddileu'r enw Snowdon a Snowdonia, a defnyddio'r enwau Wyddfa ac Eryri yn unig. Pe bai adroddiadau a ymddangosodd yn y wasg ychydig dros ganrif yn ôl wedi eu gwirio, yna fyddai'r fath ddadl ddim yn bodoli. Oherwydd bryd hynny, honnid mai Carnedd Llewelyn oedd mynydd uchaf Cymru ac nid yr Wyddfa!

Mewn adroddiad yn *Y Dydd* ym mis Awst 1892 dywedir fod Carnedd Llewelyn 3 llathen ac 17 modfedd yn uwch na'r Wyddfa. Ni ddywedir pwy fu'n mesur y ddau fynydd gyda'r fath fanylder. Roedd yr adroddiad hefyd yn beirniadu pobl Llanberis, ac yn honni eu bod wedi manteisio ar anwybodaeth ymwelwyr am flynyddoedd lawer er mwyn eu denu i'r pentref. Roedd gohebydd *Y Cymro* yn fwy deifiol ei sylwadau, ac yn nodi fod trigolion Llanberis yn hynod ffroenuchel yn hawlio'r Wyddfa, ond "fod modfedd yn llawer mewn trwyn".

Yn *Y Drych*, y papur Cymraeg Americanaidd y cafwyd y gair olaf, ac un digon tosturiol oedd, o gofio fod rhai degau o fynyddoedd yn y wlad honno yn llawer uwch na'r Wyddfa: "gadewch i fechgyn Llanberis a Beddgelert ganmol tipyn ar y **bryn** hwnnw a elwir yn Wyddfa – peidiwch â digio wrthynt!"

Ac fel rhywun o Lanrug, mi wnai gadw allan o'r ddadl.



Eglwys Betws Garmon tua 1883



Heddiw

---

**www.chwilota.wordpress.com**
**Os oes gennych unrhyw ymholiad am agweddau o hanes lleol bro'r *Eco*, neu unrhyw hanesyn diddorol am unrhyw gyfnod yn hanes y fro, yna cysylltwch â Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon LL55 4BA**
**(Ffon 01286 673515)**
**e-bost: dafydd.wthomas@btinternet.com**

# Cyngor Cymuned Llanberis

## 14eg Gorffennaf 2021

**Presennol ac Ymddiheuriadau:**
***Ward Padarn:*** Rhys ap Gwilym (Cadeirydd), Iwan Harding, Heather L Jones, Cyng. Kevin Morris Jones, Kim Jones, Claudia O'Donnell, Helen Sharp, Trystan Thomas.
***Ward Peris:*** Iola Owen, Llinos Haf Pritchard.
***Ymddiheuriadau:*** Gwilym Evans, Olwen Gwilym, Bethan Holding.
Hefyd yn bresennol: Dei Tomos (Clerc).

**Datgan buddiant:**
cofnodir, os yn berthnasol, o dan y gwahanol benawdau.

**Cadarnhau cofnodion:**
Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod nos Fercher 9 Mehefin, 2021 fel rhai cywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

**Materion yn codi o'r cofnodion:**
***1. Cae Chwarae Ger y Llyn:***
Mae'r gwaith ar fin cael ei gwblhau. Yn ôl y cwmni bydd y ffensys a'r sgip yn cael eu symud dydd Llun nesa, 19 Gorffennaf, a bydd y darn bychan o dir sydd heb laswellt yn cael ei hadu a'i ffensio dros dro i'r borfa gael llonydd i dyfu. Dywedwyd fod yr offer yn eu lle yn edrych yn ardderchog, yr unig ddarn o'r hen gwrs coed a gadwyd oedd y bont. Mynegodd y Clerc ddiolch i Llifon Foulkes o Gyngor Gwynedd (CG) am ei gymorth a'i arweiniad.

Atgoffwyd y Cyngor fod addewid wedi bod beth amser yn ôl i osod offer chwarae newydd i blant bach. Rhaid cofio fod siglen newydd ddwbl i blant bach wedi ei gosod eleni. Fydd dim arian ar gyfer mwy o offer eleni, nodyn ar gyfer Cyllideb y flwyddyn nesa!
***2. Cae Chwarae Dôl Elidir:***
Y giât heb ei gosod eto ond y si-so wedi ei symud a'i hail osod a llawr newydd wedi ei osod o dan yr offer. Mae bwriad hefyd gan CG i greu llwybr caled i mewn i'r cae pan fydd cyllid yn caniatau.
***3. Cae Chwarae Nantperis:***
CG wedi ei hatgoffa am adnewyddu'r fainc.
***4. Gwesty Dolbadarn:***
Hyd yma chafwyd dim cais cynllunio ac nid oedd mwy o wybodaeth wedi dod i law.
***5. Cofeb y Chwarelwyr:***
Adroddwyd fod cyfarfod wedi ei drefnu gyda swyddogion CG.

**Materion eraill**
***1. Teras Glanrafon, Nantperis:***
Daeth cwynion i law trwy LlHP nad oedd hi'n bosib i drigolion y rhesdai barcio yno'n hwylus am fod nifer o ymwelwyr gyda mwy nag un car yn aros yn rhai o'r tai sy'n dai haf / Air B&B. Mae hon yn broblem mewn nifer o strydoedd yn Llanberis hefyd, ac mae pobl yn flin nad oes ganddynt unlle i barcio oherwydd ymwelwyr. Wedi trafodaeth hir penderfynwyd yn achos tai Glanrafon anfon llythyr at berchnogion y tai gwyliau i ofyn iddyn nhw ac i bwyso ar eu gwesteion i barcio dim ond un car yn unig o flaen y tŷ a mynd ag unrhyw gerbydau eraill i'r maes parcio.

Yn ystod y drafodaeth soniwyd efallai y gellid ymestyn y math hwn o gynllun i strydoedd eraill pe bai'n llwyddo, a pe byddai modd cael cydweithrediad trigolion y strydoedd hynny.
***2. Parcio Dros Nos - Maes Padarn:***
Apêl gan HS am gymorth i atal parcio dros nos ar lain o dir ym Maes Padarn a ddefnyddir gan drigolion tai 33 i 37. Nid yn unig mae'r trigolion yn colli llecyn parcio ond mae sbwriel a budreddi wedi ei adael yno ar nifer o achlysuron ar ôl i ymwelwyr digywilydd barcio yno. Penderfynwyd gofyn i CG am gymorth.
***3. Mynydd Gwefru:***
Yn ôl KMJ mae pryder ynglŷn â dyfodol safle Mynydd Gwefru a'r hyn a ddigwydd i'r safle yn y dyfodol wedi i'r adeilad gael ei ddymchwel. Mae'r Cynghorydd Sir yn amau fod trafodaethau yn mynd ymlaen heb i'r Cyngor hwn fod yn cyfrannu iddynt. Gweledigaeth y Cyngor hwn yw y gallai'r safle yma greu incwm i'r ardal, gan mai er budd yr ardal yr adeiladwyd yr adeilad yn wreiddiol, ond na ddaeth llawer o hynny erioed, ac na fu gan y gymuned/au lleol lais yn ei reoli. Penderfynwyd anfon gair at gwmni Engie i holi a oes cynlluniau yn cael eu trafod, ac am gael cyfarfod â rhai o'r swyddogion. Os nad oes brys mawr, awgrymir estyn gwahoddiad iddynt i gyfarfod mis Medi.

**Gohebiaeth:**
***1. Coeden Unig Saundersfoot, Penfro [Save Saundersfoot's Lonely Tree Group]:***
Daeth cais oddi wrth un o drigolion Saundersfoot ar arfordir de Penfro sy'n brwydro i achub Cypreswydden Monterey, coeden brin, sydd dan fygythiad o gael ei thorri. Mae'r goeden yn tyfu ar graig 'Scar Rock' sydd ar draeth y dref yn agos i floc o fflatiau. Haerir fod y 'Goeden Unig', fel y'i gelwir, yn amharu ar olygfa'r trigolion. Ond barn wahanol sydd gan amryw o bobl yr ardal sydd wedi ffurfio grŵp i'w hamddiffyn a'i diogelu. Gan fod 'Coeden Unig' yma hefyd ar lan Llyn Padarn, coeden boblogaidd sydd wedi cael llawer o sylw a miloedd wedi tynnu ei llun, gofynnwyd a fyddai'r Cyngor hwn yn fodlon ceisio gefeillio'r ddwy goeden. Erbyn hyn mae Cyngor Cymuned Saundersfoot o blaid diogelu'r goeden ac mae rhyw 1,400 o bobl wedi ffurfio grŵp i ddiogelu coeden Saundersfoot a chodi cronfa o dros ddwy fil o bunnau ers mis Ebrill. Maen nhw o'r farn y byddai cysylltu'r ddwy goeden â'i gilydd o fudd i'w diogelu

Penderfynwyd mai da o beth fyddai cefnogi ymdrech sir Benfro a gweld beth ddaw o'n cysylltiad â nhw.
***2. Cyngor Tref Nefyn:***
Cais am i'r Cyngor hwn anfon rhywun i gyfarfod a drefnir i ystyried creu memorandwm o ddealltwriaeth ynglŷn â Pholisi Iaith Cynghorau Cymuned a Thref yng Ngwynedd fel bod y Gymraeg yn cael ei gwarchod yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Cymal 6 (Cymru) a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.
Cytunwyd â'r cais.
***3. CG Gwasanaeth Traffig:***
Ymgynghori i greu man parcio arbennig ar gyfer Deiliad Trwydded Breswyl Anabl yn Stryd Goodman. Dim gwrthwynebiad.
***4. Cyngor Cymuned Llandygai:***
Llythyr yn mynegi anfodlonrwydd y Cyngor â gwasanaeth rhai o adrannau CG yn gofyn a oedd yna awydd i geisio cael cyfarfod efo Prif Weithredwr yr awdurdod i ddod â'r cwynion i'w sylw er mwyn ceisio gwella'r sefyllfa. Tybed a oes yna awydd i gydweithredu â Chyngor Llandygai. Cytunwyd nad drwg o beth fyddai hynny, er mwyn cael gwell dealltwriaeth. O ran ymateb, hyd yma roedd amrywiaeth barn ynglŷn â'r gwasanaeth. Nid oedd pawb yn cwyno.
***5. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE) - Adran Cadwraeth Coed ac Amaeth:***
Manylion yn amlinellu ac egluro fod APCE wedi rhoi Gorchymyn Gwarchod Coed (Rhif 78) 2021 ar Goed Victoria, Llanberis ar 18 Mehefin. Bydd yn weithredol am 6 mis neu nes y bydd yr Awdurdod wedi cadarnhau'r gorchymyn, pa un bynnag fydd gyntaf. Yn y cyfamser, mae cyfle i ymgynghori ar hyn hyd 19 Gorffennaf. Mae'r coetir yn Safle Coetir Hynafol gyda thua hanner yr ardal goetirol yn Goetir Lled-Naturiol Hynafol (CLINH) a'r hanner arall yn Safle Coetir Hynafol wedi'i Blannu (SCHP)
***6. CG - Digwyddiadau (Rasus)***
E-bost oddi wrth CG yn gofyn barn ynglŷn â chaniatau i ddwy ras gael eu cynnal ym misoedd Medi a Hydref. Mae trefnwyr *Man v Mountain* a *Love Swim Run,* dwy ras sylweddol, y naill â lle i 1,200 a'r llall â lle i 200, yn awyddus i fwrw ymlaen i drefnu'r rasus yma, er fod CG wedi mynegi'n glir ddymuniad y Cyngor hwn i beidio cynnal unrhyw rasus eleni oherwydd y pandemig.

Cafwyd trafodaeth fanwl (gyda Ross Worthington sy'n cynorthwyo gyda threfniadau a diogelwch rhai o'r rasus yn rhoi'r cefndir o du trefnwyr *Man v Mountain*). Ond gan fod pawb arall wedi parchu dymuniad y gymuned leol a'r Cyngor, a bod rasus fel Ras yr Wyddfa a Marathon Eryri, a drefnir yn lleol, wedi eu gohirio tan y flwyddyn nesa, penderfynwyd cadw at y penderfyniad gwreiddiol i ofyn i drefnwyr beidio cynnal eu digwyddiadau eleni. Ychwanegwyd nad oedd unrhyw sicrwydd beth fyddai sefyllfa Covid-19 erbyn Medi a Hydref, yn enwedig gan fod y niferoedd sy'n dal yr haint ar gynnydd ar hyn o bryd. Roedd y penderfyniad yn unfrydol, a diolchwyd i CG am ystyried y teimladau lleol.

**Cynllunio: CG:**
**C21/0574/15/DT** - *Newidiadau ac estyniadau* - Awelfryn, 7 Rhes Olgra, Ffordd Clegir, Llanberis: Dim sylw.
**C21/0635/15/LL** - *Cais ar gyfer dymchwel adeilad allanol a chodi anecs unllawr yn ei le (cynllun diwygiedig i'r hwn a wrthodwyd o dan gais cyfeirnod C21/0288/15/LL)* - Summer Hill, 6 Ffordd Tŷ Du, Llanberis: Dim sylw.
**APCE:NP3/15/231** - Estyniad to a gosod ffenestri to - 3 Bryniau Gerddi, Llanberis: Dim sylw.

**Adroddiadau allanol:**
***1. Y Ganolfan:*** Cafwyd adroddiad gan HS fod offer newydd ar gyfer dangos lluniau/ffilmiau wedi eu prynu i'r Ganolfan, hefyd bwyler cynhesu newydd a set o oleuadau symudol. Yn ogystal, mae Parc Padarn wedi rhoi ffens newydd o'i chwmpas. Trefnodd Y Ganolfan hefyd i osod placiau ar safleoedd dau gyn gapel, sef Gorffwysfa (MC) a Nant Padarn (A) yn Llanberis mewn cydweithrediad â LleChi. Mae'r gwaith ar y Tapestri wedi ail-ddechrau, a thalwyd am bryd o fwyd i'r ddau dim pêl-droed iau.

# Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

## 6ed Gorffennaf 2021

**Cynllun Natur Ardal Llanddeiniolen**
Rhoddwyd croeso arbennig i Angharad Owen a ymunodd i drafod y cynllun yma.

Dywedodd bod y grŵp wedi sefydlu ac wedi cychwyn ar waith yn Rhiwlas. Maent wedi bod yn cydweithio i ddechrau gyda'r ysgol ac wedi plannu coed a blodau a ballu yn y parc ac ar faes ac wedi cydweithio o dan ganiatâd Cyngor Gwynedd ac Adra.

Mae'r grŵp yn dymuno creu llecyn ymhob pentref, lle caiff pobl ddod at ei gilydd i arddio. Y syniad ydi fod grwpiau cymunedol yn edrych ar ôl y llecynnau; bydd hyn yn creu rhwydwaith drwy'r gymuned a gyda phentrefi eraill.

Maent yn gobeithio ceisio am grant sylweddol trwy'r *Heritage Lottery Fund*.

Mae sawl rheswm dros wneud hyn, gan ei fod yn dda i iechyd a'i wir angen yn dilyn y Cyfnod Clo sydd wedi bod. Ar ôl cychwyn, y syniad ydi fod grŵp o bob pentref yn etifeddu hyn i gyd ac yn parhau i blannu. Bydd hynny'n arwain at sawl peth ymhellach ymlaen. Diolchwyd i Angharad, am ennyn diddordeb ynom i gyd.

**Cofnodion Cyfarfod 1 Mehefin 2021**
Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

**Materion o'r Cofnodion.**
**Llwybr Wern i Bodandreg -** Derbyniwyd ymateb gan swyddog o Gyngor Gwynedd yn cadarnhau nad oes dim un llwybr yn ardal Llanddeiniolen wedi ei ddargyfeirio**.** Nodwyd eto fod yr arwyddion wedi cael eu rhoi yn ôl i fyny, a hefyd wedi cael eu tynnu i lawr o fewn dyddiau. Gofynnwyd i'r Clerc gael gair gyda'r adran.
**Mainc Cae Chwarae Clwt y Bont** - Cafwyd e-bost yn nodi bod y fainc wedi cael ei fandaleiddio unwaith eto, ac i'r pwynt y tro yma le na all gael ei thrwsio. Y Clerc i chwilio am amcan bris am fainc newydd.
**Cynllunio.**
**Y21/0621 1 Rhes Faenol, Stryd Fawr Deiniolen -** Ymholiad am gyngor cyn cyflwyno cais i leoli uned arlwyo symudol o fewn cwrtil preswyl - Penderfynwyd nad oedd modd ymateb gan nad oes digon o wybodaeth ynglŷn â'r bwriad. Ond pe bai cais swyddogol yn cael ei gyflwyno, mi fydd angen mwy o wybodaeth am y cais.
**C21/0614/18/DT 43 Caeau Gleision, Rhiwlas** - Dymchwel y modurdy presennol a chodi estyniadau yn y cefn a'r ochrau. Dim Gwrthwynebiad
**C21/0559/18/LL Tir gyferbyn â Tŷ Ni, Gallt y Foel -** Cais ar gyfer codi tŷ fforddiadwy a chreu mynediad cerbydol newydd. Penderfynwyd gwrthwynebu ar sail nad yw'r cais yn gweddu fel tŷ fforddiadwy.
**C21/0538/18/DT Llain y Werin, Penisarwaun** - Cais ar gyfer codi estyniad deulawr i gefn yr eiddo. Dim Gwrthwynebiad.
**C20/0813/18/LL - Fferm Penrhyn, Llanrug** - Lleoli 3 Pod gwersylla safon uchel ynghyd â gwelliannau i'r fynedfa. – Pryder am lifogydd a phryder am y fynedfa fel mae hi. Hefyd, ddim yn siŵr os ydi trafodaethau am y llwybr diogel i'r Ysgol o Fethel i Lanrug yn bwriadu defnyddio'r hen drac trên.
**C21/0349/18/Ll Gwynfryn, Bethel** - Dymchwel y sied a'r modurdy presennol a chodi anecs yn yr ardd gefn ar gyfer defnydd preswyl yr eiddo a adnabyddir fel Gwynfryn.

**Cyflwyno Ffurflen Flynyddol**
Yn dilyn derbyn archwiliad mewnol gan yr adran archwilio yn y Cyngor Sir, cyflwynwyd y Ffurflen Flynyddol, ynghyd â'r adroddiad mewnol. Mae'n rhaid dangos ac esbonio'r gwahaniaethau + neu - mewn adroddiad manwl cyn ei yrru gyda'r Ffurflen i'r Awdit Allanol. Cyflwynodd y Clerc adroddiad llawn o'r gwahaniaethau rhwng eleni a llynedd, gan nodi yn union beth a faint oedd y gwahaniaethau ac egluro'r rhesymau.

Cafwyd cyfle i ofyn cwestiynau neu egluro; ond nid oedd angen, roedd pawb yn hollol hapus fod yr esboniadau a'r adroddiadau yn hollol glir. Cymeradwywyd y Ffurflen Flynyddol, ac arwyddodd y Cadeirydd hi yn barod i yrru ymlaen gyda nifer o ddogfennau i Awdit Cymru. Diolchwyd i'r Clerc am yr holl waith oedd ynghlwm â'r awdit

**Penisarwaun -** Llwybr 137 Giât dros ffordd i Neuadd Glasgoed, mae'r *railing* un ochor i'r giât mochyn wedi malu

Llwybr heibio Rhwng Dwyryd Deiniolen, mae'r arwydd ar y llawr y ddwy ochor.

**Llwybrau Rhiwlas**
Rhiwlas - Deiniolen. Cychwyn yn rhif 69 ac yna yn arwain i 71. Heibio Caemawr, Bronydd, Maes Meddygon a Bwlch Cae Mawr. Uwchben Bwlch Cae Mawr, mae'r cloddiau wedi disgyn i mewn i'r llwybr, ac mae cerddwyr yn gorfod cerdded ar dir y fferm. Mae yna arwydd ym Maes Meddygon, ond dim un arwydd uwchben Maes Meddygon ar grib y mynydd i ddangos lle mae'r llwybr.

Llwybr Carreg y Gath tuag at Rallt Pentir Rhif 74. Mae 3 llwybr yn uno tuag at yr allt. Nid oes arwydd o gwbl. Mae gwartheg a cheffylau yn rhwbio yno ac yn gwisgo'r arwydd dros amser. Angen arwydd newydd.

Lôn Castell, Llwybr 61. Hollti llwybr 60 a 62, un i Garfan a llall i Dyddyn Badin. Mae'r llwybrau yn mynd dros dir Tros y Waun. Mi fu pont a chamfa yno ar un adeg, ond mae gwir angen arolwg ar y llwybr yma i weld be sydd angen ei wella. Mae'r llwybr ei hun mewn lle da ond wedi dirywio, ac rydym angen ei uwchraddio.

**O Gwmpas y Bwrdd**
Cytunwyd fod ochor y lonydd a gordyfiant y gwair yn sobor, a'i bod yn warthus nad yw wedi cael ei dorri erbyn hyn. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi dechrau torri'r gwair yn yr ardal bellach. Mae'n edrych fel petai ni ydi'r ardal olaf ar y rhestr pob blwyddyn.

Mynwent Macpela - Yr un gŵyn: mae'r Cyngor Sir wedi lleihau nifer y toriadau maent yn ei wneud yn y fynwent. Yn anffodus, ni all y Cyngor Cymuned dalu am gost toriad yn y fynwent, gan nad yw'r fynwent wedi ei chofrestru yn ein gofal. Mae'n rhaid ac yn ddyletswydd ar y Cyngor Sir i wneud yn sicr fod y toriadau cywir, glân yn cael eu gwneud yn y fynwent ar amser priodol.

Baw ci yn broblem waeth gan fod y gwair wedi tyfu. Neb yn gweld lle mae cŵn yn gwneud eu busnes, a dim ots gan berchnogion.

CEIR CYMRU
Diolch am gefnogaeth
ein cwsmeriaid yn Eryri
dros 25 mlynedd
Gareth.w.jones@hotmail.co.uk
www.ceircymru.com
Bethel (B4366) Caernarfon Gwynedd LL55 1UN
01248-671770/670451

SAMARIAID
Gogledd Orllewin Cymru
Beth bynnag rydych chi'n ei wynebu
Rydyn ni yma i wrando
Llinell Gymraeg ddi-dâl
7-11pm bob nos
0808 164 0123
Gwefan: www.samariaidbangor.cymru



# Cyngor Cymuned Llanrug

## 20fed Gorffennaf 2021

**Llenwi Sedd wag ar y cyngor dros ward Llanrug**
Penderfynwyd cyfethol y Cyngh. Berwyn Parry Jones dros ward Llanrug ar y Cyngor Cymuned.

**Y Fynwent**
Adroddwyd fod y gwaith iechyd a diogelwch yn dilyn asesiad risg yn parhau. Mae tua 25 o bobl wedi cysylltu â'r Clerc i ofyn am fanylion, gyda'r mwyafrif yn derbyn y rhesymau dros y gwaith sydd wedi ei wneud. Derbyniwyd un gŵyn hyd yma.

Y cam nesaf, fydd rhoi llythyr unigol ar bob stêc i ofyn i ymwelwyr gysylltu â'r Cyngor, a bydd cyhoeddusrwydd pellach yn cael ei roi i hyn. Rhagdybir y bydd hyn yn cymryd lle o gwmpas mis Medi.

Adroddwyd ymhellach fod y Pwyllgor wedi cyfarfod ac wedi gwneud y penderfyniadau canlynol:
(a) Ar ôl derbyn cynrychiolaeth a chyfarfod ac un o'r ymgymerwyr lleol, penderfynwyd diddymu'r amod mai dim ond aelodau o BRAMM fyddai'n gallu gosod cofeb yn y fynwent ond nodwyd fod rhaid i'r gwaith fod wedi'i wneud i safon BS8415 a bydd angen derbyn tystysgrif gan y saer maen yn cadarnhau fod hyn wedi ei wneud. Bydd angen addasu'r ffurflenni cyfredol i adlewyrchu hyn.
(b) Parhau â'n cais yng nghystadleuaeth Mynwent y Flwyddyn
(c) Mae'n fwriad gan y Pwyllgor i gyfarfod yn fuan i addasu rheolau'r fynwent
(ch) Bwriedir rhoi placiau yn y fynwent yn nodi'r gofod. Bydd hyn yn helpu pobl i adnabod y gofodau. Bydd pob gofod wedi ei nodi A – I.
(d) Mae'r broses o'r Cyngor Cymuned yn ystyried cymryd drosodd gyfrifoldeb am Fynwent yr Eglwys yn parhau.

Adroddwyd fod system chwilio'r fynwent yn 'fyw' a gellir ei defnyddio ond penderfynwyd aros hyd nes bydd y placiau yn nodi'r gofod yn eu lle, cyn lansio'r system.

**Y Pwyllgor Cyllid**
Adroddwyd fod y Pwyllgor wedi cyfarfod, ac fe drafodwyd y canlynol:

Etholwyd y Cynghorydd Avril Jones yn Gadeirydd y Pwyllgor a'r Cynghorydd Phillip Roberts yn Is-gadeirydd.

Angen symud ymlaen gyda chytundeb cyflogaeth y Clerc

Nodwyd fod gwaith fydd angen ei wneud yn y fynwent angen ei ariannu gan y Cyngor, a bydd angen ystyried benthyg arian i gyflawni'r gwaith.

Nodwyd nad oes ceisiadau yn dod i law oddi tan gynllun grant dewisol y Cyngor ar hyn o bryd a bod angen trosglwyddo arian o'r cyfrif 'Poor House'. Ar hyn o bryd nid ydym wedi gallu symud ymlaen gyda hyn.

Adroddwyd fod giât yn cael ei hysbysebu ar wefan ond fod angen sicrhau ei bod yn addas ar gyfer Cae Chwarae Dolafon.

Biniau baw cŵn – anodd penderfynu faint o arian sydd angen ei neilltuo oherwydd rydym yn parhau i ddisgwyl ymateb oddi wrth Cyngor Gwynedd.

Goleuadau Nadolig – mynegwyd pryder am y cytundeb o 5 mlynedd, ac efallai bydd angen torri lawr ar y goleuadau. Penderfynwyd cysylltu â busnesau lleol i holi os byddent yn fodlon cyfrannu tuag atynt.

**Y Pwyllgor Hamdden**
Adroddwyd fod asesiadau risg y caeau chwarae wedi eu derbyn a chytunwyd i drefnu cyfarfod o'r Pwyllgor Hamdden i fynd drwyddynt.

Cytunwyd fod angen symud ymlaen â giât ar gyfer Dolafon. Penderfynwyd gofyn i'n contractwr os y gall ei gosod.

Nodwyd hefyd fod bag o rafel yn parhau i fod ar y parc sglefrio.

**Y Pwyllgor Bwyd**
Adroddwyd nad oedd llawer o newid wedi bod yn y cynllun na'r trefniadau yn ddiweddar. Nodwyd fod y Pwyllgor wedi cyfarfod â chriw Tyddyn Teg gyda'r bwriad o ddarparu bocs o lysiau i'r rhai sy'n derbyn pecynnau bwyd gyda chynllun ar y cyd â Phrifysgol Caerdydd.

Nodwyd ein bod wedi derbyn palet o duniau bwyd yn cynnwys eog a ffrwythau a bod y rhain wedi'u cludo i'r hen ysgol yng Ngwm y Glo ac yn cael eu rhannu'n wythnosol.

Mae bagiau plastig yn parhau yn brin a byddai unrhyw gyflenwad y gellir ei dderbyn yn dderbyniol.

**Adroddiad y Cyngh. Berwyn Parry Jones aelod dros Gwm-y-Glo ar Gyngor Gwynedd.**
Mae posib archebu gwasanaeth gan y Cyngor Sir drwy eu gwefan, neu drwy app ar ffôn symudol. Mae'r gwasanaeth yma yn dal i ddatblygu ac mae posib archebu mwy a mwy o wasanaethau neu waith trwy'r dull hwn. Mae mwy yn cael eu hychwanegu o hyd. Mae'n hwylus i'r cwsmer ac yn rhatach i'r Cyngor.

**Cynllun Datblygu Lleol**
Cafwyd cyfarfod arbennig o'r Cyngor llawn i drafod yr adolygiad i'r cynllun sydd yn digwydd ar ôl pedair blynedd sef yr haf yma. Roedd teimlad fod yr amserlen i gwblhau'r gwaith yn llawer rhy hir, sef tair blynedd, gan gofio'r argyfwng tai sydd yn ein hwynebu. Penderfynwyd ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i weld oedd posib lleihau'r amser. Erbyn hyn mae ateb wedi dod gan y Llywodraeth yn dweud fod yr amserlen yn statudol a bydd rhaid dilyn y canllawiau.

**Biniau Halen**
Mae llawer o anniddigrwydd wedi bod gyda'r ffaith ei fod yn cael ei basio i lawr i'r Cynghorau Cymuned. Cynghorau yn gweld y gost o ail lenwi biniau yn ddrud iawn, rhai yn dal i dderbyn gwasanaeth, eraill ddim. Hefyd mae cwynion ei fod yn annheg, e.e Llanddeiniolen hefo 62 o finiau a Bangor a Chaernarfon efo 11 yr un. Felly mae yna adolygiad o'r gwasanaeth yn mynd i fod, i weld beth yw y posibiliadau.

**Adolygiad Strategol o'r Gwasanaeth Cludiant Cyhoeddus**
Mae'r Awdurdod wedi bod yn casglu gwybodaeth gan y cyhoedd am eu defnydd o'r bysiau gyda llawer o holiaduron wedi eu llenwi arlein a staff wedi trafaelio ar y bysiau i holi'r defnyddwyr. Cafwyd dros 2000 o ymatebion a chomisiynwyd Prifysgol Bangor i ddadansoddi'r holiaduron ac i roi gwerth cymdeithasol i bob llwybr bws. Braf dweud fod rhif 88 wedi dod allan hefo'r gwerth cymdeithasol ail uchaf yng Ngwynedd. Mae'r adran rŵan yn awyddus i adolygu addasrwydd y rhwydwaith presennol a hefyd i dreialu ffyrdd gwahanol mewn rhai ardaloedd, e.e. tacsi ar alw, a.y.y.b. Mae'r adroddiad llawn ar gael ar wefan y Cyngor.

**Cyflymder rhwng Cwm-y-Glo a Llanrug**
Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi gorchymyn fod cyflymder rhwng Cwm-y-Glo a Llanrug yn dod i lawr o 50mya i 40mya, ac mae hyn yn weithredol o 19 Gorffennaf.

**Symud arwydd 30 mya i le gwell ar allt Ceunant.**
Y swyddog oedd yn delio hefo hwn wedi gadael y Cyngor, ond wedi cael addewid fod swyddog arall yn delio hefo fo rŵan, ac fe ddylai pethau symud yn ei flaen yn fuan.

**Offer yng Nghae Chware Dolafon**
Pobol yn teimlo nad oes digon o offer yng Nghae Chware Dolafon: e.e. dim ond un "*swing*"

**Map ac arddangosfeydd hanesion Llanrug a Cwm-y-Glo**
Cafwyd cyflwyniad gan Mr Gareth Roberts o Menter Fachwen ar y cynllun o ddiweddaru mapiau ar gyfer yr ardal. Byddai hyn yn gyfle i ddiweddaru'r mapiau presennol ac eglurodd Mr Roberts ei fod wedi gwneud tipyn o waith gydag ardaloedd eraill.

**Cae Chwarae**
Penderfynwyd symud ymlaen ac archebu giât fyddai yn galluogi pramiau a.y.y.b. fynd i gae chwarae Cwm-y-Glo

**Ceisiadau Cynllunio**
'Doedd dim gwrthwynebiad i'r ceisiadau canlynol:
(a) Diwygio amod er mwyn diwygio ffenestri ochr ac i flaen Fron Hyfryd Uchaf, Ffordd Yr Orsaf, Llanrug.
(b) Darparu adeilad cymeriant prif gyflenwad ar gyfer y Parc Gwyliau Brynteg, Llanrug

**Cais gan Gyngor Cymuned Llandygai am gynnal cyfarfod gyda Phrif Weithredwr Cyngor Gwynedd.**
Nodwyd fod rhai o'r materion mae'r Cyngor yn eu hanfon i Gyngor Gwynedd yn araf iawn yn cael ymateb. Ymddengys mai'r un ydi'r sefyllfa mewn sawl cyngor cymuned a thref arall traws Gwynedd. Mae Cyngor Cymuned Llandygai wedi gofyn am gefnogaeth cynghorau cymuned a thref traws Gwynedd i gyfarfod â'r Prif Weithredwr i leisio pryder am y gwasanaeth a dderbynnir. Penderfynwyd croesawu trafodaeth gyda'r Prif Weithredwr i drafod diffyg ymateb gan y Cyngor.

# HYDREF

**Plannu bylbiau**

Gobeithio i chi gael amser dros yr wythnosau diwethaf i edrych drwy'r catalogau neu ymweld â'r ganolfan arddio, i weld beth sydd ar gael o ran bylbiau i'w plannu ar gyfer y gwanwyn. Wrth i'r dyddiau fyrhau, rŵan ydy'r amser i blannu'r bylbiau hynny os na chawsoch gyfle ym mis Medi. Mae'r pridd yn dal yn gynnes ac fe fydd cyfle iddyn nhw fagu gwreiddiau, ond gadewch blannu tiwlipau tan ddiwedd Tachwedd. Oergaledwch nhw cyn eu plannu. Os am eu gosod yn anffurfiol, taflwch nhw i fyny cyn eu plannu wedyn lle maen nhw'n disgyn. Mae rhaw fach/plannwr sy'n dangos dyfnder y plannu'n hynod ddefnyddiol.

**Creu lawnt**

Rŵan yw'r amser hefyd i greu lawnt newydd, neu ei thrwsio, ei hawyru a'i sgriffio. Parhewch i dorri lawnt sefydlog sy'n dal i dyfu, ond gadewch hyd at 3'' o dyfiant dros y gaeaf. Mae'n well peidio â'i droedio, os yn bosib.


Mae'r hydref hefyd yn adeg da i osod tywyrch i greu lawnt – ond cofiwch ddyfrio os ydym yn cael cyfnod sych.

Os oes dail yn disgyn ar eich lawnt mae'n syniad da eu casglu neu eu cribinio fel nad ydynt yn troi'n slwts arno. Gallwch eu defnyddio i greu deilbridd '*leaf mould*' drwy eu rhoi mewn bag mawr plastig efo ychydig o dyllau ynddo a'i glymu'n dynn ac yna anghofio amdano am ychydig flynyddoedd. Mi ydw i'n defnyddio hen focsys ail-gylchu efo caead – ond mae angen ychwanegu dŵr iddo bob hyn a hyn a'i droi i hyrwyddo'r broses o bydru. Mi gymrith ychydig o flynyddoedd i'r dail bydru'n ddigon da fel y gallwch ei ddefnyddio fel compost neu daenfa (*mulch*) ond mae llawer o blanhigion yn hoff iawn ohono, ac wrth gwrs mae'n well i'r amgylchedd na defnyddio mawn.

**Cyffredinol**

Torrwch hen dyfiant coediog i lawr at y bonyn. Bwydwch camelia, tri lliw ar ddeg (hydrangea) a rhododendron â gwrtaith arbennig i flodau sy'n hoffi pridd asid. Defnyddiwch y llawnder tymhorol o ddail a glaswellt ar gyfer eich tomen gompost.

Gwnewch yn siwr eich bod yn chwynnu a chlirio llwybrau er mwyn iddynt gadw'n daclus dros y gaeaf.



Caraints amryliw



Gosodwch fandiau saim (*grease bands*) o gylch coed ffrwythau.

Plannwch blodau'r fagwyr (*wallflowers*) cyn gynted ag y byddwch wedi eu prynu nhw.

Dewch â'r planhigion tŷ i mewn dros y gaeaf, a'u cynefino'n raddol i'r tymheredd gwahanol.

Eleni rwyf am drio plannu moron byr yn un o'r bocsys ail-gylchu yn y tŷ gwydr i geisio cael rhai ar ein platiau i'r cinio Nadolig. Maent wedi eu hadu ers mis Medi yn yr ardd, ac mae gwydr wedi bod dros y bocs am gyfnod, iddynt gael egino'n reit handi: mae Monty Don (*Gardener's World*, BBC 1 – gan fod Garddio a Mwy wedi dod i ben am eleni) yn ffyddiog bod modd tyfu rhai fel hyn. Yn anffodus, dwi'n gwybod o brofiad nad yw tatws yn tyfu'n ddigon da i gael rhai mwy na marblis yma ar lechweddau uchel a rhynllyd Eryri. Amser a ddengys felly – er bod y moron yn y bocsys ail-gylchu wedi tyfu'n dda dros fisoedd yr haf a byddaf yn dal i'w cynaeafu tan ddiwedd mis Hydref. Efallai nad ydynt yn fawr ond maent yn ddigon i mi a fy nghymar.

Rwyf hefyd wedi plannu cennin, cabaits a dail salad amrywiol allan yn yr ardd i'w cynaeafu ddiwedd mis Hydref, gan obeithi, os na fydd hi'n rhy oer, y gallaf eu cynaeafu am ychydig yn hirach. Mae'r gloÿn byw gwyn wedi rhacsio dail cabaits yr haf, felly mae'r rhwydi osodwyd ar y cnydau hydref/gaeaf yn eu cadw nhw allan, yn cadw'r adar draw ac yn cadw'r gath rhag defnyddio'r pridd noeth fel le chwech!

Bydd angen i offer yr ardd gael eu glanhau a'u hogi cyn eu cadw dros y gaeaf. Cofiwch lanhau'r potiau hefyd. Mi rydw i'n trio (heb lwyddo bob amser) golchi'r potiau fel maent yn cael eu gwagio ac yna'n eu cadw yn ôl eu maint i'w hail ddefnyddio fel bo'r angen. Mae 'Jeyes Fluid' gwan yn eu diheintio'n dda. Byddaf yn cadw'r celloedd plastig sy'n dal chwech neu fwy o blanhigion os wyf yn prynu rhai o'r ganolfan arddio er mwyn symud planhigion y bydda i'n eu tyfu o hadau yn y gwanwyn – ail-gylchu, arbed arian ac yn dda i'r amgylchedd.

***Rhosyn Mynydd***

# Ar ben arall i'r lein

Tydi pethau yn symud yn gyflym yn yr hen le 'ma yn tydi, pob math o bethau yn mynd ymlaen ond yn anffodus dim sydd o unrhyw fydd i ni fel 'sgotwrs. Dwi 'di bod yn yr hen gêm yma ers digon o amser i sylweddoli fod pysgota, cyfrifoldeb am warchod ein dyfroedd a diogelwch ein pysgodfeydd yn prysur lithro i ebargofiant. Os oes unrhyw un eisiau dod i'r hen fro 'ma am ryw seibiant oddi wrth y pandemig neu eisiau gwneud rhyw ychydig o botsio a physgota anghyfreithlon yna cariwch ymlaen mae Cymru yma at eich difyrwch. A thra ydw i wrthi, beth am yr holl ymwelwyr, gwersyllwyr a nofiwyr gwyllt fel maent yn galw eu hunain, wel cariwch ymlaen mae Croeso i Gymru yn eich disgwyl, does dim angen i chwi gadw'r lle yn daclus na glanhau eich budreddi chwaith, chwi yw 'bara'r byd ac 'rydych oll yn oleuni i gyd' yn ôl pob golwg.

Drwy ychwanegu at hyn, tydi'r hen dywydd dros Awst ddim wedi bod yn rhyw ffafriol iawn i 'sgota'r afonydd. Er yn ansefydlog, ychydig ddŵr sydd wedi triglo i'n nentydd, a'r ychydig hwnnw wedi ei amsugno i'r ddaear am ei bod wedi bod mor sych cyn hynny. Mi fentrais allan i lawr y Finiog gan feddwl y buasai lli go lêw, siom gefais oherwydd bod rhyw liw llwyd annaturiol ar y dŵr, a doedd dim byd yn gwneud. Gan fod yr afon allan ohoni dyma drio Padarn, dim byd yn gwneud yno chwaith ond mi gefais dipyn o sylw gan griwiau'r canws a byrddau padlo. Mae Cyngor Gwynedd drwy Barc Padarn yn ceisio i'r gymdeithas gytuno i gymal yn y drwydded 'sgota ar y rhan uchaf o'r llyn, sydd yn dweud fod cychod pysgota i gadw hanner can llath oddi wrth unrhyw ddefnyddwyr arall o'r llyn. Ia cofiwch mae'r clwb yn gorfod talu am y fraint o bysgota y rhan yma o'r llyn, pan mae pob Tom, Dick a Harri yn cael rhoi eu hoffer ar y dyfroedd heb orfod talu ceiniog. Croeso i Gymru i bawb ond y pysgotwyr lleol.

Wel fodd bynnag fel hyn oedd, ac yn trio fy ngorau i gadw'n glir o bawb arall, anodd iawn gyda'r llyn dan ei sang, tydw i erioed wedi gweld y fath beth, ond doedd pawb arall yn benderfynol o beidio â chadw hanner can llath oddi wrthyf. 'Roeddwn yn mynd yn ôl ac ymlaen yn araf bach gan obeithio cael rhyw dorgoch neu ddau i'r badell, dim lwc mae gennyf ofn, ond ar y llaw arall mi oedd pawb arall yn fy nilyn o gwmpas y lle. Mewn difri 'roeddwn fel pibydd yn chware rhyw diwn hudolus iddynt fy nilyn, yn anffodus nid oedd yn bosib ei hudo dros y dibyn!

Dau ddiwrnod wedyn 'roeddwn allan am tua hanner awr wedi saith, ia yn y bore cofiwch, ond nid oeddwn ar ben fy hun, mi oedd rhyw ddingi fawr rwber gyda chlamp o beiriant yn ei gyrru o gwmpas y lle, mi aeth nerth ei draed am Ben Llyn a dyna lle y gwelais ymhen rhyw ddwy awr, yn brysur wneud ei ffordd yn ôl i fyny'r llyn. Yn sydyn sylweddolais be oedd yn mynd ymlaen, yn amlwg ei bod wedi glanio ym Mhen Llyn a gollwng criw camera, yno. Dyna ble roeddynt yn ffilmio cyfweliad efo rhyw nofwraig gyda 'float' mawr oren. Wel dyna hi cyn belled a dwi'n y cwestiwn mae'r hen ffrind Llyn Padarn wedi ei golli yn gyfan-gwbwl i ni fel pysgotwyr lleol. A cyn i chwi



**Jeti newydd Llyn Nantlle – lle braf yn de, dim ond cychod pysgota!! Ym Mharc Eryri, gwir le i** ***Enaid gael Llonydd'***



Wel dyma 'dwi yn drio fy ngorau i ddal

**Torgoch Padarn**



**Brithyll Padarn**

ofyn 'gefaist ti frithyll neu dorgoch' yr ateb ydi 'naddo'. Nid oeddwn yn waglaw chwaith gan imi ddal nifer o ddraenogiaid, 'sgodyn dŵr croyw ydy'r rhain, a ddim i fod yma o gwbl, gan eu bod yn gwneud difrod erchyll drwy wledda ar y torgochiaid a'r brithyll bach.

Er bod llawer iawn yn yr ardal yn croesawu'r holl ymwelwyr, rhaid cyfaddef ein bod fel cymdeithas hefyd yn rhoi croeso cynnes i rai sy'n ymweld ac yn parchu ein dyfroedd. Eleni mae nifer wedi darganfod y pleser a'r llonyddwch o ddefnyddio'r cychod i 'sgota am y brithyll brown ar lynnoedd Cwellyn a Nantlle. Cyfeiriais yn y rhifyn diwethaf am y gwaith ar y lanfa ar Cwellyn a'r gwaith oedd ar y gweill i adeiladu jeti newydd ar Nantlle. Wel mae'r joban yma wedi ei chwblhau ac mae'r lle'n werth ei weld.

Er bod y brithyll brown yn dynfa fawr, rhaid peidio anghofio Llyn y Dywarchen sydd hefyd yn atyniad mawr gyda'r rhai sy'n ymddiddori ym mrithyll yr enfys a'r brithyll glas. Mae'r pysgod hyfryd yma yn cael ei stocio yn fisol o ddeorfa Trawsfynydd, pysgod o'r safon uchaf sy'n denu pysgotwyr o bob cornel o'r wlad. 'Rwy'n clywed sibrydion fod Goronwy Robert, Llanrug mor brysur yn addysgu'r 'sgotwrs yma sut i ddal, fod ganddo ddim amser i 'sgota ei hun, neu wrth gwrs fod padelli Llanrug wedi hen flino ar ffrio eu helfaoedd cyson. Dal ati Goron!

Troi'n ôl at Lyn Padarn, a helyntion y torgoch. Fel y gwyddoch 'rwyf wedi cyfeirio nifer o weithiau at y gwaith sy'n mynd ymlaen i gynyddu'r stoc, mae'r cynllun stocio yn ail gydiad ynddi mis Rhagfyr eleni yn dilyn y cau i lawr dros gyfnod y Covid-19. Mae

A dyma be dwi'n ddal - rhywbeth mawr o'i le!



**Draenog (Perch) Padarn**

hyn i'w groesawu ond wrth gwrs does dim i gynyddu stoc fel cael cynllun o fwrw grawn a magu naturiol, y rhwystr mawr i hyn yw'r mannau claddu a gollwyd drwy gynllun Dinorwig – sef colli Peris, rhan o Afonydd Peris a'r Bala a'r cwbl o Afon Dudodyn. Yn anffodus ni fydd yn bosib adfer dim o'r Dudodyn na rhan o'r Peris chwaith, ond gyda'r Bala mae llygedyn mawr o obaith. Er hir ddisgwyl 'rwyf newydd gael clywed bydd gwaith yn dechrau ar ail gyfeiro rhan o'r afon i greu mannau addas i'r torgoch fwrw grawn, bydd y gwaith yma wedi ei gwblhau erbyn diwedd Hydref.

I gau ar y torgoch, ar newydd ardderchog arall, gyda'r llyn yn prysur lanhau, mae rhan o dennau Pen Llyn unwaith eto wedi dechrau cael defnydd fel magwraeth naturiol i'r torgoch, dyma'r ail dymor i hyn ddigwydd. Y perygl mawr i ddyfodol hyn yw'r holl gerdded a phadlo sy'n aflonyddu ar wely'r llyn, ac fel cyfeirias ar y dechrau, bydd y 'Perch' yn bwyta'r pysgod bach ar eu deoriad. Cawn weld os wnaiff yr awdurdodau roi unrhyw sylw i hyn dros y misoedd nesaf.

Mis nesaf cawn dipyn o newyddion am y daliadau, yn enwedig y rhediad ardderchog o wyniadau sydd nawr yn dangos ei hunain ar y Llyfni.

**Huw Price Hughes**

# Tyst i Ddawn


I ddilynwr unrhyw gamp mae gennym i gyd eiliad neu brofiad sy'n aros yn y cof. I gryfhau y profiad gallwn ychwanegu y geiriau, "Roeddwn i yno." I mi, cic dros ben Mark Hughes ar y Cae Râs yn erbyn Sbaen, neu gais Gareth yn erbyn yr Alban a'i wyneb yn waedgoch dan glai Parc yr Arfau. A llawer mwy.

Ddiwedd Awst fe ges y profiad o fod yn dyst i ddigwyddiad cyffelyb, a hynny yn fy mhriod gamp sef criced. Yr achlysur oedd yr ail ddiwrnod o'r drydedd gêm brawf rhwng Lloegr ac India ar faes Headingley, Leeds. Aeth criw ohonom o glwb criced Bangor draw. Yn sicr, rhoddodd digwyddiadau'r diwrnod, ac un yn benodol, statws haeddianol i griced ar lefel prawf oedd yn suddo braidd dan fygythiad y dull ffwrdd a hi – er adloniadol – a geir yng nghystadlaethau y T20 a'r ymwelydd diweddaraf y 100 pêl.

Y mae'r term 'gêm brawf' yn hollol addas. Dyma'r ffurf o'r gêm sy'n herio dawn, ymroddiad a dycnwch unigolyn yn erbyn prif chwaraewyr y cyfnod. Yn nhîm Lloegr roedd nifer o'r prif chwaraewyr yn absennol. I lanw'r bylchau rhoddwyd 'cyfle olaf' i ambell fatiwr. Yr un oedd y craffu ar berfformiad y bowlwyr. Y wobr am lwyddiant oedd lle yng ngharfan Cyfres y Lludw draw yn Awstralia y gaeaf yma – os bydd Covid-19 yn caniatau.

Roedd y tîm wedi colli y prawf blaenorol ar faes Lords oherwydd tactegau plentynaidd o geisio cipio wicedi drwy fwlio y batwyr safle isaf yr India. I'r gwrthwyneb, yr India yn goresgyn yr her a chipio buddugoliaeth o safn colled. India ar y blaen 1 – 0 yn y gyfres a phrawf Headingley yn dyngedfennol. A oedd gallu geiriol ffrwydrol - a dadleuol ar brydiau – Kholi capten yr India yn ffactor? Mae seicoleg yn elfen bwysig ar y lefel yma.

Ar y diwrnod cyntaf rhyfeddol gwelwyd y glorian yn troi i gyfeiriad y Saeson. Gwylio ar y teledu gartref roeddwn, a




rhyfeddu at ddisgyblaeth a chywirdeb bowlwyr y Saeson. Yr hen lwynog Anderson – 39 oed – yn llwyr fanteisio ar lain ac awyrgylch cymylog oedd wrth ei fodd. Y meistr ar waith. India allan i gyd am 78! Beth fuasai'r ymateb? Dau fatiwr agoriadol Lloegr oedd 'ar brawf olaf' yn gorffen y diwrnod gyda phartneriaeth o 120 heb golled. Roedd y llwyfan wedi ei osod ar gyfer ail ddiwrnod allweddol.

Yno'n 'fyw' heb fanteision sylwebaeth neu fynych ail-chwarae rhaid oedd canolbwyntio a throi'n ddadansoddwr. Ches i ddim fy siomi a diolch i un chwaraewr rwyf yn falch o gyhoeddi "roeddwn i yno". Y gŵr oedd Joe Root, capten Lloegr. Soniais yn gynharach am yr elfennau sy'n diffinio a llywio gêm brawf. Dyma unigolyn dan bwysau aruthrol. Dyma'r capten a wynebodd y bai am arweiniad orffwyll a gollodd y gêm yn Lords. Tactegau plentynaidd gyda'r pwyslais ar anafu'n gorfforol yn lle canolbwyntio ar gipio wicedi drwy ddycnwch. Yn chwarae ar ei faes cynefin, ac arwain tîm heb chwaraewyr allweddol. Yn batio ar lain oedd yn rhoddi cymorth i rai o fowlwyr gorau ar y lefel ryngwladol.

Yn hyderus y camodd i'w fatiad. R-O-O-T, R-O-O-T bonllefai'r dorf. Wedi chwech pelen roedd wedi sgorio 8 rhediad. Roedd y meistr yn gosod ei lwyfan. Yn bartner iddo Dawid Malan, cyd-chwaraewr erbyn hyn i Swydd Efrog. Un wedi ei 'alw'n ôl' yng nghanol tymor siomedig bersonol. Gallai rhywun synhwyro'r hyder yn cynyddu ym matiad Malan. Onid oedd y graig yn gefn iddo yn cefnogi, canmol ac arwain?

Yn ystod sesiwn y pnawn, yn fy marn i, buom yn dystion i un o fatiadau mwyaf disglair y tymhorau diwethaf, ac efallai mwy yn ôl na hynny. Meistriolaeth o'r bêl, a'r rhediadau yn crynhoi o ergydion 360 gradd o gwmpas y maes. Pob ergyd wedi ei mesur. Dim cyfle i'r gwrthwynebwyr gipio y wiced allweddol yma. Rhai o'r ergydion yn wefreiddiol. Gwir feistr wrth ei waith. Trwy'r cwfer, sgwâr ar ddwy ochr y llain, neu'n syth i'r ffin heibio'r bowliwr. Daeth ei gant yn ddi-ffwdan gan adael Lloegr a mantais o 300 rhediad ar derfyn dydd. Yr oeddwn, ar un o'r achlysuron prin ble rwyf yn mynychu y lefel uchaf o fyd y campau, wedi edrych ymlaen a gobeithio, a gwireddwyd y disgwyliadau. Roeddwn wedi gweld y meistr yn gosod ei stamp.

Ysgrifennwyd y llith yma mewn gwesty yn Leeds dwy awr wedi i chwarae'r dydd ddod i ben. A oedd ei fatiad wedi galluogi Lloegr i gipio'r fuddugoliaeth? Fe wyddoch y canlyniad, ond nid wyf am roddi unrhyw sylw i'r tri diwrnod oedd yn weddill.

Yr oeddwn wedi tystio i fatiad arbennig gan chwaraewr arbennig a'm galluogodd i gyhoeddi "roeddwn i yno."

HYWEL
WILLIAMS
AELOD SENEDDOL DROS ARFON

01286 672076
8 Stryd y Castell, Caernarfon
hywel.williams.mp@parliament.uk

# Os Bachu, Bachu Go Iawn



Hoffwn dynnu sylw at gamp pysgota diweddar gan Sion Evans, 25 oed o Fethel. Mae pysgota yng ngwaed Sion gan fod ei daid, y diweddar Oscar Evans, yn bysgotwr o safon rhyngwladol.

Ers yn bump oed roedd Sion wedi derbyn gwersi gan 'taid Oscar' wrth bysgota am frithyll brown yn ein hafonydd lleol. Cymaint yw diddordeb Sion yn y gamp fel ei fod yn teithio llawer – yn aml dros y ffin – i geisio 'bachiad'. Un o'i hoff lefydd yw swydd Rhydychen ble bydd yn pysgota am un o bysgod y llyn sef y *carp*. Yn y llun gwelir Sion yn cydio'n dynn mewn *carp* a rwydodd yn Rhydychen.

Tra'n pysgota môr oddi ar arfordir Gogledd Cymru daeth camp Sion i sylw'r *Angling Times*. Y tro yma roedd yn pysgota am *tope,* aelod o deulu'r siarcod. Nid oedd yn barod i ddatgelu yr union fan na'r graig, gan mae'n ymddangos fod datgelu lleoeddfannau llwyddianus yn denu sylw pysgotwyr eraill. Rhan o ddawn pysgotwr da yn amlwg yw darganfod y llecynnau hyn. Mae'n ymddangos o ddarllen am y math yma o bysgota bod angen dŵr twfn yn agos i'r lan, ac fod y *tope* yn dod tua'r lan fel daw'r llanw i mewn. O'r un fan flwyddyn yn gynt ar lanw uchel roedd Sion wedi bachu *tope* yn pwyso 60 pwys.

Ar y noson lwyddiannus roedd gan Sion ddigon o lein i daflu 60 llath i'r môr. A ddeuai'r *tope* i'r lan gyda'r llanw? Rhoddwyd mecryll fel abwyd ar y bachyn. Er i flaen yr enwair symud ambell waith wrth i greaduriaid llai gael eu denu at yr abwyd ni ddeuai'r 'mawr'. Yna, a hi ar fin nosi plygwyd yr enwair. Roedd y *tope* i'w weld â'r bachyn yn dynn yng nghornel ei safn. Gyda'i bartner – colofnydd o'r *Angling Times* – yn dal yr enwair, ymlwybrodd Sion ar hyd y creigiau llithrig. Cyrhaeddodd fan ble y gallai afael yn asgell y pysgodyn a'i lusgo i'r lan. Hwyrach, ar dir mwy sefydlog pwyswyd y *tope* a darganfod ei fod yn bysgodyn 35 pwys.

Gyda llaw Sion, pwy goginiodd y sglodion?

## Bangor 1876 3 Llanberis 0

Hwn oedd fy nghyfle cyntaf i wylio gêm o beth a elwir bellach yn haen 4 o byramid pêl-droed Cymru. Ychydig o ffeithiau gyntaf. Gêm ar nos Wener dan lif-oleuadau ar faes aml-bwrpas Treborth gyda'r gic gyntaf am 7.30pm. Treborth yn faes anodd i'w gyrraedd os nad oes gennych fodur. Er hynny denwyd torf o 320 yno i wylio, nifer fuasai i'w gweld yn aml ym mhrif adran pêl-droed Cymru yn y tymhorau diwethaf. Cyfleusterau da i wylio'r gêm. Yn sicr mae sefydlu Bangor 1876 wedi tanio dychymyg ardal Arfon/Môn. Yn amlwg mae ganddynt aelodaeth – ie, clwb y cefnogwyr ydyw – sy'n driw iddynt yn y gemau boed gartref neu i ffwrdd. Yn ddios, bydd clybiau fel Llanberis a Llanrug yn elwa pan fydd y 'Bangor Lads' yn ymweld – ac ambell i dafarn leol dybiwn i ddim. Ai yr arwyddion o lwyddiant ar lefel ryngwladol sydd wedi tanio y brwdfrydedd yma mewn pêl-droed lleol? A oes mwy bellach yn mynychu y gemau lleol ac yn tapio gemau ar y teledu os yw Lerpwl, Man U neu Man City ymlaen. Gobeithio wir.

Cefais fy mhlesio'n arw gyda'r safon. Tîm Bangor yn gymysgedd o 'hen benau' fel Les Davies, Michael Johnson, Joe Culshaw a Jamie Petrie, chwaraewyr am sawl tymor yn Uwch Gynghrair Cymru. Yna chwaraewyr ieuanc o'u cwmpas yn elwa o brofiadau'r profiadol. Coesau ifanc ffit. Arwyddion o hyfforddi pendant a chreu gofod.





Tîm ifancach gan Lanberis ac eto'r awydd yma i chwarae pêl-droed. Roedd gwyneb y cae yn rhoddi mantais i'r chwaraewr slic, cyflym. Yn yr hanner cyntaf, Llanberis dan gryn bwysau ac yn ei chael yn anodd i glirio'r bêl. Gormod o glirio di-bwrpas ac un adyn o flaenwr yn ceisio rhoi rhyw osteg i'r amddiffynwyr. Serch hynny dim ond 1-0 i Fangor oedd hi ar yr egwyl.

Mor wahanol yn yr ail hanner. Llawer mwy cystadleuol, a'r Darans yn fwy cyfforddus ar y bêl. Pasio byrrach, symudiadau da yn creu gofod, a mwy o hyder i anelu at y gôl – yn wir, taro'r trawst ag un ergyd wych, ynghyd â sawl hanner cyfle. Gellid dadlau mae yn erbyn llif y chwarae y daeth dwy gôl arall Bangor yn yr ail hanner. 3-0 i Fangor ar y diwedd, dipyn gwahanol i'r sgoriau criced maent yn sgorio fel arfer. Gall tîm ifanc y Darans ymfalchio yn y perfformiad yma ac efallai yn edrych ymlaen i'w croesawu draw i Faes Ffordd Padarn, a gêm ar laswellt arferol.

Dau sylw i orffen. Os yw meithrin chwaraewyr yn ran annatod o'r dull yma o haenu yna yn fy marn i mae y ddau 20 oed Ifan Mansoor a Thomas Collins ( Llanberis) a'r chwaraewr 18 oed Cameron Barry (Bangor) yn chwaraewyr ifanc fydd yn denu sylw clybiau o'r haenau uwch. Yr ail sylw am awyrgylch o gwmpas y maes. O wrando, roedd yn amlwg mai trafod pêl-droed Cymru – o'r lleol i'r cenedlaethol oedd natur y sgyrsiau. Er ein bod ar diriogaeth y 'Bangor Lads' mor Gymreig eu hiaith oedd y trafodaethau. Oedd, roedd sawl agwedd positif i mi yn deillio o'r nos Wener honno. Ydych chi wedi bod – neu am fynd draw – i gefnogi'r timau lleol? Chewch chi ddim o'ch siomi.

# Braf bod nôl!



O'r diwedd yn ystod gêmau rhyngwladol mis Medi roedd cefnogwyr Cymru wedi cael dychwelyd i Stadiwm Dinas Caerdydd heb unrhyw gyfyngiadau. Hir yw pob ymaros, ac yn sicr roedd cefnogwyr Cymru wedi disgwyl am amser maith i gael bod nôl yn fricsen yn y Wal Goch. Y tro diwethaf i gefnogwyr Cymru fod yn Stadiwm Dinas Caerdydd heb unrhyw gyfyngiadau oedd y noson ym mis Tachwedd pan ennillon ni ein lle yn yr Ewros! Cynhaliwyd gêm gyfeillgar mis Mehefin eleni yn erbyn Albania gyda nifer cyfyngedig o docynnau, ond roedd hi'n braf iawn gweld torf fawr yn y gêm yn erbyn Estonia. Doedd dim cefnogwyr oddi cartref yn bresennol oherwydd cyfyngiadau Covid-19. Daeth newyddion da i gefnogwyr Cymru serch hynny, oherwydd fe gyhoeddodd UEFA y byddai cefnogwyr oddi cartref yn cael teithio i gemau Ewropeaidd o fis Hydref ymlaen, yn dibynnu ar gyfyngiadau lleol. Gyda Cymru yn chwarae dwy gêm oddi cartref yn y Weriniaeth Tsiec ag Estonia ym mis Hydref roedd amseru'r cyhoeddiad hwn yn berffaith. Roedd carfan Cymru wedi cael ei tharo gan anafiadau a Covid-19, gydag Aaron Ramsey, Kieffer Moore a Connor Roberts yn rhai o'r enwau oedd ar goll. Y gobaith oedd na fyddai hynny yn cael gormod o effaith negyddol ar y canlyniadau.

Teithiodd Cymru i Helsinki ar gyfer gêm gyfeillgar yn erbyn y Ffindir ar y 1af o Fedi. Roedd hi'n braf iawn cael gweld y to ifanc, megis Brennan Johnson, Ruben Colwill a Matt Smith yn cael eu cyfle i ddisgleirio. Daeth cyfle i Gymru ar ôl 25 munud o chwarae wrth i Brennan Johnson gael ei dynnu lawr yn y cwrt cosbi gan ennill cic o'r smotyn. Harry Wilson oedd y dyn i gymryd y cyfrifoldeb o geisio rhoi'r tîm oddi cartef ar y blaen, gan fod Gareth Bale ar y fainc. Yn anffodus cafodd ei gic ei arbed gan Eriksson y gôl-geidwad. Roedd Cymru yn fwy o fygythiad yn ystod yr ail hanner ond ni lwyddon nhw i gael y bêl i mewn i'r rhwyd. Gêm ddigon distaw gafodd Danny Ward a Wayne Hennessey yn y gôl i Gymru wrth i'r Ffindir fethu a chael dim un cyfle ar darged yn ystod y gêm. Gorffennodd y gêm yn ddi-sgôr. Er nad oedd hi'n gêm gyffrous iawn roedd digon o elfennau positif i'w cymryd i symud ymlaen i'r gemau nesaf.

Gêm yng ngrŵp cymhwyso i Gwpan y Byd 2022 yn erbyn Belarws oedd nesaf i Gymru ac roedd yn rhaid iddyn nhw deithio yr holl ffordd i Kazan yn Rwsia ar ei chyfer. Yn ychwanegol at y chwaraewyr oedd ar goll o'r garfan yn barod oherwydd anafiadau a Covid-19, roedd Cymru hefyd yn colli Ethan Ampadu, Tyler Roberts a Brandon Cooper yn Kazan oherwydd problemau Visa.

Fe gychwynodd y gêm yn dda i Gymru gyda'r dyfarnwr yn pwyntio am gic o'r smotyn o fewn y pum munud cyntaf a rhwydodd Gareth Bale y bêl i'r gôl. Roedd rhywun yn tybio mor fuan i mewn i'r gêm y byddai hon yn mynd yn dda i Gymru. Yn y munudau cychwynnol hynny roedd Cymru yn edrych yn fygythiol iawn ar y bêl ac yn hawlio'r meddiant. Ond doedd hynny ddim i barhau. Cyn i'r cloc gyrraedd hanner awr o chwarae fe bwyntiodd y dyfarnwr eto am gic o'r smotyn ond y tro hwn i Belarws. Cafodd Chris Gunter ei gosbi am gic uchel yn y cwrt cosbi. Roedd Belarws yn gyfartal gyda Danny Ward yn methu cadw'r bêl allan o'r rhwyd. Yna, llai na dau funud yn ddiweddarach roedd Belarws wedi mynd ar y blaen. Cafodd amddiffyn Cymru eu dal yn cysgu ac fe gymerodd Belarws fantais o'r blerwch hynny.

Aeth Cymru yn fwy rhwysredig yn ystod yr ail hanner a'i gweld hi'n anodd unioni'r sgôr. Roedd amddiffyn Belarws yn anodd iawn i dorri drwyddo. Unwaith eto, daeth ychydig o lwc i Gymru wrth i Ben Davies ennill cic o'r smotyn. Am y drydedd tro yn y gêm roedd y dyfarnwr eto yn pwyntio at y smotyn. Fe sgoriodd Gareth Bale eto gan wneud y sgôr yn gyfartal. Erbyn hyn roedd y ddau dîm yn chwilio am bob cyfle i ennill y gêm ac yn y munudau olaf, Cymru gipiodd y fuddugoliaeth. Daeth cyfle euraidd i Gymru yn y munudau ychwanegol gyda Mark Harris yn gweld ei gyfle yntau yn cael ei arbed ond roedd y dyn ei hun, Gareth Bale yn y lle iawn ar yr amser iawn ac fe gafodd ei hatric. Y sgôr terfynol felly oedd Belarws 2, Cymru 3. Torcalon i Belarws ond tri phwynt pwysig iawn i Gymru.

Yn dilyn y fuddugoliaeth yn Kazan yn erbyn Belarws roedd Cymru yn gobeithio ei gwneud hi'n chwe phwynt allan o chwech wrth iddyn nhw herio Estonia yng Nghaerdydd. O fewn eiliadau o'r chwiban fe welodd Cymru gyfle i fynd ar y blaen ond fe fethodd Harry Wilson y targed ac fe aeth ei gyfle heibio'r gôl. Roedd pethau yn edrych yn bositif i Gymru wrth iddyn nhw gael mwy na digon o'r bêl. Fe fethodd Tyler Roberts gyfle euraidd 1 v 1 yn erbyn y gôl-geidwad ac roedd Cymru yn ei chael hi'n anodd i daro'r bêl i gefn y rhwyd. Bu rhaid i Rob Page wneud newid o fewn deg munud wrth i Harry Wilson fynd i ffwrdd gydag anaf a daeth Jonny Williams ymlaen yn ei le. Roedd Estonia yn ei gwneud hi'n anodd iawn i Gymru ac fe welodd Mattias Kait ei ergyd yn taro'r trawst ar gyfer y tîm oddi cartref.

Gwelwyd Mark Harris yn dod ymlaen yn yr ail hanner i Gymru yn dilyn perfformiad da oddi ar y fainc yn erbyn Belarws yn gynharach yn yr wythnos. Fe gafodd berfformiad da iawn eto yn erbyn Estonia a dwi'n siwr y byddwn ni'n gweld tipyn mwy ohono fo mewn crys Cymru yn y dyfodol. Mae'n rhaid dweud bod Karl Hein gôl-geidwad Estonia, oedd ond yn 19 mlwydd oed, wedi chwarae yn rhagorol gan wneud arbediad ar ôl arbediad. Er holl ymdrechion Cymru roedd hi'n anodd eu gweld nhw'n sgorio. Roedd rhaid i Danny Ward wneud arbediad pwysig yn munudau olaf y 90 wrth i Estonia geisio dwyn buddugoliaeth a fyddai'n torri calonnau Cymru. Yn yr amser ychwanegol fe aeth Joe Morell i lawr yn y cwrt cosbi ac roedd galwadau am gic o'r smotyn. Roedd ychydig o obaith ymysg y cefnogwyr wrth iddyn nhw edrych ar y dyfarnwr yn rhedeg at yr ystlys. Ai mynd i edrych ar y sgrîn VAR oedd o? Naci. I'r gwrthwyneb yn llwyr, fe redodd yno i roi cerdyn melyn i Rob Page. Fe wnaeth hynny grynhoi noson Cymru, doedd hi ddim i fod. Daeth y chwiban olaf a gêm gyfartal ddi-sgôr oedd hi i Gymru yn erbyn tîm yn safle 110 detholion y byd. Yn bendant roedd yn ganlyniad siomedig ac mi ddylai wedi bod yn fuddugoliaeth. Cafodd Cymru 20 cyfle am y gôl ond gyda chymysgedd o berfformiad gwych Karl Hein a methiant Cymru i fod yn fwy uniongyrchol, amhosib oedd hi i gael y bêl yng nghefn y rhwyd.

Er gwaethaf y canlyniad siomedig, roedd hi dal yn wych cael bod yn ôl yn rhan o'r Wal Goch ar ôl disgwyl am 696 o ddyddiau ers y gêm diwethaf heb unrhyw gyfyngiadau. Roedd hi'n anhygoel clywed pob un person yn y stadiwm yn canu'r anthem ar dop ei lleisiau ac roedd yn fy atgoffa gymaint rwyf wedi methu hynny, ac wedi methu'r profiad o fynd i wylio Cymru. Ar ôl 52 o funudau o chwarae cafwyd teyrnged i Gary Speed a fyddai wedi bod yn dathlu ei benblwydd yn 52 ar ddiwrnod y gêm. Roedd y stadiwm i gyd yn cymeradwyo am y funud honno gyda llun ohono i weld ar y sgrîn. Moment deimladwy dros ben. Fydda'i wastad yn dweud, yn ogystal â llawer iawn o bobl eraill, ei bod hi'n bwysig iawn i gofio na fyddai Cymru wedi bod yn agos at gyflawni hanner yr hyn maent wedi wneud yn ystod y blynyddoedd diwethaf heb Gary Speed a'r hyn y gwnaeth o i bêl-droed Cymru.

Byddai chwe phwynt yn amlwg wedi bod yn well na thri, ond nid yw pethau ar ben i Gymru o bell ffordd. Byddent yn teithio i'r Weriniaeth Tsiec mis Hydref ac yna i Estonia ar gyfer dwy gêm bwysig iawn. Pwysig hefyd yw cofio fod Cymru efo gêm wrth gefn, felly mae hi dal yn hollol agored ar gyfer yr ail safle a phopeth dal ar ôl i'w chwarae.

ISSN 2516-7235